

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Llinos Madeley
Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.15 0300 200 6565
SeneddPPIA@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 – 09.45)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–2021

(09.45 – 11.00)

(Tudalennau 1 – 94)

Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg

Huw Morris, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Steve Davies, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Addysg

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil – MEG Addysg

CYPE(5)–01–20 – Papur 1 – Llywodraeth Cymru

Egwyl

(11.00 – 11.10)



3 Craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–2021

(11.10 – 12.25)

(Tudalennau 95 – 229)

Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Grwpiau Agored i Niwed a
Llywodraethu'r GIG

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Yr Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil – MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

CYPE(5)–01–20 – Papur 2 – Llywodraeth Cymru

CYPE(5)–01–20 – Papur 3 – Llythyr yn gofyn am wybodaeth gan Fyrddau
Iechyd

CYPE(5)–01–20 – Papur 4 – Ymateb gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan (Saesneg yn unig)

CYPE(5)–01–20 – Papur 5 – Ymateb gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr(Saesneg yn unig)

CYPE(5)–01–20 – Papur 6 – Ymateb gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro (Saesneg yn unig)

CYPE(5)–01–20 – Papur 7 – Ymateb gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg (Saesneg yn unig)

CYPE(5)–01–20 – Papur 8 – Ymateb gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
(Saesneg yn unig)

CYPE(5)–01–20 – Papur 9 – Ymateb gan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
(Saesneg yn unig)

CYPE(5)–01–20 – Papur 10 – Ymateb gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe (Saesneg yn unig)

CYPE(5)–01–20 – Papur 11 – Llythyr yn gofyn am wybodaeth gan Gymdeithas
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru)

CYPE(5)–01–20 – Papur 12 – Ymateb gan Cymdeithas Cyfarwyddwyr

Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) (Saesneg yn unig)
CYPE(5)-01-20- Papur 13 - Papur gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Cymru ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 (mae'r papur hwn yn
berthnasol ar gyfer Eitem 2 ac Eitem 3)

4 Papurau i'w nodi

(12.25)

Mae'r holl bapurau i'w nodi ar gael mewn pecyn atodol ar wahân.

CYPE(5)-01-20 - Papurau i'w nodi 1 - 13

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.25)

6 Craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-2021 - Trafod y dystiolaeth

(12.25 - 12.45)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Papur gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor PPIA

Dyddiad: 8 Ionawr 2020

Teitl: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2020-21 - Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gynigion y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a amlinellir yng Nghyllideb ddrafft 2020-21¹, a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2019. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Mae Cyllideb ddrafft 2020-21 yn darparu cynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddiad refeniw a chyfalaf yn y ddarpariaeth addysg. Mae cyllidebau refeniw ar gyfer 2020-21 yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf, a bydd y gyllideb cyfalaf yn diweddarau'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2020-21.

Paratowyd y gyllideb hon ar ôl Cylch Gwario blwyddyn Llywodraeth y DU ac nid yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Er mai dim ond am flwyddyn yn unig y gellir pennu cynlluniau refeniw a chyfalaf, maent yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Llywodraeth hon i warchod gwasanaethau cyhoeddus, darparu'r sefydlogrwydd ariannol sydd ei hangen i fuddsoddi yng Nghymru i feithrin twf economaidd ac i gefnogi ein blaenoriaethau.

1. Meysydd Trawsbynciol**1.1 Tryloywder cyflwyniad y gyllideb**

1.1.1 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau dangosol ar gyfer y MEG Addysg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2020-21:

MEG Addysg – Crynodeb	£000oedd			
	2019-20 Gyntaf Cyllideb Atodol	Diwygiedig Llinell Sylfaen Adnoddau / 2020-21 dangosol cyfalaf	2020-21 Newidiadau	2020-21 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd
Adnodd	1,510,853	1,508,971	57,819	1,566,790
Cyfalaf	218,251	189,296	28,220	217,516
Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf	1,729,104	1,698,267	86,039	1,784,306
AME ² Adnoddau	-123,844	-123,844	-555	-124,399
AME Cyfalaf	774,302	774,302	117,086	891,388
Cyfanswm AME	650,458	650,458	116,531	766,989

¹Yn y papur hwn, mae '/' yn cyfeirio at flwyddyn academiaidd sy'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf ac mae '-' yn cyfeirio at flwyddyn ariannol sy'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.

² Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Cyfanswm Addysg – MEG³	2,379,562	2,348,725	202,570	2,551,295
--	------------------	------------------	----------------	------------------

Adnodd

- 1.1.2 Ar gyfer referniw, mae ffigurau Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20, a gyhoeddwyd ar 18 Mehefin 2019 yn cynrychioli'r ffigur sylfaenol ar gyfer Cyllideb ddrafft 2020-21, yn amodol ar ddau addasiad bychan, sy'n cael eu crynhoi yn y tabl isod:

	£000
Cyllideb Adnoddau MEG Addysg - Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20	1,510,853
Addasiadau sylfaenol:	
Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwariant (BEL) Rhaglenni CCAUC – dileu arian Pontio'r UE ar gyfer dyraniad Cymru Fyd-eang ar gyfer 2019-20. Mae cyllid o £1.369m yn cael ei ddyrannu ar gyfer 2020-21.	(1,382)
Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg mewn Addysg – dileu cyllid Plaid Cymru a ddyrannwyd yn 2018-19 a 2019-20 i wella'r ddarpariaeth o adnoddau addysg dwyieithog. Mae cyllid wedi'i adfer fel rhan o newidiadau ar gyfer 2020-21.	(500)
Adnoddau MEG Addysg - llinell sylfaen 2019-20 - Cyllideb ddrafft 2020-21	1,508,971

- 1.1.3 Mae'r gyllideb adnoddau ar gyfer y MEG Addysg wedi cynyddu £58m, 4.1% mewn termau ariannol neu 2.3% mewn termau real o'i gymharu â llinell sylfaen 2019-20. Ceir crynodeb o'r newidiadau isod, yn ôl adnoddau referniw (cyllidol) ac adnoddau nad ydynt yn arian parod (anghyllidol).

Addysg: Cyllideb adnoddau	£000oedd				% newid ers Llinell sylfaen 2019-20 %
	2019-20 Cyllideb Atodol Gyntaf	2019-20 Llinell sylfaen	Newidiadau 2020-21	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21	
Referniw (cyllidol)	1,403,699	1,401,817	57,819	1,459,636	4.1%
Heb fod yn arian parod (anghyllidol)	107,154	107,154	-	107,154	-
Cyfanswm Adnoddau	1,510,853	1,508,971	57,819	1,566,790	3.8%

- 1.1.4 Ceir crynodeb o'r cynnydd o £58m yn y tabl isod, sy'n cynnwys nifer o ddyraniadau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd cyffredinol yn y cyllid o Gronfa wrth Gefn Cymru i'r MEG, sy'n dod i gyfanswm o £57.995m, wedi'i wrthbwysu gan drosglwyddiad o £0.176m i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth:

Addysg: Dyraniadau'r gyllideb adnoddau	BEL	2020-21 £000
Cyllid i gefnogi'r broses o ddarparu Cwricwlwm newydd i Gymru	Adolygu'r Cwricwlwm	750
Cael gwared yn llwyr ar y cyllid amser cyfyngedig ar gyfer cyflogau athrawon (£15m wedi'i gytuno dros 2 flynedd - £7.5m yn 2018-19 a 2019-20)	BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon	(7,500)
Rhwydweithiau Cenedlaethol	BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon	3,000
Rhaglen Gyfnewid Athrawon Cyfrwng Cymraeg	BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon	500

³ Prif Grŵp Gwariant

Addysg: Dyraniadau'r gyllideb adnoddau	BEL	2020-21 £000
Cymwysterau Cymru - diwygio'r cwricwlwm	Cymwysterau Cymru	981
Chweched Dosbarth – Cyflogau Athrawon 19/20 (£1.5m) a Phensiynau (£2.2m)	Darpariaeth Addysg Bellach	3,700
Addysg Bellach - Cyflogau (£4.9m) a Phensiynau (£4m)	Darpariaeth Addysg Bellach	8,900
Addysg Bellach - demograffeg	Darpariaeth Addysg Bellach	5,500
Cynllun Peilot Cyfrifon Dysgu Personol (PLA)	Darpariaeth Addysg Bellach	1,000
Urddas yn ystod y Mislif - Addysg Bellach	Darpariaeth Addysg Bellach	845
Iechyd Meddwl mewn Addysg Bellach	Darpariaeth Addysg Bellach	2,000
Sefydliad Seren	Darpariaeth Addysg Bellach	1,000
Iechyd meddwl – Addysg Uwch	Rhaglen CCAUC	2,000
Cyllid Pontio'r UE - Cymru Fyd-Eang	Rhaglen CCAUC	1,369
Cymorth i ddysgwyr lleiafrifoedd ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr	Grant Gwella Ysgolion	1,300
Grant Gwella Addysg - cymarebau Cyfnod Sylfaen	Grant Gwella Ysgolion	2,500
BEL Grant Datblygu Disgyblion gan gynnwys ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion Blynnyddoedd Cynnar (EYPDG) (£6.6m)	Grant Datblygu Disgyblion	9,400
Ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad	Grant Datblygu Disgyblion	3,200
Rhith ysgolion Plant sy'n Derbyn Gofal	Grwpiau Agored i Niwed (newydd)	900
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Anghenion Dysgu Ychwanegol	8,000
Cynllun peilot brecwast am ddim mewn ysgolion uwchradd	Bwyd a maeth mewn ysgolion	450
Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol	Bwyd a maeth mewn ysgolion	1,800
Ymestyn cynllun peilot llwgu dros y gwyliau	Bwyd a maeth mewn ysgolion	1,000
Cymorth i fyfyrwyr ag anawsterau dysgu	Lleoliadau Arbenigol ôl-16	1,400
Iechyd meddwl mewn ysgolion - dull ysgol gyfan	Dull ysgol gyfan (newydd)	2,000
Addysg ddewisol yn y cartref	Mynd i'r afael â dadrithiad	1,500
Adnoddau addysg dwyieithog	Y Gymraeg mewn Addysg	500
Cynnydd mewn cyllid – Cronfeydd Wrth Gefn		57,995
Trosglwyddo i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth - Rhif Unigryw'r Dysgwr	Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg	(176)
DEL Adnoddau - cynnydd net		57,819

Cyfalaf

- 1.1.5 Mae'r gyllideb cyfalaf ar gyfer Addysg yn £217.5m ar gyfer 2020-21, sef cynnydd o £28.2m o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2020-21 a gyhoeddwyd yn y Gyllideb derfynol ar gyfer 2019-20. Ceir crynodeb o'r newidiadau, sy'n cynnwys manylion dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Cymru, yn y tablau isod:

Addysg: Cyfalaf Y Gyllideb	£000				
	2019-20 Atodol Gyntaf Y Gyllideb	2020-21 Cynlluniau yn unol â 2019-20 Cyllideb Derfynol	Newidiadau 2020-21	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21	% newid ers cynlluniau dangosol 2020-21
Cyfalaf traddodiadol	218,442	189,491	28,220	217,711	14.9%

Trafodiadau ariannol ⁴	(191)	(195)	-	(195)	-
Cyfanswm Cyfalaf	218,251	189,296	28,220	217,516	14.9%

Addysg: cyllideb cyfalaf Dyraniadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn	BEL	2020-21 £000
Coleg y Cymoedd – cartref carbon niwtral	Seilwaith Addysg	8,220
Cyfleusterau Dechrau'n Deg a Gofal Plant	Seilwaith Addysg	10,000
Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21 ^{ain} Ganrif – codiad cyfalaf cyffredinol	Seilwaith Addysg	10,000
DEL Cyfalaf - cynnydd net		28,220

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

1.1.6 Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn berthnasol i fenthyciadau myfyrwyr, sy'n seiliedig ar alw ac sy'n sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill, felly mae'n anodd eu rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i cyllidir yn llawn. Mae'r gyllideb wedi cynyddu £116.5m yn 2020-21.

1.2 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

1.2.1 Yn unol â chais y Pwyllgor, mae sylwadau sy'n egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu yn y MEG ar gael yn **Atodiad A**. Mae eglurhad clir wedi'i roi i egluro cynnydd a gostyngiad, lle nad yw hyn yn cael ei drafod yn y papur tystiolaeth, a cheir cadarnhad o i ble neu o ble mae'r trosglwyddiadau wedi cael eu dyrannu.

1.2.2 Mae dadansoddiad o'r newidiadau i'r MEG Addysg yn ôl y BEL ar gyfer 2020-21 ar gael yn **Atodiad B**. Mae'r adroddiad yn darparu manylion ar ddyraniadau'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2019-20, rhagolygon o ran alldro ar gyfer 2019-20 ac alldro terfynol 2018-19 yn unol â chais y Pwyllgor.

1.3 Blaenoriaethau Addysg

1.3.1 Drwy gyflawni *Ein Cenhadaeth Genedlaethol*, mae'r gyllideb hon yn cefnogi ein huchelgais i godi safonau i bawb, gan leihau'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system addysg sy'n destun balchder yn genedlaethol ac y mae gan y cyhoedd ffydd ynddi. Mae ein Cynllun Gweithredu hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol o dan 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu' yn *Ffyniant i Bawb*.

1.3.2 Mae datblygu a chyflwyno cwricwlwm newydd trawsnewidiol wrth galon *Ein Cenhadaeth Genedlaethol*. Rydym yn dal i fuddsoddi £10m er mwyn cefnogi'r

⁴ Mae cyfalaf o drafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf y gellir eu defnyddio ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partiön yn unig. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys EM. Ar gyfer y MEG Addysg, mae'r ad-daliadau'n berthnasol i gyllid o £4.5m a ddyrannwyd i Goleg y Cymoedd yn 2016-17 ar gyfer campws Aberdâr.

broses o roi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith, gan gynnwys ein rhwydwaith o ysgolion arweiniol sy'n chwarae rhan ganolog wrth ei ddatblygu.

- 1.3.3 Bydd ein dull gweithredu cenedlaethol pwrpasol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn cefnogi'r gwaith o wireddu ein cwricwlwm newydd. Y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi'r buddsoddiad unigol mwyaf yn ein proffesiwn addysgu ers datganoli – pecyn dysgu proffesiynol gwerth £24m dros gyfnod o 18 mis (£9m yn 2018-19 a £15m yn 2019-20) i baratoi ein hymarferwyr ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Ar gyfer 2020-21, rydym yn darparu £15m yn ychwanegol i sicrhau bod ein proffesiwn addysgu yn dal i dderbyn y gefnogaeth y mae ei hangen arno i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- 1.3.4 Wrth adeiladu ar y buddsoddiad hwn, ac fel rhan o'n cefnogaeth barhaus ar gyfer diwygio, rydym yn dyrannu £3m ychwanegol i gefnogi'r broses o ddatblygu'r Rhwydweithiau Cenedlaethol presennol a'r Rhwydweithiau Cenedlaethol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) yn y cwricwlwm newydd, ynghyd â Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysgeg, er mwyn ymgysylltu â'r sector ehangach i sicrhau bod gan ein hymarferwyr y gefnogaeth angenrheidiol i ddarparu cefnogaeth ac adnoddau i ddylunio cwricwlwm ar lefel yr ysgol a dysgu proffesiynol.
- 1.3.5 Rydym wedi ymrwmo i helpu i sicrhau bod pob plentyn neu berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cyflawni ei botensial ac yn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. O ganlyniad, mae'r gyllideb hon yn darparu £8m ychwanegol tuag at y costau sy'n gysylltiedig â dysgwyr sydd ag anghenion ac anableddau cymhleth. Rydym hefyd yn darparu £1.4m arall yn y Gyllideb hon i helpu dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau dysgu i gael mynediad at ddarpariaeth AB arbenigol addas i'w hanghenion.
- 1.3.6 Mae'r Gyllideb ddrafft yn dal i gefnogi ein blaenoriaethau addysg o Gytundeb Blaengar 2016, yn ogystal â'r ymrwymadau a gafodd eu datgan unwaith eto yn fy nghytundeb â'r Prif Weinidog mis Rhagfyr diwethaf. Rydym yn blaenoriaethu cyllid yn y MEG Addysg yn 2020-21 drwy:
- neilltuo £11m (£6m o refeniw a £5m o gyfalaf) i gyflawni ein hymrwymiad i leihau maint dosbarthiadau babanod fel rhan o'r buddsoddiad ychwanegol o £36m yn ystod tymor y Cynulliad hwn;
 - pecyn ychwanegol o £6m i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr, gan gynnwys £2m ar gyfer dull 'ysgol gyfan' (fel tâl atodol i'r £3m gan y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), £2m i Addysg Uwch a £2m i Addysg Bellach i adeiladu ar eu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, hyfforddiant staff a dulliau arloesol o gefnogi iechyd meddwl, lles ac anghenion dysgu ychwanegol;
 - parhau i godi safonau ar gyfer ein dysgwyr mwyaf difreintiedig drwy fuddsoddi £9.4m ychwanegol yn y BEL Grant Datblygu Disgyblion, yn cynnwys £6.6m i gefnogi'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar (EYPDG);

- cefnogi teuluoedd gyda chost y diwrnod ysgol drwy fuddsoddi £3.2m ychwanegol yn y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad er mwyn ymestyn y cynllun i fwy fyth o grwpiau blwyddyn, a gwneud y gorau o gyfleusterau ysgolion lleol mewn ardaloedd difreintiedig yn ystod gwyliau'r haf drwy ymestyn Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol gyda buddsoddiad ychwanegol o £1.8m;
- £0.5m ychwanegol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu 'cronfeydd' o staff addysgu cyfrwng Cymraeg drwy raglen gyfnewid ar ffurf cynllun peilot, yn targedu athrawon cynradd i dderbyn yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen i fod yn athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg;
- sicrhau bod yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL) yn darparu'r capasiti arwain uwch sydd ei angen arnom ar draws y sector drwy fuddsoddiad parhaus o £1m; a
- buddsoddi dros £900m y flwyddyn ar y system cymorth i fyfyrwyr mwyaf blaengar a theg yn y DU a sicrhau bod gennym setliad cyllido cynaliadwy ar gyfer Addysg Uwch. Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i gynnig cymorth i fyfyrwyr ar gyfer costau byw sy'n cyfateb i'r cyflog byw cenedlaethol a'r unig wlad yn Ewrop sy'n cynnig yr un faint o gymorth i fyfyrwyr rhan amser ac ôl-radd. Mae'r diwygiadau i gymorth i fyfyrwyr a amlinellwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond bellach wedi'u rhoi ar waith ac rydym nawr yn canolbwyntio ar weithredu'r diwygiadau i ariannu Addysg Uwch fesul cam.

1.3.7 Mae eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a geir yn *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*. Pan fydd gwariant yn cael ei gynllunio yn unol â fy mlaenoriaethau, mae gennyf brosesau sydd wedi'u hen sefydlu ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac i bwrpas. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein perthynas gyda phartneriaid cyflenwi.

1.3.8 Mae'r cynigion yn y gyllideb yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i warchod a blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cefnogi mesurau ataliol cyn belled ag y bo modd. Nid yn unig mae penderfyniadau gwariant wedi ystyried y ffordd orau o fodloni'r galw presennol am wasanaethau, maent hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi ymyriadau, gan osgoi ymyriadau mwy costus yn y dyfodol a gwella ansawdd bywydau pobl dros y tymor hir. Mae'r dull ataliol hwn yn rhan bwysig o'n gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, nawr ac yn y dyfodol. Dyna pam rydym wedi paratoi'r gyllideb eleni o gwmpas wyth maes blaenoriaeth trawsbynciol lle gall ein hadnoddau gael yr effaith fwyaf.

1.4 Monitro cyllidebau

1.4.1 Parheir i fonitro a herio pob cyllideb yn fisol er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau cyllideb yn ôl yr angen. Rwyf yn cael y newyddion

ariannol diweddaraf yn rheolaidd ynghylch y rhagolygon ar gyfer y MEG Addysg i sicrhau bod cyllidebau'n aros ar y trywydd iawn i gyflawni fy mlaenoriaethau.

- 1.4.2 Rwyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i drafod y pwysau - yn ystod y flwyddyn ac yn y dyfodol - sy'n effeithio ar fy mhortffolio ac er mwyn ystyried effeithiau trawsbynciol ein cynlluniau gwario.

Ail Gyllideb Atodol 2019-20 – Trosglwyddiadau

- 1.4.3 Mae nifer o drosglwyddiadau amodol wedi'u cynllunio ar gyfer Ail Gyllideb Atodol 2019-20 sy'n effeithio ar y MEG Addysg a chaiff y rhain eu crynhoi yn y tabl isod:

Disgrifiad	BEL	£000
Refeniw		
Trosglwyddo o Gronfa Wrth Gefn ar gyfer dyfarniad cyflog Athrawon 2019/20 – meithrin i flwyddyn 11 (1.75%)	Datblygu a Chefnogi Athrawon	12,018
Trosglwyddo o Gronfa Wrth Gefn ar gyfer dyfarniad cyflog Athrawon 2019/20 – chweched dosbarth ysgolion (1.75%)	Y Ddarpariaeth Addysg Bellach	864
Trosglwyddo o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer y cynllun peilot dysgu gweithredol a weinyddir gan Colegau Cymru.	Y Ddarpariaeth Addysg Bellach	335
Trosglwyddo i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer y Gronfa Lloches, Mewnfudo ac Integreiddio ar gyfer prosiect 'Ailgychwyn - Integreiddio Ffoaduriaid'	Y Ddarpariaeth Addysg Bellach	(500)
Trosglwyddo i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth i dalu am gostau parhaus sy'n gysylltiedig â chyflenwi a rheoli Rhif Unigryw'r Dysgwr yng Nghymru	Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg	(176)
Trosglwyddo i mewn o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - trefniadau Bwrsariaeth GIG Cymru ar gyfer myfyrwyr sy'n dewis astudio pynciau cysylltiedig ag iechyd yng Nghymru	Grant Cymorth i Fyfyrrwyr	1,850
Trosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn i Novus Cambria ddarparu addysg a dysgu yng Ngharchar ei Mawrhydi y Berwyn.	Dysgu Troseddwyr	3,300
Trosglwyddo i MEG yr Economi a Thrafnidiaeth er mwyn i Gyrrfa Cymru gynnal y partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr a sefydlwyd drwy'r prosiect 'Dosbarth Busnes'.	Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuentid	(144)
Trosglwyddo o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol i helpu i gefnogi ac adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.	Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuentid	3,700
Cyfanswm Refeniw		21,247
Cyfalaf		
Trosglwyddo i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer cyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a'u datblygu'n asesiadau personol ar-lein (dim angen arian cyfalaf).	Seilwaith Addysg	(400)
Trosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn – Ail Becyn Buddsoddiad Cyfalaf – cynnal ysgolion a cholegau	Seilwaith Addysg	20,000
Cyfanswm Cyfalaf		19,600

1.5 Effaith Brexit

Brexit - Gwarant Ariannu Trysorlys y DU

- 1.5.1 Mae Llywodraeth flaenorol y DU wedi rhoi gwarant ar gyfer rhaglenni cyllid yr UE a gymeradwywyd cyn i ni ymadael â'r UE, os byddwn ni'n gadael yr UE heb gytundeb. Mae'r warant hon yn rhoi sicrwydd am gyfnod cyfyngedig i gronfeydd presennol, ond nid yw'n glir beth fydd sefyllfa'r gronfa strwythurol ar ôl 2021 o hyd.
- 1.5.2 Tra bydd y DU yn dal i fod yn rhan o'r UE, gallwn barhau i gymryd rhan mewn rhaglenni cyllido'r UE. Os bydd y DU yn gadael yr UE gyda chytundeb ymadael wedi'i gadarnhau, bydd y cytundeb yn darparu ar gyfer parhau i gymryd rhan mewn rhai cronfeydd yn ystod y cyfnod pontio. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid ar gyfer y rhaglenni hynny nad ydynt yn dod o dan y cytundeb ymadael.
- 1.5.3 Rydym wedi bod yn glir ein bod yn disgwyl i Lywodraeth y DU sicrhau nad yw Cymru yn waeth ei byd nag o'r blaen o ganlyniad i ymadael â'r UE a bod gennym ni'r hyblygrwydd llawn i reoli cronfeydd newydd yma yng Nghymru.

Y Gronfa Pontio Ewropeaidd

- 1.5.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tîm penodol i gydlynu'r gwaith sy'n deillio o'r cyfnod Pontio Ewropeaidd; mae'r tîm hwn yn gweithio'n agos gyda'r tîm presennol ym Mrwsel a'r adrannau polisi.
- 1.5.5 Mae'r Gronfa Pontio Ewropeaidd o £50m yn helpu busnesau, y trydydd sector, a gwasanaethau cyhoeddus i gynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit. Mae £1.369m ar gael gan Dîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd ar gyfer 2020-21 ar gyfer Cymru Fyd-Eang II (yn y Cynllun Gweithredu Addysg Uwch), ar ôl cael dyraniad o £1.382m o'r Gronfa yn 2019-20. Mae Cymru Fyd-Eang II yn fenter bwysig yn ein hymdrechion i liniaru effeithiau Brexit, nid yn unig yng nghyswllt y sector Addysg Uwch, ond hefyd o ran yr effaith ehangach ar economi a chymdeithas Cymru. Bydd cyllid hefyd yn darparu sail ar gyfer rhoi mwy o gyhoeddusrwydd cadarnhaol i'r cynllun peilot astudio dramor, sy'n cael ei redeg gan y British Council ar ein rhan. Mae'r cynllun peilot wedi'i gysylltu â brand Cymru Fyd-Eang er mwyn sicrhau parhad gyda'r gweithgareddau marchnata, er ei fod yn cael ei ariannu ar wahân.
- 1.5.6 Mae'n anodd dadgyfuno gwariant Brexit 'heb gytundeb' o'n gwariant pontio Ewropeaidd cyffredinol. Mae llawer o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i baratoi ar gyfer Brexit wedi bod yn waith paratoi ar gyfer unrhyw bosibilrwydd o ran Brexit. Wrth asesu ymrwymadau gwariant yng nghyswllt Brexit heb gytundeb, rydym wedi ceisio sicrhau bod ein gwariant yn gydnaws ag amcanion tymor hwy, fel mater o egwyddor. Wrth gwrs, rydym wedi canolbwyntio mwy ar baratoadau 'heb gytundeb' ers dechrau'r flwyddyn hon.

Cyllid yr UE - MEG Addysg

- 1.5.8 Mae disgwyl y bydd y MEG Addysg yn derbyn £20.7m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn 2019-20, drwy'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (£0.250m), gwyddoniaeth (£8.2m yng nghyswllt Sêr Cymru 2 a Triosci) a phrosiectau arloesi (£12.2m ar gyfer Smart Cymru, Arloesi Smart ac

Arbenigedd Smart). Mae disgwyl i'r cyfan o'r £20.7m ar gyfer 2019-20 fod yn rhan o'r warant, yn unol â gwarant y Trysorlys a fydd yn gwarantu'r holl gyllid sydd wedi'i gymeradwyo'n barod, os bydd sefyllfa 'heb gytundeb'.

- 1.5.9 Ar gyfer 2020-21, mae disgwyl y bydd prosiect ESP Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yn tynnu i lawr £1.5m gan ESF, sy'n unol â'r hyn a gymeradwywyd yng Nghynllun Busnes WEFO. Disgwylir y bydd £2.9m arall yn cael ei dynnu i lawr erbyn Mawrth 2023 (£1.8m yn 2021-22 a £1.1m yn 2022-23).
- 1.5.10 Mae bron iawn yr holl ffrydiau cyllido ymchwil ac arloesi ledled Llywodraeth Cymru yn dibynnu, i wahanol raddau, ar Gronfeydd Strwythurol yr UE neu ar ffynonellau eraill o gyllid Ewropeaidd - ee Horizon 2020. Mae rhai meysydd, fel ymchwil ac arloesi, yn dibynnu'n fawr ar ffynonellau cyllid yr UE.
- 1.5.11 Yn hanesyddol, mae cyllid WEFO wedi ariannu'r rhan fwyaf o gymorth ymchwil ac arloesi ar gyfer busnes gan Lywodraethau Cymru, yn ogystal ag arloesi ac ymchwil gymhwysol, cymorth i ddatblygu technoleg a pheirianeg. Mae'r rhain i gyd yn helpu i gefnogi'r broses o ddatblygu'r economi neu roi sylw i heriau cymdeithasol.
- 1.5.12 Bydd colli Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer ymchwil ac arloesi yn cael effaith anghymesur ar y gweithgareddau hynny sy'n cefnogi twf economaidd, y diwydiant, busnes a datblygu sgiliau uwch, yn bennaf ym meysydd datblygu technoleg, arloesi ac ymchwil gymhwysol yn y diwydiant, gwyddorau ffisegol sy'n cefnogi datblygiadau carbon isel, peirianeg ac amgylcheddol, a mentrau ymchwil ac arloesi ar thema mewn prifysgolion sy'n cefnogi busnesau a'r economi (ee Y Ganolfan Beirianeg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol, Prifysgol Abertawe).

1.6 Costau Deddfwriaeth

- 1.6.1 Mae'r gyllideb hon yn parhau i ystyried y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol. Yn unol â'r ymrwymiad a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid, cyhoeddwyd cymhariaeth o gostau deddfwriaethau sydd yn dal i fod yn eu cyfnod gweithredu o un flwyddyn i'r llall fel rhan o'r Gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr.

Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO)

- 1.6.2 Nid oes dyraniad penodol ar gyfer diwygio AHO ar hyn o bryd. Defnyddir adnoddau presennol y MEG i dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â datblygu'r diwygiadau. Bydd angen cael cyllidebau penodol yn y dyfodol ar ôl i'r ddeddfwriaeth sylfaenol gael Cydsyniad Brenhinol.

Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

- 1.6.3 Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cefnogi'r Bil Cwricwlwm ac Asesu er mwyn nodi costau a manteision y ddeddfwriaeth arfaethedig.
- 1.6.4 Bydd gwaith yn parhau ar agweddau ar y fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cwricwlwm i'w ddefnyddio gan leoliadau meithrin a ariennir ond nas cynhelir, gan ddefnyddio prif ganllawiau Cwricwlwm i Gymru, a chanllawiau pellach ar gyfer darparwyr Unedau Cyfeirio

Disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyllido o'r BEL Adolygu'r Cwricwlwm sy'n cynyddu £0.75m, i £6.15m yn 2020-21 i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm.

- 1.6.5 Byddwn yn parhau i fuddsoddi i gefnogi'r proffesiwn i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd gyda'r cyntaf o'r diwrnodau HMS ychwanegol yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr haf 2020. Mae hyn yn ategu'r buddsoddiad sylweddol mewn dysgu proffesiynol yn fwy cyffredinol, sy'n cynnwys y £15m a fuddsoddir yn 2020-21 o'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon, fel yr amlinellir ym mharagraff 1.3.3.

Deddfwriaeth a basiwyd yn y Pedwerydd a'r Pumed Cynulliad

- 1.6.6 Nid oes costau'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth a basiwyd yn y Pedwerydd Cynulliad ar gyfer y MEG Addysg. Mae hyn yn cynnwys: Deddf Cymwysterau Cymru 2015; Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015; Deddf Addysg (Cymru) 2014; a Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, gan fod pob darpariaeth o fewn y Deddfau wedi'u rhoi ar waith bellach.
- 1.6.7 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn y Pumed Cynulliad yn cael eu cynnwys isod.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) (Cymru) 2018

- 1.6.8 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â Deddf ALNET (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Drawsnewid ADY ehangach yn £6.3m yn 2020-21, i'w tynnu i lawr o'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol (£2.5m) a'r BEL Gwella Safonau Mewn Ysgolion (£3.8m). Bydd y BEL Gwella Safonau Mewn Ysgolion yn ariannu'r Arweinwyr Trawsnewid ADY Rhanbarthol a dysgu proffesiynol. Bydd y cyllid o'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ariannu: cymorth gweithredu/pontio; datblygu'r gweithlu; codi ymwybyddiaeth; a chefnogi polisi.
- 1.6.9 Bydd y system ADY newydd yn dechrau cael ei rhoi ar waith, fesul cam, o fis Medi 2021, gyda'r rolau statudol sydd wedi'u creu o dan y Ddeddf yn dechrau ym mis Ionawr 2021.

Deddfwriaeth Senedd y DU

- 1.6.10 Ar hyn o bryd, nid oes deddfwriaeth Senedd y DU sy'n cael effaith ar y MEG Addysg ar gyfer 2020-21.

Is-ddeddfwriaeth

- 1.6.11 Mae'r gyllideb yn parhau i ystyried is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2020-21. Mae asesu costau gweithredu deddfwriaeth a'r effaith ar y rhai y mae hyn yn effeithio arnynt yn rhan hanfodol o sicrhau bod egwyddorion "Cyfraith Dda" yn cael eu dilyn. Dyna pam mae costau a manteision rheoliadau drafft yn cael eu hasesu'n drwyadl, drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i ddatblygu asesiadau effaith rheoleiddiol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y bobl

y bydd ein penderfyniadau'n effeithio arnynt yn cyfrannu at y penderfyniadau hynny.

1.7 Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Asesu'r effaith

1.7.1 O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau sydd wedi'u nodi yn CCUHP. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft 2020-21 ar 16 Rhagfyr. Mae'r broses integredig honno'n cynnwys ystyried yn glir beth yw effaith penderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant. O'r herwydd, nid oes Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân wedi'i gwblhau ar gyfer y MEG Addysg, ond mae'n rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ehangach.

1.7.2 Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn cadarnhau bod dull gweithredu integredig yn ein galluogi ni i ddeall effaith cyffredinol penderfyniadau ar blant a phobl ifanc yn well. Mae hyn yn cynnwys ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol ym mywydau'r bobl ifanc hyn, yn ogystal â chanolbwyntio ar gydraddoldeb a mynd i'r afael â thlodi.

1.7.3 Rhaid cynnal asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'n gwaith parhaus yn datblygu ac yn adolygu polisi. Bydd yr asesiadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio fel sail i benderfyniadau ynghylch cyllidebau ac ar gyfer asesu effaith y gyllideb yn ehangach hefyd. Mae'r dull gweithredu hwn, yng nghyd-destun dyraniadau'r gyllideb, yn sicrhau bod tystiolaeth a dealltwriaeth o'r effeithiau'n cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf, a drwy gydol y broses o baratoi ein cyllidebau.

1.7.4 Mae ein teclyn asesu effaith integredig yn parhau i sicrhau ei bod hi'n ofynnol ystyried hawliau plant, a phan fo angen, bydd Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gwblhau. Mae'r Asesiad hwn yn rhoi hawliau plant wrth galon y broses o ddatblygu deddfwriaeth, rhaglenni a pholisïau newydd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

1.7.5 Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* i wella sut rydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a nod ein cynlluniau gwariant yw sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau tymor byr a thymor hir. Rydym yn cydnabod yr angen i gydweithio â'n partneriaid ac i ddefnyddio ein hadnoddau ar y cyd yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd o'n blaen.

1.7.6 Cefais gyfarfod â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ym mis Hydref i drafod yr hyn y byddai'n craffu arno yn y gyllideb eleni: atal a datgarboneiddio. Hefyd, cawsom drafodaeth am y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar ddatblygu ein cwricwlwm newydd.

- 1.7.7 Mae llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ganolog i *Ein Cenhadaeth Genedlaethol*; a bydd yn arwain at weithredu cwricwlwm newydd sy'n eang, yn gytbwys, yn gynhwysol ac yn heriol. Rydym hefyd yn cydnabod na fydd diwygio'r cwricwlwm ar ei ben ei hun yn arwain at newid cynaliadwy. Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei ddylunio i sicrhau ei fod yn cyfrannu gymaint ag y bo modd at bob un o'r nodau llesiant.
- 1.7.8 Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd dilyn dull gweithredu ataliol yn gyson ar draws ystod eang o'n meysydd polisi. Mae ein cyllideb ar gyfer 2020-21 yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i warchod a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad.
- 1.7.9 Ar gyfer 2020-21, rydym yn dyrannu £1.8m ychwanegol i'r Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol, sy'n darparu sesiynau gweithgarwch corfforol a chyfoethogi, prydau iach, ac addysg am fwyd a maeth i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu yn dod â chyfanswm y cyllid i £2.7m yn 2020-21, a fydd yn ein galluogi ni i ymestyn y rhaglen i hyd at 7,600 o blant ar draws 22 Awdurdod Lleol. Mae'r Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol yn cadw at ddaliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd sawl sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth.
- 1.7.10 Fel rhan o'n hymdrechion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu strategol newydd i Waith Ieuencid yng Nghymru a chryfhau capasiti'r Gwasanaeth Ieuencid, mae Grant Cymorth Ieuencid 2019-20 i awdurdodau wedi cael £2.5m ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl a lles a £3.7m ar gyfer digartrefedd ymysg pobl ifanc. Rydym yn bwriadu cynnal y cyllid hwn ar y lefel hon yn 2020-21 i ysgogi'r agenda atal. Bydd y cyllid yn cryfhau'r cymorth i rai o'n bobl ifanc fwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai hynny sydd â phroblemau emosiynol, iechyd meddwl neu les yn dod i'r amlwg, a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddiartref.
- 1.7.11 Rydym hefyd yn buddsoddi £6m ychwanegol mewn mesurau ataliol i fynd i'r afael ag iechyd meddwl a lles ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys £2m i ysgolion fel rhan o'n dull gweithredu 'ysgol gyfan'. Ynghyd â'n cynllun peilot mewngymorth CAMHS, bydd y rhaglen waith hon yn cyfrannu at iechyd a lles cyffredinol plant a phobl ifanc, gan gynnwys eu hiechyd emosiynol a'u gwytnwch. Bydd hyn yn helpu i atal plant a phobl ifanc rhag datblygu problemau iechyd meddwl neu atal y problemau rhag gwaethygu, er mwyn gwella cwrs bywyd plant a phobl ifanc.
- 1.7.12 Mae canfod cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau datgarboneiddio wedi bod yn ganolog wrth ystyried sut rydym yn defnyddio unrhyw gyfalaf sydd ar gael yn 2020-21. Rydym wedi dyrannu £8.2m ychwanegol o gyfalaf ar gyfer prosiect cartref Carbon niwtral yng Ngholeg y Cymoedd, sydd wedi'i ddylunio i ddarparu cyfleuster addysg a hyfforddi o'r radd flaenaf mewn lleoliad strategol allweddol i sicrhau cynaliadwyedd y stoc dai. Gan adeiladu ar gyflawni'r cyfleusterau BREEAM 'Rhagorol' a PassivHaus yn llwyddiannus, byddwn yn

chwilio am ragor o gyfleoedd i ddatgarboneiddio'r seilwaith addysg ymhellach. Drwy weithio ar y cyd â phartneriaid cyflawni a chadwyni cyflenwi, byddwn yn defnyddio cyfalaf ein Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif i ysgogi newid. Byddwn yn sicrhau bod ein gwariant cyfalaf yn gydnaws iawn â'r uchelgais o sicrhau sector cyhoeddus carbon sero net erbyn 2030.

2. Meysydd penodol

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol, yn unol â chais y Pwyllgor.

2.1 Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal ymchwiliad i gyllid ysgolion ac wedi cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2019. Yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw, ac unwaith y bydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 ar gael, byddem yn croesawu asesiad wedi'i ddiweddarau o ddigonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn 2020-21 ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

- 2.1.1 Roeddwn yn croesawu cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ond hefyd yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth iawn ac aml-haenog sy'n dibynnu ar sawl ffactor. Roedd cryfder y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod ein hysgolion yn derbyn y lefelau cyllid priodol. Rwyf wedi derbyn holl argymhellion y Pwyllgor ac mae fy swyddogion eisoes wedi dechrau bwrw ymlaen â'r rhain.
- 2.1.2 Yr argymhelliad cyntaf yw bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad brys i faint o gyllid sy'n ofynnol i ariannu ysgolion yn ddigonol yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau cyn gwyliau haf 2020, gan felly ddylanwadu ar y set nesaf o drafodaethau ar y gyllideb.
- 2.1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r brif ffynhonnell gyllido i ysgolion i awdurdodau lleol drwy Grant Cynnal Refeniw (RSG) Setliad Llywodraeth Leol sydd wedi'i gynnwys yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol. Mae'r setliad llywodraeth leol yn cynyddu £184m ar gyfer 2020-21 o'i gymharu â'r llynedd, ar sail tebyg am debyg.
- 2.1.4 Er nad yw'r arian a ddarperir drwy'r RSG wedi'i neilltuo ac mai pob awdurdod lleol sydd i benderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun, ffactor pwysig mewn perthynas â phenderfyniad y Llywodraeth i gynyddu arian ar gyfer yr RSG oedd ein bwriad o gydnabod effaith cyflog a phensiynau athrawon, ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd bresennol, a darparu cyllid ar gyfer effaith dyfarniadau cyflog athrawon yn y dyfodol a ddaw i rym ym mis Medi 2020.

2.2 Cyllid ar gyfer gwella ysgolion

Dadansoddiad manwl o sut caiff elfen flynyddol y £100 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol mewn safonau ysgolion ei ddyrannu a'i defnyddio yn 2020-21.

2.2.1 Mae dadansoddiad dros dro o'r £25.5m a ddyrennir i'r BEL Gwella Safonau Mewn Ysgolion yn 2020-21, sef blwyddyn olaf ein hymrwymiad gwerth £100m, yn cael ei amlinellu yn **Atodiad C**.

Cadarnhau a fu unrhyw newid i'r dadansoddiad o'r £25.5 miliwn mewn cyllid Gwella Safonau Mewn Ysgolion yn 2019-20 (yn Atodiad D, papur y Gweinidog ym mis Tachwedd 2018).

2.2.2 Mae **Atodiad C** hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dadansoddiad o gyllid sydd ar gael o'r gyllideb £25.5m Gwella Safonau Mewn Ysgolion ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, o'i gymharu â'r dadansoddiad a gafwyd y llynedd.

Y diweddaraf ynghylch sut mae'r £100 miliwn yn cael ei wario ledled y Cynulliad hwn ac ar gyfer beth y caiff ei ddefnyddio.

2.2.3 Mae'r dadansoddiad yn **Atodiad C** yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut mae'r £100m yn cael ei ddyrannu ar draws tymor y Cynulliad hwn. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer addysg a'r meysydd buddsoddi lefel uchel sy'n berthnasol i'r £100m yn gydnaws â chefnogi'r broses o gyflawni Ein Cenhadaeth Genedlaethol yn llwyddiannus.

Yn unol ag Argymhelliad 31, adroddiad Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol, diweddariad i Atodiad E o bapur y Gweinidog ym mis Tachwedd 2018 a oedd yn rhestru'r BELs yn y MEG Addysg sy'n cyllido gwella safonau ysgolion yn bennaf (ar sail unigol a chyfunol).

2.2.4 Ceir crynodeb o ddadansoddiad diweddar o'r holl BELs yn y MEG Addysg sy'n cyfrannu at wella safonau ysgolion ar gyfer y cyfnod 2016-17 – 2020-21 yn **Atodiad D**.

Gwybodaeth ynghylch a oedd unrhyw newidiadau yn y dadansoddiad o Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG) 2019-20 a ddarparwyd yn llythyr y Gweinidog dyddiedig 12 Mawrth 2019 a rhagamcan, os yw ar gael, o ddadansoddiad 2020-21.

2.2.5 Cyflwynwyd llythyrau dyfarnu grant terfynol i'r pedwar rhanbarth ym mis Mai 2019. Mae'r tabl yn **Atodiad E** yn cynnwys dadansoddiad o'r RCSIG a ddyrannwyd yn 2019-20. Mae hyn yn tynnu sylw at y newidiadau ers y llythyr a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mis Mawrth (dyraniadau dangosol) a'r cyllid ychwanegol o £1.7m a oedd ar gael drwy amrywiad grant ym mis Hydref 2019. Byddaf yn cyflwyno'r diweddaraf am y dadansoddiad dangosol ar gyfer 2020-21 i'r Pwyllgor pan fydd fersiwn derfynol ar gael.

2.3 Lleihau effaith amddifadedd a thlodi

Gwybodaeth am sut mae'r MEG Addysg yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd a thlodi ac effaith hynny ar gyrhaeddiad addysgol.

- 2.3.1 Rhaid i bob dysgwyr, lle bynnag y mae'n byw, gael y cyfle i wireddu ei botensial. Mae trechu tlodi yn flaenoriaeth allweddol i'r llywodraeth hon ac mae mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng ein disgyblion mwyaf difreintiedig a'u cyfoedion yn rhan hanfodol o'n cenhadaeth genedlaethol.
- 2.3.2 Eleni, rydym wedi paratoi'r gyllideb o gwmpas wyth maes blaenoriaeth trawsbynciol lle gall ein hadnoddau gael yr effaith fwyaf, ac mae hyn yn cynnwys tlodi. Dyrannwyd £13.9m i'r MEG Addysg ar gyfer 2020-21 er mwyn mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, gan gynnwys:
- £6.6M i gynyddu'r cyllid ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar (EYDPG);
 - £3.2m i ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad i ragor o grwpiau blwyddyn;
 - £0.845m i hybu urddas yn ystod y mislif yn y sector Addysg Bellach a pharhau gyda'r cyllid ar gyfer 2020-21 i gefnogi menywod a merched mewn ffordd sy'n hybu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau;
 - £0.450m i fuddsoddi mewn cynllun peilot sy'n dechrau ym mis Medi 2020 i ddatblygu, treialu a gwerthuso amrywiaeth o fodolau clwb brechwast mewn amrywiol ysgolion uwchradd yn y pedwar rhanbarth yng Nghymru. Y nod yw datblygu model a fydd yn galluogi dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i gael brechwast iach a maethlon, yn rhad ac am ddim, cyn dechrau ar eu diwrnod ysgol neu yn ystod yr egwyl foreol;
 - £1.8m i ehangu'r Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol, gyda'r nod o fynd i'r afael â phroblemau fel colli dysgu dros y gwyliau, allgáu cymdeithasol ac ansicrwydd o ran bwyd; ac
 - £1m i ymestyn y cynllun peilot Llwg dros y gwyliau er mwyn cyrraedd 10,000 o blant a darparu 200,000 o brydau.
- 2.3.3 Rydym yn dal i fuddsoddi symiau na welwyd eu tebyg o'r blaen – dros £100m ar gyfer 2020-21 yn y PDG, i gefnogi gwella canlyniadau ein dysgwyr difreintiedig. Mae torri'r cylch o anfantais a thlodi yn ymrwymiad tymor hir ac rydym yn dal wedi ymrwymo i'r PDG am weddill tymor y Cynulliad hwn. Mae'r PDG wedi cefnogi'r hyn sy'n cyfateb i dros 530,000 o ddysgwyr ers iddo gael ei gyflwyno yn 2012.

Manylion am y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (PDG), gan gynnwys:

- ***faint o gyllid ychwanegol sydd wedi cael ei wneud ar ôl pennu dyraniadau ysgolion yn 2018-19 a 2019-20 yn ôl ffigurau eFSM mewn Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mis Ionawr 2016 ar gyfer y PDG o'i gymharu â defnyddio CYBLD 2017 neu CYBLD 2018.***

- ***faint o ysgolion oedd â niferoedd uwch o eFSM yn 2017 neu 2018 o'i gymharu â 2016, ac felly wedi cael llai o'r PDG na fyddai ganddynt petai'r data diweddaraf wedi cael ei ddefnyddio?***

- 2.3.4 Wrth ddatblygu ein dull ar gyfer dosbarthu'r grant PDG, roeddem wedi ystyried yr ystod lawn o opsiynau yn helaeth. Yn ystod y cyfnod hwn o heriau ariannol sylweddol a natur anrhagweladwy, rwy'n deall pa mor bwysig yw'r PDG i ysgolion, ac roeddem am fodloni ein hunain ein bod ni'n bwrw ymlaen ar sail y model mwyaf effeithiol a theg.
- 2.3.5 Mae canran y disgyblion y gwyddys eu bod yn eFSM mewn ysgolion cynradd, canol, uwchradd ac arbennig wedi amrywio dros y degawd diwethaf, gan ostwng yn gyffredinol rhwng 2004 a 2008 ac yna yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn 2011. Bu gostyngiad rhwng 2013 a 2017. Roedd canran y disgyblion oed ysgol gorfodol (5-15) y gwyddys eu bod yn eFSM wedi gostwng o 18.4 ym mis Ionawr 2016 i 17.8 ym mis Ionawr 2017.
- 2.3.6 Byddai'r data CYBLD ar gyfer 2017 wedi darparu dyraniad Cymru gyfan o £89.033m. Drwy ddefnyddio data 2016, cynyddodd y dyraniad hwn i £91.252m gan ddarparu £2.2m yn ychwanegol i ysgolion yn uniongyrchol.
- 2.3.7 Fe wnaethom ddefnyddio data cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion 2016 fel sail ar gyfer y dyraniadau ar gyfer 2018-19 a 2019-20 a lefelau ariannu sefydlog am ddwy flynedd. Roeddem wedi penderfynu defnyddio data 2016 oherwydd ein bod yn gwybod bod ffigurau eFSM wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Felly, drwy ddefnyddio data 2016 roeddem yn gallu rhoi rhagor o arian yn y system, ac o ganlyniad roedd mwy o arian yn mynd yn syth i ysgolion. Rydym yn edrych ar yr opsiynau modelu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a byddwn yn cynnwys consortia rhanbarthol yn y broses hon i sicrhau bod ysgolion yn derbyn y dyraniad gorau posibl yn yr amlen gyllido sydd ar gael.

Manylion ynghylch y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer cronfa'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, sut mae'r grant yn cael ei ddyrannu a'i ddosbarthu, gan gynnwys faint o deuluoedd sy'n elwa.

- 2.3.8 Mae cost diwrnod yr ysgol yn fater pwysig iawn i nifer o deuluoedd. Rydym am i'n dysgwyr ddod i'r ysgol yn barod i ddysgu a chyflawni'r gorau, ac rydym yn parhau i ystyried popeth i helpu i sicrhau bod hynny'n digwydd - boed hynny'n ystyried sut gellir blaenoriaethu eu llesiant neu drwy helpu i gael gwared ag unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â rhai o gostau diwrnod yr ysgol. Fe wnaeth bron i 12,000 o ddysgwyr elwa ar y grant hwn y llynedd.
- 2.3.9 Yn 2019-20, rydym wedi mwy na dyblu'r cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad i £5.145m. Mae'r buddsoddiad ychwanegol wedi caniatáu i ni gefnogi mwy o ddysgwyr. Rydym wedi ymestyn y gronfa i Flwyddyn 3 a 10 eleni yn ogystal â dosbarthiadau Derbyn a Blwyddyn 7. Mae plant sy'n derbyn gofal ym mhob blwyddyn ysgol orfodol yn dod o fewn cwmpas y cyllid hwn hefyd. Rydym yn cynyddu'r Grant Datblygu Disgyblion -

Mynediad £3.2m ar gyfer 2020-21 er mwyn gallu ymestyn i ragor o grwpiau blwyddyn.

- 2.3.10 Nid yw'r cyllid hwn yn gyfyngedig i gefnogi pobl i dalu costau gwisg ysgol yn unig; bydd yn cefnogi mwy o uchelgais, cyfoeth diwylliannol, lles a gwytnwch. Bydd y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn cefnogi cyfleoedd, boed hynny drwy helpu i brynu gwisg ysgol neu'r dillad neu'r cyfarpar iawn er mwyn i bobl ifanc gymryd rhan yn eu hoff chwaraeon neu weithgaredd yn yr ysgol neu'r tu allan i'r ysgol. Rydym wedi ymestyn hyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, i gynnwys grwpiau fel clybiau ieuencid, er mwyn iddynt allu gwneud cais am y cit pwrpasol.
- 2.3.11 Mae awdurdodau lleol yn dosbarthu'r cyllid yn syth i deuluoedd, gan fod system wirio genedlaethol yn cael ei defnyddio i wirio cymhwysedd, ac mae'r system yn cael ei rheoli gan awdurdodau lleol. Bydd canllawiau ar brosesu ceisiadau am brydau ysgol am ddim yn cael eu cyhoeddi'n fuan. Mae'r ymgyrch gyfathrebu genedlaethol dros yr haf wedi codi ymwybyddiaeth rhieni ac rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol am wybodaeth ynghylch y nifer sy'n manteisio ar y grant erbyn mis Ionawr 2020.

2.4 Y gweithlu addysg

Manylion y dyraniadau yn y gyllideb i ariannu:

- **diwygiadau Llywodraeth Cymru i Addysg Gychwynnol i Athrawon (ITE); a**
- **datblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer y gweithlu addysg.**

2.4.1 Mae tua £0.160m yn cael ei ddarparu o gyllideb Polisi ITE yn y BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon i gefnogi parhad y diwygiadau i Addysg Gychwynnol i Athrawon yn y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r Bwrdd Cynghori ar Recriwtio a Chadw Athrawon ac ar gyfer prosiectau unigol a gyflawnir i hybu'r broses ddiwygio. Disgwylir y bydd y gyllideb hon ar gael o hyd yn 2020-21.

2.4.2 Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (NAPL) a lanswyd yn 2018, yn creu gweledigaeth dysgu proffesiynol sy'n addas ar gyfer ein system addysg sy'n datblygu. Mae wyth elfen y NAPL yn rhoi'r ffocws i ni ar gyfer sut rydym yn gweithio gydag ysgolion a'r haen ganol i gyllido a datblygu dysgu proffesiynol er mwyn cefnogi'r broses o roi'r cwricwlwm newydd ar waith a gwireddu Ein Cenhadaeth Genedlaethol. Ceir dadansoddiad o'r gyllideb sy'n cefnogi'r broses o roi'r NAPL ar waith yn y paragraffau isod.

2.4.3 Darparwyd cyllid ychwanegol o £24m (£9m 2018-19, £15m 2019-20) ar gyfer cyfleoedd dysgu proffesiynol i baratoi ymarferwyr i weithredu'r cwricwlwm newydd - y buddsoddiad unigol mwyaf yn ein proffesiwn dysgu ers datganoli. Trosglwyddwyd yr arian i gyd i ysgolion a chyllidebau ysgolion yn ôl rhanbarthau/awdurdodau lleol. Defnyddiwyd nifer yr athrawon (ar sail data

CYBLD) fel sail i'r fformiwla ariannu i greu dyraniad ar gyfer pob ysgol. Rydym yn parhau i ddarparu £15m yn ychwanegol yn 2020-21, er nad yw union lefelau'r cyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i ysgolion wedi cael eu pennu.

- 2.4.4 Mae'r arian wedi'i neilltuo'n bennaf ar gyfer creu amser mewn ysgolion er mwyn i ymarferwyr wneud y newidiadau angenrheidiol i arferion. Gellir defnyddio'r cyllid i wneud y canlynol: sicrhau amser a lle i ymarferwyr ac arweinwyr gydweithio mewn ysgolion a rhwydweithiau o ysgolion i edrych ar oblygiadau'r cwricwlwm newydd; cynllunio ar y cyd a chreu profiadau ac adnoddau dysgu sy'n manteisio ar y cyfleoedd newydd a gynigir gan y cwricwlwm; cael gafael ar raglennu a gweithgareddau Dysgu Proffesiynol rhanbarthol; creu rolau arweiniol newydd mewn ysgolion i arwain, rheoli, annog a chydlynu Dysgu Proffesiynol ledled yr ysgol. Yn y cyllid sydd wedi'i ddyrannu at y diben hwn yn ddiweddar, rydym wedi gweld sawl enghraifft o'r dulliau gweithredu hyn.
- 2.4.5 Rydym yn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol i ddatblygu enghreifftiau o astudiaethau achos i ddangos sut mae ysgolion yn y rhanbarthau wedi bod yn defnyddio'r buddsoddiad o £24m mewn dysgu proffesiynol yn barod yn ystod 2018-19 a 2019-20. Bydd yr astudiaethau achos yn cael eu cyhoeddi ar wefan Hwb, gyda'r canllawiau cyllido diwygiedig ar gyfer ysgolion i gefnogi'r buddsoddiad o £15m mewn cyllid dysgu proffesiynol yn ystod 2020-21
- 2.4.6 Er mwyn cefnogi'r broses o roi'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar waith o fis Ebrill 2020 ymlaen, byddwn yn lansio Llwybr Dysgu Proffesiynol a fydd yn rhoi trywydd posibl i ysgolion roi sylw i ofynion dysgu proffesiynol o ran cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd mwy a mwy o e-adnoddau dysgu proffesiynol ar gael i gefnogi'r Llwybr Dysgu Proffesiynol, a bydd yn dod â'r holl fodolau a'r dulliau gweithredu cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol ynghyd, gan gynnwys cynnig rhanbarthol cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol gan y consortia rhanbarthol.
- 2.4.7 Rydym wedi parhau i gefnogi'r prif ysgolion dysgu proffesiynol yn 2019-20 gyda chyllideb o £4.085m wedi'i defnyddio i gefnogi'r rheini sy'n ymwneud ag archwilio a datblygu dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Rydym yn bwriadu parhau i ariannu'r ysgolion hyn er mwyn ymgysylltu ag ystod eang o ddatblygiadau Dysgu Proffesiynol yn ystod 2020-21.
- 2.4.8 Rydym wedi parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu ar draws y system addysg yn 2019-20 a byddwn yn ceisio parhau â hyn yn 2020-21. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda phartneriaid Sefydliadau Addysg Uwch i ddatblygu rhaglen genedlaethol o ymholiadau proffesiynol athrawon. Fel rhan o'r rhaglen hon, rydym yn edrych ar oblygiadau dysgu proffesiynol y cwricwlwm newydd â rhwydwaith genedlaethol o ysgolion ymholiadau arweiniol. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi'r broses o symud tuag at raglen genedlaethol o ymchwiliadau proffesiynol athrawon. Mae cyllideb o £1.5m wedi cefnogi'r ystod o waith yn y meysydd hyn (yn ogystal â'r gwaith yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd).

- 2.4.9 Wrth i ni symud tuag at wireddu'r cwricwlwm drwy gyhoeddi dogfennau perthnasol ym mis Ionawr 2020, bydd angen cymorth ar ysgolion a grwpiau o ysgolion gyda'r arweiniad newydd i'r cwricwlwm ac wrth ei roi mewn cyddestun yn eu hymysgolion. Byddwn yn adeiladu ar y Rhwydweithiau Rhagoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Mathemateg ac ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg drwy fuddsoddi £3m ychwanegol i ailddatblygu'r Rhwydweithiau hyn. Byddwn hefyd yn datblygu Rhwydweithiau Rhagoriaeth i Wireddu'r Cwricwlwm ar gyfer pob MDPH, gyda rhwydwaith ychwanegol i edrych yn fanwl ar oblygiadau addysgeg cyffredinol y cwricwlwm newydd.
- 2.4.10 Llywodraeth Cymru fydd yn arwain y rhwydweithiau hyn, a bydd yn cynnwys cynrychiolaeth gadarn o'r haen ganol, ac yn arbennig arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion. Byddant yn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd hyd yma yn cael eu cyfleu a'u dwyn ymlaen yn ystod y cam gwireddu. Byddant yn darparu arweiniad strategol i arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion ac yn gweithio gyda'r systemau rhanbarthol a lleol i sicrhau cydlyniaeth a chysondeb ar draws y system. Byddant yn canolbwyntio ar y canlynol: parhau i ddatblygu a gwella'r cwricwlwm, a chefnog egwyddorion cynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgolion; yr ymchwil a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer arferion gorau wrth gynllunio, addysgu, dysgu ac asesu'r cwricwlwm; cyfleu a rhoi cyngor ar anghenion Dysgu Proffesiynol athrawon ac arweinwyr; a bodloni gofynion ysgolion ar gyfer adnoddau dysgu newydd.
- 2.4.11 Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu adnoddau digidol i ysgolion eu defnyddio wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, a hynny'n gysylltiedig â darparu diwrnodau HMS ychwanegol ar gyfer y tair blynedd nesaf (eleni, 2020-21 a 2021-22). Yn 2019-20, fe wnaethom ymrwymo tua £0.7m i'r gwaith hwn a bydd angen i ni gael cyllid i symud ymlaen yn y ddwy flynedd nesaf i sicrhau bod adnoddau dysgu proffesiynol o safon yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y cwricwlwm. Mae dyraniad o £0.4m hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu PL digidol i gefnogi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd, gan gynnwys adnodd hunanadolygu ar-lein newydd ar gyfer ysgolion. Bydd y cyllid hwn yn parhau yn 2020-21.
- 2.4.12 Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid Sefydliadau Addysg Uwch i ddatblygu Fframwaith Achredu Cenedlaethol o 2020 ymlaen, a fydd yn galluogi gweithwyr proffesiynol ym maes addysg i geisio achrediad cyffredin gan unrhyw Sefydliad AU yng Nghymru, a datblygu'r fframwaith ar gyfer Rhaglen Gradd Meistr Genedlaethol newydd. Mae tua £0.240m o'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon wedi cefnogi hyn yn 2019-20 a bydd yn cynyddu tua £0.5m yn 2020-21.
- 2.4.13 Ochr yn ochr â hyn rydym wedi parhau i gefnogi amrywiaeth o ddarpariaeth arwain gan gynnwys cymwysterau CPCP a datblygu llwybr dysgu cynorthwywyr addysgu a'r broses o gyflwyno statws CALU i'r rhai sy'n cefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth (tua £3m). Bydd y cyllid hwn yn parhau yn 2020-21.

Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol i'r MEG Addysg yn 2020-21 o ganlyniad i'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon sydd wedi bod yn weithredol ers mis Medi 2017.

2.4.14 Comisiynwyd gwerthusiad o'r broses o roi'r Safonau Proffesiynol ar waith, a bydd y costau'n dod o dan y BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon. Bydd y consortia yn parhau i dderbyn cyllid o £0.080m o fewn y BEL Gwella Safonau Mewn Ysgolion er mwyn darparu cefnogaeth ar gyfer gweithredu'r Safonau. Darperir cymorth ar gyfer gweithredu'r Safonau hefyd drwy ffrydiau ariannu dysgu proffesiynol eraill gan fod y safonau proffesiynol yn rhan gynhenid o'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Manylion y ddarpariaeth yn y gyllideb i fodloni'r flaenoriaeth o leihau'r fiwrocratiaeth a'r baich gwaith diangen, gan gynnwys defnyddio mwy ar reolwyr busnes.

2.4.15 Mae'r gyllideb ar gyfer lleihau'r baich gwaith o fewn cyllideb Baich Gwaith Athrawon sef £0.295m o fewn BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon, ac mae'r gwaith parhaus ar gyfer hyn yn cael ei reoli gan adnoddau staff cyfredol ac ar y cyd â rhanddeiliaid ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol yn cael eu hysgwyddo.

2.4.16 Roedd cynllun peilot Rheolwr Busnes Ysgolion yn rhaglen beilot am ddwy flynedd a gafodd arian cyfatebol ac a lansiwyd ym mis Medi 2017. Roedd cyfanswm y cyllid yn £1.2m dros y blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20 (cyfanswm o £0.6m gan LIC a £0.6m gan Awdurdodau Lleol). Yn wreiddiol, roedd 11 o awdurdodau lleol wedi cyflwyno cynigion i gymryd rhan yn y cynllun peilot, a chymerodd naw ohonynt ran.

2.4.17 Cynhaliwyd gwerthusiad interim o'r cynllun peilot ym mis Ionawr 2019. Canfu'r gwerthusiad fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau'r baich gweinyddol ar benaethiaid ac arweinwyr ysgolion. Roedd yr adroddiad yn dangos bod cael Rheolwr Busnes Ysgolion mewn swydd yn helpu i wella effeithiolrwydd y busnes, pa mor gost effeithiol oedd gwaith rheolaeth ariannol a chynllunio cyllidebau'r ysgol. Roedd hefyd yn ysgafnhau'r baich gweinyddol ar arweinwyr ysgolion, gan eu galluogi nhw i ganolbwyntio mwy ar addysgu, dysgu a chodi safonau. Rydym wrthi'n ystyried y camau nesaf ar gyfer y maes gwaith hwn.

Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol o'r flaenoriaeth o ddenu a chadw mwy o ymgeiswyr o safon a graddedigion aeddfed o safon i addysgu drwy lwybrau mynediad newydd i'r proffesiwn.

2.4.18 Mae'r gyllideb Addysg Gychwynnol i Athrawon Seiliedig ar Gyflogaeth o fewn BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon yn darparu £1.769m i gefnogi'r llwybrau rhan amser a chyflogaeth newydd a fydd yn dod ar-lein o fis Ebrill 2020 ymlaen ac a fydd yn amodol ar achrediad gan Gyngor y Gweithlu Addysg. Mae hyn yn cynnwys costau'r contract a dalwyd i'r Brifysgol Agored i ddatblygu a gweithredu'r rhaglenni newydd a'r costau cyfraniadau cyflog a ffi cysylltiedig i gefnogi gweithwyr newydd i ymuno â'r llwybr cyflogaeth.

2.4.19 Yn 2020-21, bydd hefyd yn cefnogi costau ffioedd i'r rhai sy'n dilyn y llwybr rhan amser newydd. Mae'r llwybrau hyn wedi cael eu datblygu er mwyn ehangu mynediad at hyfforddiant i athrawon a bydd yn cefnogi'r ymgeiswyr hynny o safon sydd eisoes yn y proffesiwn ac sy'n dymuno ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC). Byddant hefyd yn cefnogi'r ymgeiswyr hynny o'r tu allan i'r proffesiwn sy'n dymuno astudio'n rhan amser er mwyn ennill SAC, ond nad ydynt yn gallu dilyn cwrs amser llawn. Bydd y gyllideb hon yn dal i fod ar gael i gefnogi cyflwyno'r rhaglenni hyn yn 2020-21.

Gwybodaeth am unrhyw gyllid sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg

2.4.20 Mae cyllid grant gwerth £6.724m wedi cael ei ddyfarnu i Gyngor y Gweithlu Addysg (EWC) ar gyfer 2019-20 i gefnogi'r gweithgareddau canlynol:

- Gweinyddu'r broses o ddyfarnu SAC yng Nghymru;
- Y system statudol o sefydlu Athrawon Newydd Gymhwysu (NQTs) yng Nghymru;
- Cynnal a chadw, gweinyddu a datblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP);
- Hyrwyddo gyrfaedd yn y proffesiynau cofrestredig;
- Achredu rhaglenni Addysg Gychwynol i Athrawon (ITE);
- Gweithredu fel yr Ysgrifenyddiaeth Annibynnol i'r Corff Adolygu Amodau a Thâl yng Nghymru;
- Dadansoddi Data; a
- Ffi Cofrestru ar gyfer ymarferwyr.

Manylion am y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol.

2.4.21 Rydym wedi neilltuo £1m y flwyddyn i gefnogi'r academi newydd a ddaeth yn weithredol o fis Medi 2018 ymlaen. Ar hyn o bryd, mae'r llythyr cylch gwaith yn nodi amcanion ar gyfer defnyddio cyllid, gan gynnwys sefydlu'r Academi fel sefydliad; cael effaith ar argaeledd ac ansawdd y ddarpariaeth datblygu arweinyddiaeth ledled Cymru; a sicrhau eu lle fel arweinwyr syniadau strategol yn yr haen ganol.

2.4.22 Mae pob swydd wedi'i llenwi yn yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol erbyn hyn, fel yr oedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i ragweld. Ond, er mwyn sicrhau bod yr Academi'n gallu darparu a chyflawni ei hamcanion, bydd ei strwythurau'n cael eu hystyried a'u hadolygu eto ar ôl i'r Prif Swyddog Gweithredol newydd gael ei benodi.

2.4.23 Yn ychwanegol at y cyllid craidd ar gyfer yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, byddwn yn darparu £0.4m ychwanegol ar gyfer Rhaglen Swyddogion Cyswllt yr Academi. Nid yn unig mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen ar gyfer yr holl Swyddogion Cyswllt, mae hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu adroddiadau comisiwn y Swyddogion Cyswllt ac mae'n cefnogi'r garfan hon o arweinwyr systemau allweddol mewn lleoliadau.

Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r cynlluniau peilot clwstwr athrawon cyflenwi a diwygiadau perthnasol eraill a ystyrir yn barhaus.

- 2.4.24 Yn dilyn argymhellion a wnaed gan y Tasglu Model Cyflenwi yn 2017, dyrannwyd £2.7m i wella'r ffordd mae athrawon cyflenwi yn cefnogi ysgolion.
- 2.4.25 Roedd y prosiect yn darparu cyllid grant ar gyfer dwy flwyddyn academaidd rhwng 2017-18 a 2018-19 i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i arbrofi â modelau rhanbarthol a chydweithredol i wella'r broses o ddarparu athrawon cyflenwi. Llwyddodd 18 o brosiectau clwstwr ysgolion peilot mewn 15 awdurdod lleol i elwa ar y cyllid, a oedd yn cefnogi 103 o ysgolion a 47 o athrawon ychwanegol. Mae tua thraean o'r clystyrau naill ai'n parhau neu'n ystyried parhau â rhai elfennau o'u prosiect yn ystod y drydedd flwyddyn, sy'n flwyddyn hunangyllidol. Er bod awydd amlwg ymhlith y clystyrau sydd ar ôl i barhau os oes modd, maent wedi gweld ambell rwystr ariannol wrth wneud hynny.
- 2.4.26 Mae Ymchwil Arad wedi bod yn cynnal gwerthusiad allanol o'r prosiect. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno mewn adroddiad cryno a gyhoeddir yn ystod hydref 2020.

Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o ddatganoli cyflogau ac amodau athrawon, gan gynnwys y cynlluniau diweddaraf i ariannu'r dyfarniad cyflog athrawon a'r costau pensiwn ychwanegol ar ôl hynny, o fis Medi 2019.

- 2.4.27 Goblygiadau ariannol uniongyrchol datganoli cyflogau ac amodau athrawon yw sefydlu Corff Adolygu Cyflogau Cymru a'r ysgrifenyddiaeth i'w gefnogi. Mae'n costio tua £0.1m y flwyddyn.
- 2.4.28 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £12.8m o gymorth uniongyrchol yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 ar gyfer cost y dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon yn 2019/20, gan gynnwys y chweched dosbarth. Bydd hwn yn cael ei ddyrannu fel grant penodol a bydd cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r MEG Addysg yn Ail Gyllideb Atodol 2019-20.
- 2.4.29 Yn unol â'n hymrwymiad i ariannu'n llawn y newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU i bensiynau, rydym wedi trosglwyddo'r cyllid a gawsom gan Lywodraeth y DU, yn ogystal â'r cyllid ychwanegol i gwrdd ag effaith lawn y costau ar gyfer ysgolion a gynhelir, gan gynnwys y chweched dosbarth, sy'n dod i gyfanswm o £42.1m. Dyrannwyd y cyllid yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 a chafodd ei ddarparu i awdurdodau lleol yn 2019-20 drwy grant penodol.
- 2.4.30 Mae £3.660m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r BEL Darpariaeth Addysg Bellach yn 2020-21 i gyllido effaith blwyddyn lawn y dyfarniad cyflog a'r cynnydd mewn pensiynau ar gyfer chweched dosbarth ysgolion yn 2019/20.

2.5 Cwricwlwm i Gymru

Y diweddaraf am y cyllid i gefnogi'r gwaith o ddylunio'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn derfynol a'i roi ar waith.

- 2.5.1 Bydd fersiwn arweiniad Cwricwlwm i Gymru at ddibenion dylunio cychwynnol yn cael ei chyhoeddi fis Ionawr 2020. Bydd y fersiwn honno'n cael ei diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol arfaethedig sy'n codi o waith craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu yn ystod 2020.
- 2.5.2 Bydd gwaith yn parhau gydag agweddau ar y fframwaith Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys datblygu cwricwlwm i'w ddefnyddio gan leoliadau meithrin a ariennir ond nas cynhelir, a defnyddio prif arweiniad Cwricwlwm i Gymru, a chanllawiau pellach ar gyfer darparwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol. Bydd y BEL Adolygu'r Cwricwlwm yn ariannu'r gwaith hwn.
- 2.5.3 Byddwn yn parhau i fuddsoddi i gefnogi'r proffesiwn i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd gyda'r cyntaf o'r diwrnodau HMS ychwanegol yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr haf 2020. Mae hyn yn ategu'r buddsoddiad sylweddol mewn dysgu proffesiynol yn fwy cyffredinol.
- 2.5.4 Bydd cydweithio parhaus ac rydym wrthi'n cynnal trafodaethau â'r consortia rhanbarthol a phartneriaid eraill ynghylch y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio cyllid er mwyn ehangu ymgysylltiad a darparu capasiti ar lefel genedlaethol ac yn rhanbarthol i gefnogi'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith. Bydd hyn yn sail i'r dyraniadau manwl o'r BEL Adolygu'r Cwricwlwm ar gyfer 2020-21.

Y diweddaraf ar sut mae'r cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol athrawon i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio.

- 2.5.5 Mae dyraniad cyllid o £24m wedi'i ddarparu dros 18 mis er mwyn galluogi ysgolion i gydweithio i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac fel y gwnaethom gadarnhau, byddwn yn sicrhau bod £15m ar gael yn 2020-21.
- 2.5.6 Trosglwyddwyd yr arian ar gyfer 2018-19 a 2019-20 i gyd i ysgolion a chyllidebau ysgolion yn ôl rhanbarthau/awdurdodau lleol. Defnyddiwyd nifer yr athrawon (ar sail data CYBLD) fel sail i'r fformiwla ariannu i greu dyraniad ar gyfer pob ysgol.
- 2.5.7 Mae gofyn i bob ysgol gyhoeddi cynllun dysgu proffesiynol, yn amlinellu sut maent yn defnyddio'r arian, ac yna adrodd ar gynnydd (drwy eu cynlluniau diweddaraf neu adroddiad byr) bob blwyddyn. Mae'r consortia rhanbarthol yn ystyried y cynlluniau i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion datblygu penodol yr ysgol.
- 2.5.8 Mae'r arian wedi'i neilltuo'n bennaf ar gyfer creu amser mewn ysgolion er mwyn i ymarferwyr allu gwneud y newidiadau angenrheidiol i arferion. Gellir defnyddio'r cyllid i greu amser a gofod i ymarferwyr ac arweinwyr gydweithio mewn ysgolion a rhwydweithiau o ysgolion i archwilio goblygiadau'r cwricwlwm newydd, cynllunio ar y cyd a chreu profiadau ac adnoddau dysgu sy'n manteisio ar y cyfleoedd newydd a gynigir gan y cwricwlwm.

- 2.5.9 Bydd anghenion datblygu uniongyrchol yn amrywio yn ôl cyd-destun yr ysgol ac anghenion yr ymarferwyr unigol. Rydym yn dechrau nodi'r blaenoriaethau cynnar drwy gyfrwng ymchwiliadau proffesiynol sy'n cael eu harwain gan arloeswyr. Bydd y ddarpariaeth gychwynnol yn canolbwyntio ar sicrwydd presennol gan gynnwys symud tuag at gwricwlwm seiliedig ar ddiben yn hytrach na chwricwlwm seiliedig ar gwmpas, llunio cwricwlwm ar lefel ysgol ac ailfeddwl am asesu a chynnydd.
- 2.5.10 Mae'r rhanbarthau'n ymwneud â monitro cynnydd ysgolion a'u defnydd o gyllid PL. Ar hyn o bryd mae'r rhanbarthau'n gweithio gydag ysgolion i baratoi ystod o astudiaethau achos i'w dosbarthu'n ehangach, gan gyfleu enghreifftiau o ysgolion yn defnyddio arian PL ychwanegol yn dda. Bydd hyn yn cynnwys lle byddai gan ysgolion eraill ddiddordeb mewn sut mae ysgol wedi defnyddio'r grant Dysgu Proffesiynol ychwanegol, a chyfleu dulliau gweithredu arloesol a chreadigol. Mae'r meysydd y bydd yr astudiaethau achos yn tynnu sylw atynt yn cynnwys newidiadau a datblygiadau mewn perthynas â meysydd fel arweinyddiaeth, llywodraethu a threfniadaeth ysgolion; addysgu, dysgu ac asesu; a materion sy'n benodol i lunio'r cwricwlwm.
- 2.5.11 Fel yr amlinellwyd, mae Cyngorwyr Herio'r consortia yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod cynlluniau'r ysgol yn unol ag anghenion datblygu'r ysgol yng nghyswllt paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal gwiriadau ar hap i sicrhau bod ysgolion wedi bodloni telerau'r grant drwy gyhoeddi eu cynlluniau PL ar wefannau eu hysgolion.

2.6 Grant Gwella Addysg (EIG)

Gwybodaeth am lefel yr EIG yn 2020-21 a chymharu hynny â blynyddoedd blaenorol.

- 2.6.1 Byddwn yn buddsoddi £2.5m ychwanegol drwy'r EIG yn 2020-21, i gefnogi'r cymarebau disgybl-athro cydnabyddedig sy'n hanfodol er mwyn darparu arferion Cyfnod Sylfaen effeithiol.
- 2.6.2 O ganlyniad, byddwn yn buddsoddi dros £120m drwy'r EIG yn 2020-21, sy'n rhan o Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol. Bydd hyn yn darparu adnoddau ychwanegol i gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

Copi o'r fframwaith canlyniadau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fonitro effaith yr EIG ac unrhyw ganllawiau a gyflwynir i'r consortia rhanbarthol neu gan y consortia.

- 2.6.3 Ar hyn o bryd rwy'n cael trafodaethau â Phrif Weithredwyr arweiniol, Cyfarwyddwyr arweiniol ar gyfer awdurdodau lleol a Rheolwyr Gyfarwyddwyr consortia, fel rhan o sesiynau gwerthuso a gwella rhanbarthol, er mwyn pennu fy amcanion strategol ar gyfer 2020-21 yn sail ar gyfer eu cylch cynllunio busnes. Ysgrifennodd fy swyddogion at Reolwyr Gyfarwyddwyr consortia ym mis Rhagfyr 2018, gan gyflwyno llythyr cyllido iddynt yn cadarnhau eu

dyraniadau grant dangosol a'u disgwyliadau ar gyfer 2019-20. Roedd y llythyr yn gofyn i gonsortia ystyried ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu, fel sydd wedi'u hamlinellu yn *Ein Cenhadaeth Genedlaethol*, yn eu cynlluniau busnes. Cyhoeddwyd y dyfarniad grant terfynol ym mis Mai 2019 ynghyd â'r fframwaith canlyniadau drafft. Disgwylir i'r consortia rhanbarthol gyhoeddi eu cynlluniau busnes a'u fframwaith canlyniadau ar eu gwefannau. Bydd y broses hon yn parhau ar gyfer 2020-21.

Manylion y dyraniadau i bob consortia rhanbarthol ar gyfer pob blwyddyn ers 2015-16 a'r dyraniadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21.

2.6.4 Mae'r dyraniadau EIG i'r consortia ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2015-16 a 2020-21 (dangosol) wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Cyflwynir y ffigurau hyn heb gynnwys unrhyw arian cyfatebol gan yr awdurdod lleol:

Consortium	£000					
	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21 dangosol
CSC	43,461	41,359	41,210	35,607	35,617	36,352
GwE	30,920	29,398	29,186	26,638	26,578	27,103
ERW	39,978	38,079	37,752	33,609	33,493	34,161
EAS	26,661	25,446	25,134	22,285	22,449	23,020
Cyfanswm	141,021	134,282	133,282	118,138	118,137	120,636

Cadarnhau at ba ddibenion y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r EIG gael eu defnyddio ac a yw'r dibenion hyn wedi newid o gwbl ar gyfer 2020-21.

2.6.5 Diben Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, y mae'r EIG yn rhan ohono, yw cefnogi'r consortium rhanbarthol a'r awdurdodau cysylltiedig yn y consortium i gyflawni ein dyheadau a'n blaenoriaethau ar gyfer ysgolion ac addysg, fel yr amlinellir yn *Ein Cenhadaeth Genedlaethol*.

2.6.6 Cafodd llythyr cyllido a anfonwyd i'r Consortia ym mis Rhagfyr 2018 ei ffurfioli o fewn dau ddyfarniad grant ffurfiol i gonsortia rhanbarthol - y Grant Datblygu Disgyblion a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol.

2.6.7 Roedd y llythyr cyllido yn amlinellu ein blaenoriaethau cenedlaethol cyffredinol ar gyfer 2019-20 a sut y dylai'r rhain gael eu cyflwyno yng nghyd-destun *Ein Cenhadaeth Genedlaethol*. Rhaid i'r cyllid gefnogi'r consortia i gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg, ac mae cwricwlwm trawsnewidiol wrth galon hyn, sy'n canolbwyntio ar bedwar amcan galluogi allweddol a fydd yn cefnogi:

- datblygu a darparu proffesiwn addysg o ansawdd uchel;
- arweinyddiaeth ysbrydoledig sy'n cydweithio er mwyn codi safonau;
- ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles; a
- threfniadau gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy'n cefnogi system o hunanwella.

- 2.6.8 Bydd ystod o fesurau a dangosyddion perfformiad allweddol yn cefnogi'r canlyniadau, fel yr amlinellir yng nghynlluniau busnes y consortiwm a byddant yn ffurfio rhan o'r dull gweithredu ar gyfer y Fframwaith Canlyniadau Addysg.
- 2.6.9 Dim ond un o nifer o ffrydiau cyllido sy'n cefnogi ein blaenoriaethau cenedlaethol yw'r EIG, ac er bod modd ei ddefnyddio'n hyblyg, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar y Cyfnod Sylfaen ac addysgu a dysgu mewn ysgolion.

Manylion ynghylch ar gyfer beth y bwriedir defnyddio elfen Cyfnod Sylfaen yr EIG (hynny yw, ar gyfer gweithio tuag at gymarebau staff uchelgeisiol yn unig neu a yw'n gyllid craidd ar gyfer y ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen, ac os felly, pa grwpiau oedran).

- 2.6.10 Mae'r EIG yn egluro diben y Grant Cynnal Refeniw yn glir. Telerau ac amodau'r grant hwn yw'r dull o sicrhau y cedwir at y cymarebau staff i ddisgyblion mewn ysgolion. Fel y cadarnhawyd yn 2.6.1, bydd y £2.5m ychwanegol sy'n cael ei fuddsoddi yn yr EIG yn cael ei ddefnyddio i gryfhau a sefydlogi'r broses o ddarparu ansawdd yn y Cyfnod Sylfaen ar wahân, gan gynnwys cefnogi ysgolion i barhau i weithio tuag at y cymarebau cydnabyddedig.

2.7 Cymorth i ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Y diweddaraf ar y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y dull o ddarparu cymorth cyllid i ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr - a fydd y grant o £8.7 miliwn ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn dod i ben, ac a fydd disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn o'u cyllidebau eu hunain?

- 2.7.1 Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol fod pob plentyn yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyrraedd y safonau uchaf o ran addysg ac i ffynnu; mae hyn yn cynnwys plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr. O ganlyniad, rydym yn cynyddu'r gyllideb £1.3m yn 2020-21 yn y BEL Grant Gwella Ysgolion i gefnogi canlyniadau gwell i'r dysgwyr hyn. Bydd hyn yn darparu cyllid o £10m yn 2020-21 a bydd yn sicrhau ein bod yn parhau i gyllido awdurdodau lleol ar yr un sail â 2019-20, gan gydnabod pwysigrwydd gwarchod y gwasanaethau hyn. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ar y model dosbarthu tecaf.

Gwybodaeth am sut mae'r modd y mae'r cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio yn 2018-19 a 2019-20 ac effaith y cyllid hwn wedi cael eu monitro a'u gwerthuso.

- 2.7.2 Roedd cyllid 2019-20 yn ddibynnol ar awdurdodau lleol yn darparu cynlluniau ar gyfer sut roeddent yn bwriadu gwario'r cyllid hwn, a beth oedd y canlyniadau disgwyliedig, yn unol â phrosesau monitro grantiau. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu craffu a'u cymeradwyo cyn rhyddhau cyllid. Wrth i'r cyllid barhau i fod ar gael yn 2020-21 byddwn yn ystyried gweithio'n agosach ag awdurdodau lleol i werthuso effeithiolrwydd y grant.

Os yw'r £8.7 miliwn o arian pontio wedi dod i ben ac os oes disgwyl i awdurdodau dalu am wasanaethau o'u cyllidebau craidd - cadarnhau a oes Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gynnal (os felly, dylid darparu copi o'r Asesiad hwnnw).

2.7.3 Fel y cadarnhawyd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'r cyllid yn 2020-21 a bydd yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch y cymorth sydd wedi'i roi i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr dros y flwyddyn. O ganlyniad, nid oes Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei ddarparu, ond mae'n rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol cyffredinol sy'n cael ei gwblhau ar gyfer y Gyllideb. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer cefnogi cyflawniad dysgwyr lleiafrifoedd ethnig a Sipsiwn/Roma a Theithwyr pan sefydlwyd y grant, ac mae'r grant yn parhau i gael ei ddarparu at yr un diben.

2.8 Iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc

Gwybodaeth am oblygiadau ariannol i'r MEG Addysg yn 2020-21 o ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad Cadernid Meddwl, a chamau gweithredu dilynol.

2.8.1 Rwyf wedi cytuno ar y gwaith hwn ar y cyd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym ers cyhoeddi Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd y Gweinidogion ym mis Medi 2017.

2.8.2 Rydym yn buddsoddi £2m ychwanegol o'r MEG Addysg yn 2020-21 i gefnogi'r dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl, sy'n ychwanegol at y cyllid sydd wedi'i ddyrannu gan y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ehangu'r ddarpariaeth cwnsela, parhau gyda'r cynlluniau peilot mewngymorth CAMHS mewn ysgolion ac er mwyn ein galluogi ni i dargedu cyllid at feysydd blaenoriaeth eraill.

2.8.3 Yn 2017, cyhoeddais ar y cyd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai cynlluniau peilot mewngymorth CAMHS yn cael eu lansio mewn ysgolion mewn chwe awdurdod lleol, gyda staff iechyd meddwl arbenigol yn darparu gwasanaeth ymgynghori, cyswllt a chynghor yn uniongyrchol i ysgolion. Rydym yn cydnabod bod y cynlluniau peilot yn gwneud gwaith da, ac er mwyn cyd-fynd â'r adroddiad gwerthuso terfynol (ym mis Rhagfyr 2020), rydym wedi cytuno i ymestyn y cynlluniau peilot tan 31 Mawrth 2021, gan sicrhau buddsoddiad ychwanegol gwerth £0.789m yn y gwasanaeth gwerthfawr hwn. Bydd hyn yn eu galluogi i ystyried canlyniadau'r gwerthuso a'r camau nesaf.

2.8.4 Yn fwy cyffredinol, mae'r MEG Addysg hefyd yn cefnogi anghenion iechyd meddwl ac emosiynol plant mewn ysgolion drwy ddefnyddio cyllid PDG. Mae nifer o ysgolion yn defnyddio hwn i gyflwyno ymyriadau mewn ysgolion er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i aros ym myd addysg. Yn benodol, mae cyllid Addysg yn dal i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaeth cwnsela

annibynnol mewn ysgolion ac mewn lleoliadau eraill, ers iddo gael ei gynnwys gyda'r RSG yn 2014.

Manylion am sut mae unrhyw gyllid gan y MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn.

2.8.5 Yn 2019-20, cyhoeddodd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai £2.5m ar gael i gefnogi gweithgarwch ysgol gyfan. Ymhlith pethau eraill, mae'r gyllideb ysgol gyfan wedi'n galluogi ni i ddarparu cyllid o £1.526m i awdurdodau lleol i dargedu gwelliannau a gwella'r ddarpariaeth mewn tri maes sy'n gysylltiedig â'r ysgol gyfan:

- cwnsela mewn ysgolion – lle mae awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid i leihau'r rhestrau aros ar gyfer pobl ifanc sy'n ceisio cael gafael ar wasanaeth cwnsela; datblygu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys cydweithio â chyrff eraill, fel Gwasanaethau lechyd Meddwl y GIG; ac ymestyn y ddarpariaeth i bobl ifanc dan Flwyddyn 6;
- darparu hyfforddiant i athrawon ar eu lles eu hunain ac ar anghenion lles plant a phobl ifanc; a
- darparu ymyriadau mewn ysgolion i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef iechyd meddwl gwael.

2.8.6 Mae'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn ac mae'n cynnwys codiad o £0.5m yn y gyllideb gan y MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi gwelliannau yn narpriaeth cwnsela ysgolion a chostau ychwanegol yn gysylltiedig ag ymestyn mewngymorth CAMHS mewn ysgolion. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y cyllid yn £3 miliwn ar gyfer 2020-21.

2.9 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Goblygiadau ariannol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) 2018 yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 ac a yw amcan gostau ei rhoi ar waith yr un fath â'r hyn a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf ym mis Ionawr 2018.

2.9.1 Dyrannodd Llywodraeth Cymru becyn cyllid gwerth £20m yn 2017 i gefnogi'r gwaith o baratoi i roi system ADY newydd ar waith yn ystod tymor presennol y Cynulliad. Mae cyfanswm o £6.336m wedi'i ddyrannu yn y gyllideb ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid ADY yn 2020-21, ac mae i'w dynnu i lawr o'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r BEL Gwella Safonau Mewn Ysgolion.

2.9.2 Yng nghyd-destun y cyfnod amser newydd, rwyf wedi cydnabod efallai y bydd angen rhywfaint o gyllid ychwanegol i alluogi'r Arweinwyr Trawsnewid ADY i barhau yn eu swyddi y tu hwnt i fis Mawrth 2021. Ond, rhagwelir y bydd modd cwblhau'r brif raglen weithredu drwy ailbroffilio'r gweddill o'r £20m i adlewyrchu'r cyfnod amser newydd hwn.

Y ddarpariaeth yn y gyllideb i gefnogi'r Rhaglen Drawsnewid ADY a phroffil diweddar o'r £20 miliwn a ddyrannwyd yn ystod y Cynulliad hwn.

2.9.3 Mae cyllid ar gyfer 2020-21 wedi cael ei broffilio fel sydd i'w weld isod:

Ffrwd waith	2020-21 (£000)
Cymorth gweithredu/pontio	3,367
Datblygu'r Gweithlu	2,832
Codi ymwybyddiaeth a Datblygu sgiliau craidd	105
Polisi ategol	32
CYFANSWM	6,336

Y sefyllfa ddiweddaraf ar y trefniadau i ariannu hyfforddiant ar gyfer seicolegwyr addysg yng Nghymru ac a yw'r trefniant cyllid grant â Phrifysgol Caerdydd yn parhau tan 2020-21.

2.9.4 Mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu grant i Brifysgol Caerdydd ar hyn o bryd, sy'n talu ffioedd a bwrsariau i 10 myfyriwr y flwyddyn ar eu rhaglen hyfforddi broffesiynol Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol dros dair blynedd. Cafodd y trefniant hwn ei gryfhau ers 2019-20 drwy gysylltu isafswm nifer o fwrsariau â myfyrwyr sydd eisoes yn gallu gweithio drwy gyfrwn y Gymraeg, neu sydd â'r potensial i allu gwneud hynny, a drwy annog myfyrwyr i aros a gweithio yng Nghymru yn syth ar ôl graddio. Mae'r trefniant cyllid grant cyfredol ar waith tan 2021-22.

Dadansoddiad o'r BEL Lleoliadau Arbenigol ôl-16 yn y Cam Gweithredu Lles Plant a Phobl Ifanc.

2.9.5 Mae'r BEL Lleoliadau Arbenigol ôl-16 yn darparu cyllid ar gyfer lleoliadau mewn colegau arbenigol i bobl ifanc hyd at 25 oed sydd angen darpariaeth arbenigol er mwyn cael mynediad at AB sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion. Nid yw'r cyllid yn ôl disgresiwn, ac mae'n cael ei arwain gan y galw. Mae'n cael ei ddyrannu ar sail unigol yn unol ag anghenion addysg a hyfforddiant wedi'u hasesu.

2.9.6 Mae'r ddarpariaeth arbenigol ôl-16 yn cael ei sicrhau yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Rydym yn sicrhau darpariaeth o'r fath (ac yn talu'r costau cysylltiedig ar gyfer cyfnod y ddarpariaeth honno, fel y cytunwyd arno) mewn sefydliadau arbenigol Addysg Bellach (AB) ar gyfer pobl ifanc na fyddai'n gallu cael addysg a hyfforddiant addas i ddiwallu eu hanghenion fel arall. Mae nifer o leoliadau o'r fath yn cael eu hariannu ar y cyd ag adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (ALI) a/neu Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau).

2.9.7 Mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn mynychu am ddwy flynedd, ond mae modd iddynt wneud hynny am gyfnod byrrach neu hwy hefyd. Mewn achosion o gyfnodau hwy, dim ond ceisiadau pan fydd modd cyflwyno rhesymau eithriadol yn ymwneud â gallu'r person ifanc i ddysgu y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau.

- 2.9.8 Mae cost lawn a hyd lleoliad mewn sefydliad AB arbenigol yn amrywio yn ôl gofynion cefnogi unigol. Ond, mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALL a/neu BILLau yn aml yn cyfrannu at gyfanswm cost lleoliad dysgwr; ond mae hyn yn dibynnu ar i ba raddau mae yna elfen gymdeithasol a/neu ofal iechyd.
- 2.9.9 Rydym wedi cynyddu'r gyllideb hon £1.4m yn 2020-21, sy'n dod â chyfanswm y gyllideb i £13.881m i gefnogi'r galw cynyddol am y ddarpariaeth hon. Mae'r gyllideb yn cael ei defnyddio'n bennaf i gefnogi gwariant y rhaglen, ond, mae costau eraill sy'n codi yn gysylltiedig â chyflogau staff a chostau ymglyfreitha. Dyma'r dadansoddiad dangosol ar gyfer 2020-21:

Gwariant	2020-21 £000
Gwariant rhaglen astudio	13,681
Cyflogau staff sy'n cael eu hariannu gan y rhaglen	150
Costau ymglyfreitha	50
Cyfanswm	13,881

2.10 Maint Dosbarthiadau Babanod

Gwybodaeth am y ddarpariaeth yn y gyllideb i leihau maint dosbarthiadau babanod yn 2020-21, gan gynnwys:

- **sawl ysgol, dosbarth a disgybl fydd wedi elwa hyd at ddiwedd 2019-20**
- **sawl un y mae disgwyl iddynt elwa yn 2020-21 ac yn ystod gweddill cyfnod y Cynulliad hwn.**

2.10.1 Mae'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod yn £11m yn 2020-21, sy'n cynnwys £6m o arian referniw a £5m o arian cyfalaf.

2.10.2 Hyd yma, bydd 104 o ysgolion, sy'n cynnwys 455 o ddsbarthiadau babanod a thua 11,000 o ddisgyblion wedi elwa ar y cyllid hyd at ddiwedd 2019-20.

2.10.3 Gyda'i gilydd, mae disgwyl y bydd 115 o ysgolion, sy'n cynnwys 540 o ddsbarthiadau babanod a thua 11,800 o ddisgyblion yn elwa yn 2020-21 ac yn ystod gweddill cyfnod y Cynulliad hwn. Mae hyn o ganlyniad i benodi 110 o athrawon ychwanegol, 42 o gynorthwyr addysgu ychwanegol a 59 ystafell ddsbarth newydd (gan gynnwys uwchraddio cyfleusterau) mewn 33 o ysgolion, er mwyn lleihau maint dosbarthiadau babanod.

Y diweddaraf ar y £16 miliwn o arian referniw a'r £20 miliwn o arian cyfalaf a ddyrannwyd yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn.

2.10.4 Mae'r elfen £16m o arian referniw yn y cyllid hwn wedi'i ddsbarthu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla drwy ddefnyddio cyfuniad o elfen yr Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBA) ar gyfer Addysgu Plant Meithrin ac Ysgolion Cynradd a Gwasanaethau Eraill yn yr Asesiad o Wariant Safonol (SSA) a nifer y dosbarthiadau babanod sy'n cynnwys 29 a mwy ym mhob awdurdod lleol (gan ddefnyddio cyfartaledd o ddata CYBLD dros bedair blynedd rhwng 2013 a 2016). Mae'r grant wedi'i bwysoli 60% ar gyfer yr elfen SSA a 40% ar gyfer yr elfen maint dosbarthiadau babanod.

- 2.10.5 Telir y grant ar yr amod y cymeradwyir cynllun gweithredu gan yr awdurdod lleol sy'n cynnwys profi sut mae ei gynigion yn bodloni nod sylfaenol o leihau maint dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy'n bodloni'r meini prawf targed a'r adroddiadau cynnydd bob tymor.
- 2.10.6 Gwahoddwyd awdurdodau lleol i wneud cais am elfen gyfalaf gwerth £20m o'r cyllid, lle mae lleihau maint dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy'n bodloni'r meini prawf targed yn dibynnu ar greu ystafelloedd dosbarth ychwanegol.
- 2.10.7 Cyflwynodd un ar bymtheg o awdurdodau lleol gynigion, ac maent wedi'u cymeradwyo. Mae'r £20m i gyd wedi'i neilltuo. Ni chyflwynodd y chwe awdurdod lleol arall gais am arian cyfalaf, naill ai oherwydd eu bod yn gallu ymdopi â maint dosbarthiadau babanod llai yn eu hysgolion neu oherwydd nad oedd lle mewn rhai ysgolion i greu ystafell ddosbarth ychwanegol.
- 2.10.8 Atodir dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol ar draws tymor y Cynulliad yn **Atodiad F**.

Syniad ynghylch sut mae gwerth am arian y buddsoddiad mewn lleihau maint dosbarthiadau babanod yn cael ei asesu, gan gynnwys manylion y canlyniadau a geisir er mwyn cyflwyno tystiolaeth am lwyddiant.

- 2.10.9 Mae'r grant lleihau maint dosbarthiadau babanod yn un o gyfres o raglenni a fydd yn cyfrannu at godi safonau. Hefyd, mae disgwyl i ddosbarthiadau llai gyfrannu at leihau llwyth gwaith athrawon, cefnogi athrawon i fod yn arloesol a chynyddu ymgysylltiad disgyblion.
- 2.10.10 Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu ystod eang o ddata sylfaenol yn eu cynlluniau gweithredu yng nghyswllt yr ysgolion a gafodd eu targedu ynghyd â'r canlyniadau a ragwelir mewn amryw o feysydd. Mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi adroddiadau cynnydd awdurdodau lleol bob tymor a data CYBLD a gyhoeddir.
- 2.10.11 Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'r ysgolion a dargedir i asesu manteision ansoddol y grant, gan gynnwys o ran yr effaith y mae'n ei chael ar lwyth gwaith athrawon, cefnogi arferion arloesol, gwella ymgysylltiad disgyblion a gwella lles disgyblion ac athrawon. Bydd adroddiad ar gynnydd y grant yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd.
- 2.10.12 Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2018/19 roedd 82 o athrawon ychwanegol a 29 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol mewn swydd, yn dysgu dosbarthiadau babanod a oedd yn cynnwys rhwng 10 a 25 o ddisgyblion, gyda 23 mewn dosbarth ar gyfartaledd. Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2019-20 mae 95 o athrawon a 40 o gynorthwywyr addysgu mewn swydd ar hyn o bryd.
- 2.10.13. Mae dros 94% o ddosbarthiadau babanod bellach yn cynnwys 30 neu lai o ddisgyblion. Bu gostyngiad yn nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau

babanod sy'n cynnwys 30 neu lai unwaith eto eleni, am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae bron i 93% o fabanod mewn dosbarthiadau o 30 neu lai erbyn hyn.

2.11 Lleoedd gwag ac ysgolion bach/gwledig

Amlinelliad o'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y grant ysgolion bach a gwledig yn 2020-21.

2.11.1 Yn 2020-21 mae'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y grant ysgolion bach a gwledig yn £2.5m.

Diweddariad ar wariant y grant hyd yn hyn, a dadansoddiad o sut cafodd ei ddyrannu rhwng awdurdodau lleol.

2.11.2 Mae £2.5m y flwyddyn ar gael yn ystod tymor y Cynulliad ers mis Ebrill 2017. Mae'r grant yn cael ei ddsbarthu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla, sy'n cynnwys sawl ffactor o ran teneurwydd poblogaeth a maint ysgolion, fel a ganlyn:

- 70% drwy gyfeirio at boblogaeth denau (yn seiliedig ar boblogaeth ym mhob awdurdod lleol y tu allan i aneddeleoedd sy'n uwch na throthwy poblogaeth benodol yn ôl Cyfrifiad 1991); a
- 30% drwy gyfeirio at nifer yr ysgolion cynradd a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

2.11.3 Atodir dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol unigol ar gyfer y grant a'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2020-21 yn **Atodiad F**.

2.11.4 Mae cyllid grant yn dibynnu ar gymeradwyo cynllun gweithredu gan yr awdurdod lleol sy'n nodi'r ysgolion hynny a fydd yn elwa, gan gynnwys tystiolaeth ynghylch sut bydd eu cynigion yn bodloni prif ddibenion y grant, sef:

- hybu arloesedd, gan gynnwys defnyddio technoleg ddigidol newydd i fynd i'r afael â sefyllfa broffesiynol ynysig;
- cefnogi mwy o waith ysgol i ysgol, gan gynnwys ffederasiwn;
- darparu cymorth gweinyddol ychwanegol lle mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu sylweddol yn yr amserlen; a
- defnyddio mwy ar adeiladau ysgolion ar gyfer digwyddiadau cymunedol, pan fydd cyfleoedd ar gael a phan fydd galw am hynny'n lleol.

Syniad ynghylch sut mae gwerth am arian y grant ysgolion bach a gwledig yn cael ei asesu, gan gynnwys manylion y canlyniadau a geisir er mwyn cyflwyno tystiolaeth am lwyddiant.

2.11.5 Dyluniwyd prif ddibenion y grant er mwyn ystyried agweddau gwerth am arian. Mae gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau gweithredu bob blwyddyn sy'n dangos sut mae eu cynigion yn bodloni prif ddibenion y grant. Mae hwn yn un o ofynion y grant. Hefyd, mae gofyn iddynt gynnwys manylion yr

allbynnau a'r canlyniadau a ragwelir ac effaith hynny ar eu hysgolion, gan ystyried materion fel cynaliadwyedd hefyd.

- 2.11.6 Asesir cynlluniau gweithredu awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn bodloni prif ddibenion y grant ac er mwyn ystyried amryw o faterion gan gynnwys ystyriaethau gwerth am arian. Bydd y grant yn cael ei dalu ar ôl cymeradwyo adroddiadau cynnydd bob tymor, a ddefnyddir i fonitro cynnydd a chanlyniadau yn unol â'r cynlluniau gweithredu.
- 2.11.7 Mae dros 430 o ysgolion bach a gwledig ledled Cymru wedi cael budd o'r cyllid grant hyd yma. Mae sawl enghraifft sy'n dangos gwerth am arian, ac mae nifer o'r ysgolion hyn bellach yn gweithio gyda'i gilydd ar faterion sy'n arwain at fanteision i'r naill a'r llall. Mae rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio'r arian i ffedereiddio ysgolion o dan un corff llywodraethu er mwyn iddynt allu rhannu adnoddau er budd yr holl ysgolion yn y ffederasiwn. Mae rhai ysgolion wedi datblygu gweithdrefnau a pholisïau ar y cyd. Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i dalu am swyddi gweinyddol ar draws nifer o ysgolion hefyd, er mwyn lleihau'r baich ar benaethiaid. Mae rhai ysgolion wedi defnyddio'r arian i ddatblygu eu cyfleusterau er mwyn i'r gymuned allu eu defnyddio.

2.12 Cynllun Ysgolion Bro

Manylion y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y Cynllun Ysgolion Bro, i gynnig cymorth ychwanegol i gefnogi ysgolion a cholegau i helpu rhieni a phlant i ddysgu gyda'i gilydd.

- 2.12.1 Byddwn yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod Ysgolion Bro yn realiti i bawb drwy ddarparu grant cyfalaf Hybiau Cymunedol a Chanolfannau Dysgu Cymunedol gwerth £15m yn ystod 2019-2021. Mae'r grant yn cyllido amryw o gynlluniau peilot sy'n caniatáu mynediad at gyfleusterau ysgol at ddibenion cymunedol, gan gynnwys cyfleoedd gweithgarwch corfforol y tu allan i oriau ysgol ledled Cymru.

Manylion y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflawni yn sgil gwariant ar y flaenoriaeth hon.

- 2.12.2 Yn y man, byddwn yn rhannu arferion da am y cynlluniau peilot a ariannwyd lle mae ysgolion yn darparu rhagor o fynediad at eu cyfleusterau. Bydd astudiaethau achos yn cael eu casglu, yn rhoi gwybodaeth am sut mae prosiectau wedi goresgyn heriau fel cyfyngiadau safleoedd, trefniadau staffio neu lywodraethu.
- 2.12.3 Erbyn 2022, bydd nifer sylweddol o brosiectau ysgolion a cholegau yn mynd rhagddynt. Byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar herio a chefnogi ein hysgolion, ein colegau a'n cymunedau i weithio gyda'i gilydd i wneud y gorau o'r adeiladau a'r cyfleusterau hyn er mwyn i ddysgu yn yr 21ain ganrif fod yn rhywbeth y gall pawb gael gafaél arno drwy gydol ein bywydau.

2.13 Estyn

Manylion dyraniad y gyllideb ar gyfer Estyn yn 2020-21 o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol, gan gynnwys pa drafodaethau diweddar sydd wedi'u cynnal â'r arolygiaeth ynghylch y lefelau cyllid angenrheidiol a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.13.1 Cyfanswm y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer Estyn yn 2020-21 yw £11.504m, sy'n gynnwys yr adnodd ariannol (£11.023m), yr adnodd anariannol (£0.2m) a'r arian cyfalaf (£0.281m) o fewn BEL Estyn yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol. Mae hyn yn gyson â chyllid ar gyfer 2019-20 fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 ym mis Mehefin 2019.

Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ar gyfer cyllideb Estyn neu ar gyfer llinellau cyllideb Llywodraeth Cymru o adroddiad yr Athro Donaldson, Arolygiaeth Dysgu, ac unrhyw gamau gweithredu dilynol.

2.13.2 Mae swyddogion wrthi'n trafod y goblygiadau i adnoddau gydag Estyn wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion yn 'Arolygiaeth Dysgu'. Rhagwelir y bydd costau ychwanegol o £0.5m i'r Arolygiaeth, o fwrw ymlaen â rhai o'r cynigion yn 2020-21, a fyddai'n cael eu talu o dan y BEL Gwella Safonau Mewn Ysgolion.

2.14 Cymwysterau

Manylion y dyraniad yn y gyllideb i Gymwysterau Cymru yn 2020-21, gan gynnwys pa drafodaethau diweddar sydd wedi'u cynnal gyda'r rheoleiddiwr ynghylch y lefelau cyllid gofynnol ac a oes digon o gyllid i gwblhau'r dasg o adolygu cymwysterau'r sector mewn da bryd.

2.14.1 Ceir cydnabyddiaeth glir y bydd yn rhaid i gymwysterau newid er mwyn bod yn gydnaws â'r Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn cefnogi'r Cwricwlwm hwn. Mae Cymwysterau Cymru yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith hwn, fel y rheoleiddiwr annibynnol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid addysg allweddol eraill.

2.14.2 Ar gyfer 2020-21, rydym yn buddsoddi £0.981m ychwanegol yn y BEL Cymwysterau Cymru, gan ddod â chyfanswm y cyllid £9.463m, er mwyn i Gymwysterau Cymru ddechrau ar ei raglen waith hirdymor i gwmpasu a datblygu cymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

2.14.3 Mae'r gwaith adolygu sector yn rhan o gylch gwaith craidd Cymwysterau Cymru ac mae wedi cael ei gynllunio, ac mae'n cael ei ddarparu, o fewn ei gyllid craidd. Mae'r adolygiadau sector yn dod yn eu blaen yn dda, ac mae'r cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol newydd wedi cael eu cyflwyno i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2019. Mae adolygiadau o'r sector mewn perthynas ag Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig a Chyflawni Digidol wedi'u cwblhau hefyd ac mae cymwysterau newydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae Cymwysterau Cymru bellach ar ganol pedwerydd adolygiad

o'r sector ar gyfer Peirianeg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2020. Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn cynllunio adolygiad o'r sector a fydd yn cynnwys Teithio, Twristiaeth, Hamdden, Lletygarwch ac Arlwyo a bydd hyn yn dechrau yn 2020.

2.15 Addysg Cyfrwng Cymraeg

Manylion am y ddarpariaeth yn y gyllideb i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

- 2.15.1 Mae'r ddogfen *Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg iaith Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf, yn unol â gweledigaeth *Cymraeg 2050* ac *Ein Cenhadaeth Genedlaethol*. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn arwain ar roi'r gweithgareddau a'r camau gweithredu ar waith mewn ymateb i'r blaenoriaethau addysg a nodir yn y cynllun gweithredu. Er enghraifft, cynyddu nifer yr athrawon, datblygu cwricwlwm a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y MEG Addysg yn parhau i gefnogi'r gweithgareddau hyn o'r BELs presennol (Datblygu a Chefnogi Athrawon, Adolygu'r Cwricwlwm, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gwella Safonau Mewn Ysgolion) yn 2019-20.
- 2.15.2 Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio cyllid o nifer o ffynonellau i roi eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith, gan gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu cefnogi a'u darparu drwy'r rhaglen gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r RCSIG. Wrth gyflawni eu RCSIG, gofynnir i'r consortia rhanbarthol sicrhau bod y rhaglen o weithgareddau a ariennir yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.
- 2.15.3 Mae cyllideb o £0.1m wedi'i dyrannu o'r BEL y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi'r broses o ddatblygu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu dyrannu o'r gyllideb hon yn cynnwys:
- ymchwil i ddynodiadau ysgolion yn ôl eu darpariaeth Gymraeg;
 - ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch *Rheoliadau Drafft Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*;
 - cynllun peilot sy'n darparu cymorth dwys un-i-un i Awdurdodau Lleol ar agweddau penodol o weithredu a chyflwyno'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg; a
 - Chynhadledd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg genedlaethol i gyflwyno'r trefniadau deddfwriaethol newydd ar gyfer hyn a chyhoeddi canllawiau newydd.

Grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg

- 2.15.4 Yn ystod 2018/19, sefydlwyd cynnig cyllid grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg a chynnig Gofal Plant cyfun, gwerth £46m i gefnogi twf y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gefnogi tua 46 o brosiectau ar draws 20 o awdurdodau lleol, a fydd, pan fydd yr holl

brosiectau'n cael eu gwireddu, yn arwain at 2,818 o leoedd ysgol a gofal plant ychwanegol i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd yr hwb ariannol hwn yn helpu rhywfaint i gefnogi'r cynnydd yn y ddarpariaeth sy'n ofynnol i ymateb i uchelgais *Cymraeg 2050* a threfniadau newydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Siarter Iaith

- 2.15.5 Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu £788,430 i'r prosiect Siarter Iaith ar hyn o bryd. Mae £500,000 o hyn yn cael ei ddyrannu i'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol, drwy Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, at ddibenion gweithredu Siarter y Gymraeg a chefnogi gweithgareddau yn y sector cyfrwng Cymraeg uwchradd a'r sector cyfrwng Saesneg cynradd. Mae pob consortiwm unigol yn cytuno ar gynlluniau ac yn mesur cynnydd.
- 2.15.6 Hefyd, mae £0.112m yn cael ei ddyrannu i'r Urdd bob blwyddyn i gynnal y rhaglen *Cymraeg bob dydd* mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Amlinellu sut mae cyllideb y Gymraeg mewn Addysg yn cefnogi Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a'i tharged o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- 2.15.7 Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050*, a gyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2017, yn cael ei rhoi ar waith mewn partneriaeth â gwahanol Is-adrannau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol.
- 2.15.8 Mae cyllideb y Gymraeg mewn Addysg, sy'n dod i gyfanswm o £12.675m yn 2020-21, yn cefnogi ein hymrwymiad o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gweithgareddau sy'n cael eu hariannu drwy BEL y Gymraeg mewn Addysg yn cynnwys: datblygu darpariaeth blynnyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; cefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg; cymorth i golegau AB a darparwyr hyfforddiant i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i addysgu a hyfforddi dysgwyr yn ddwyieithog; a chyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth AU cyfrwng-Cymraeg ac arwain ar ddatblygiadau ôl-16.
- 2.15.9 Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys datblygu adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi'r broses o addysgu Cymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ac adnoddau dwyieithog eraill i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Mae rhagor o fanylion am gyllideb y Gymraeg mewn Addysg wedi'u cynnwys yn adran 2.22.

Cadarnhau a yw'r cyllid ar gyfer gweithgarwch dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg yn parhau yn 2020-21 a beth yw'r canlyniadau a fwriedir o'r gwariant hwn.

- 2.15.10 Dyrannwyd £5.03m o'r BEL Gwella Safonau Mewn Ysgolion yn 2019-20 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Gymraeg yn y system addysg a chyflwyno

Cynllun Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017. Dyma sut mae'r cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio yn ystod 2019-20:

- £2.7m i'w ddyrannu i'r consortia rhanbarthol i gefnogi'r broses o gyflwyno dysgu proffesiynol Cymraeg ac elfennau eraill o gynllun y Gymraeg mewn addysg;
- £2m i ddarparu cyrsiau Cynllun Sabothol y Gymraeg mewn blwyddyn a £0.075m i dalu am werthuso'r Cynllun Sabothol;
- £0.08m i gefnogi gweithgareddau cyfathrebu i hyrwyddo addysg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- £0.03m i gefnogi gweithgareddau peilot i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg; a
- £0.145m i gefnogi gweithgareddau i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch ac sy'n symud ymlaen i fod yn athrawon.

2.15.11 Ni fydd y cyllid hwn yn lleihau yn 2020-21. Mae hyn wedi cynyddu bob blwyddyn ers y dyraniad gwreiddiol o £4.2m yn 2017-18. Dyrannwyd £4.785m yn 2018-19.

2.15.12 Yn ogystal â'r cyllid yn y BEL Gwella Safonau Mewn Ysgolion, mae £1.65m wedi cael ei drosglwyddo o'r BEL Cymraeg mewn Addysg i'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon. Mae hyn yn cyllido'r broses o gyflwyno modelau eraill o gyrsiau Cynllun Sabothol, ee cyrsiau i gynorthwywyr addysgu a chysiau byrrach i athrawon.

2.15.13 Mae gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol wedi cael ei gomisiynu a disgwylir adroddiad yn 2020-21. Mae dau nod i'r gwerthusiad hwn. Y cyntaf yw edrych ar i ba raddau y mae'r Cynllun Sabothol yn cyfrannu at newid yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu, neu'r ffordd y mae'n cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion. Yr ail nod yw asesu cyfraniad y Cynllun Sabothol at y ddarpariaeth datblygu proffesiynol er mwyn i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg neu er mwyn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn darparu'r sail ar gyfer datblygu'r Cynllun Sabothol a'r hyfforddiant i ymarferwyr yn strategol yn y dyfodol.

2.16 Gwaith ieuenctid

Gwybodaeth am y ddarpariaeth yn y gyllideb yn y MEG Addysg i gefnogi Gwaith Ieuenctid, gan gynnwys:

Dadansoddiad o'r £10 miliwn y cyfeirir ato yn y datganiad i'r cyfryngau ar 24 Mehefin 2019.

2.16.1 Mae dadansoddiad o'r £10m ar gyfer 2019-20 yn y tabl isod:

Dadansoddiad o'r Grant Cymorth Ieuenctid	£000
Y Grant Cymorth Ieuenctid Craidd (Gwaith Ieuenctid a Gweithgareddau Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid)	3,856
Cymorth iechyd meddwl	2,500
Digartrefedd ymhlith pobl ifanc	3,700
Cyfanswm	10,056

Eglurhad ynghylch ym mha linellau cyllideb y mae'r dyraniadau ychwanegol wedi cael eu cynnwys, gan gynnwys dadansoddiad o ba gyllid oedd yn cyfrif am y dyraniad presennol a beth sy'n newydd.

- 2.16.2 Mae'r cyfanswm o £10m yn cael ei sianelu trwy'r Grant Cymorth Ieuencid sy'n dod o fewn y BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid. Dyma ddadansoddiad:
- 2.16.3 Mae £3.856m yn cynrychioli'r gweithgarwch craidd (cyllid presennol) sy'n cael ei ddarparu'n hanesyddol drwy'r Grant Cymorth Ieuencid (Gwaith Ieuencid a Gweithgareddau Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid).
- 2.16.4 Darparwyd £2.5m ar gyfer iechyd meddwl i gefnogi'r ddarpariaeth iechyd meddwl a lles i bobl ifanc, gan ddefnyddio dulliau gweithredu addysgegol gwaith Ieuencid. Roedd hwn yn gyllid newydd ar gyfer y grant yn 2019-20 ac roedd yn cael ei ddyrannu fel rhan o gyllideb y llynedd.
- 2.16.5 Mae £3.7m eisoes ar gael ar gyfer 2019-20 i helpu i ganfod a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae hwn yn gyllid newydd ar gyfer y grant yn 2019-20 ac mae wedi'i ddarparu drwy drosglwyddiad o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol fel rhan o'r £10m a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog i roi terfyn ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc. Fel yr amlinellwyd, bydd y cyllid o £3.7m ar gyfer digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn trosglwyddo i'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Pobl Ifanc yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2019-20. Bydd hyn yn cynyddu'r cyllid o fewn y BEL hwn i dros £10m ar gyfer 2019-20.

A fydd y cyllid a gyhoeddwyd ar 24 Mehefin 2019 yn ar gael bob blwyddyn.

- 2.16.6 Mae ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 yn nodi cyllid o fewn y BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid yn y MEG Addysg ac yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol (digartrefedd ymhlith pobl ifanc) i ddarparu'r un lefel o gyllid drwy'r Grant Cymorth Ieuencid yn 2020-21. Mae hyn yn cynnwys cynnal ein buddsoddiad o £2.5m i gefnogi'r ddarpariaeth iechyd meddwl a lles i bobl ifanc. Mae hyn, fel y byddid yn disgwyl, yn amodol ar gael cymeradwyaeth ffurfiol ar ôl cytuno ar y gyllideb derfynol.

Dyraniadau ar gyfer y grantiau canlynol, a gwybodaeth am y bwriad tymor hwy ar eu cyfer:

- ***Grant Cymorth y Strategaeth ar gyfer Gwaith Ieuencid;***
- ***Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol (CWVYS);***
- ***Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS Cymru);***
- ***Grant y Corff Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol (NVYO).***

- 2.16.7 Mae manylion y bwriad tymor hwy yng nghyswllt y Grant Cymorth Ieuencid wedi'u nodi uchod. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dyraniadau ar gyfer gweddill y grantiau gwaith Ieuencid yn 2019-20:

Grant	2019-20 Dyraniad £000
Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuentid Gwirfoddol (CWVYS)	105
Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS)	42
Grant Cyrff Ieuentid Gwirfoddol Cenedlaethol (NVYO)	682
Cyfanswm	826

2.16.8 Nid oes unrhyw fwriad i leihau nac ailgyfeirio'r cyllid a ddarperir drwy'r grantiau hyn yn 2020-21, a bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, er enghraifft, wedi hysbysebu rownd newydd o gyllid yn ddiweddar ar gyfer y grant NVYO, a fydd yn dechrau yn 2020-21.

Amlinellu sut mae pobl ifanc wedi bod yn rhan o gyfrannu at y penderfyniadau ynghylch y dyraniadau ar gyfer gwaith ieuentid.

2.16.9 Er nad yw pobl ifanc wedi bod yn rhan uniongyrchol o'r penderfyniadau ynghylch y dyraniadau ar gyfer gwaith ieuentid yn y gyllideb hon, ymgynghorwyd â nhw fel rhan o adolygiadau a gyhoeddwyd o nifer o ffrydiau cyllid grant gwaith ieuentid fel rhan o waith Margaret Jervis y llynedd. Un o ganlyniadau uniongyrchol hyn yw gofyniad mwy cadarn ar bartneriaid i ddangos sut maent wedi ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ifanc, gan eu cynnwys yn y gwaith o ddylunio a datblygu'r cyllid grant a'r gwasanaethau ehangach ar lefel leol.

2.16.10 Hefyd, mae'r Bwrdd Gwaith Ieuentid Interim wedi sicrhau yr ymgynghorwyd â phobl ifanc yn ystod pob cam o ddatblygu'r Strategaeth Gwaith Ieuentid newydd i Gymru drwy gyfres o sesiynau 'Dewch i Drafod' ac fel rhan o waith penodol. Mae'r Bwrdd wedi trefnu sesiynau grŵp gyda phobl ifanc hefyd, o dan arweiniad myfyrwyr gwaith ieuentid, i edrych ar beth mae'r strategaeth yn ei olygu iddyn nhw, a sut gellir rhoi gwybod am hyn yn well i bobl ifanc ledled Cymru. Y bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn parhau er mwyn i bobl ifanc chwarae rhan sylweddol yn ystod oes y Bwrdd, yn cyfrannu at weithgarwch ac argymhellion y Bwrdd ar ddiwedd eu cyfnod.

2.16.11 Yn olaf, gwahoddir pobl ifanc a rhanddeiliaid gwaith ieuentid lleol i ddod i bob Cyfarfod Bwrdd Gwaith Ieuentid Interim pan fo hynny'n bosibl. Mae hyn yn helpu i gynnwys llais pobl ifanc yng ngwaith y Bwrdd, ac o ganlyniad, mae'n sail i ddulliau gweithredu Llywodraeth Cymru ac mae'n sail i benderfyniadau ynghylch y gyllideb hefyd.

2.17 Y cynnig gofal plant

Yr asesiad diweddaraf o'r goblygiadau refeniw a chyfalaf ar gyfer y MEG Addysg yng nghynnig gofal plant Llywodraeth Cymru.

2.17.1 Nid oes cyllideb refeniw o fewn y MEG Addysg ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Bydd y costau hyn yn dal i gael eu talu o'r MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, lle mae cyllid ar gyfer 2020-21 yn cynyddu i £60m er mwyn diwallu'r galw cynyddol.

2.17.2 Drwy'r MEG Addysg, rydym yn buddsoddi cyfalaf ychwanegol gwerth £6m i gefnogi'r Cynnig Gofal Plant, sy'n dod â chyfanswm y buddsoddiad cyfalaf i £70m dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi cydleo'i'r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen bresennol â'r ddarpariaeth Cynnig Gofal Plant newydd ar un safle, pan fo hynny'n bosibl, ac yn sicrhau bod digon o ofal plant yn yr ardaloedd iawn. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd heb lawer o wasanaethau gofal plant ar hyn o bryd, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig.

2.18 Y Blynyddoedd Cynnar / Y Cyfnod Sylfaen

Manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ganddi olwg gyffredinol ar y cyfraddau cyllido ar gyfer y cynnig 10 awr blynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen ledled Cymru ar gyfer y sector nas cynhelir ac o gymharu â'r sector a gynhelir.

2.18.1 Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu addysg gynnar, ac sy'n penderfynu ar strwythur a chyllid y ddarpariaeth. Mae bron iawn pob awdurdod lleol yn darparu Dosbarth Meithrin yn y Cyfnod Sylfaen (plant 3 a 4 oed) mewn ysgolion ac mewn lleoliadau gofal plant nas cynhelir hefyd. Mae gofyn i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf 10 awr o addysg Cyfnod Sylfaen. Mae'r ddarpariaeth yn un gyffredinol a dylai fod ar gael i bob rhiant sydd ei hangen.

2.18.2 Ym mis Medi y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ganllawiau](#) i awdurdodau lleol, i'w hatgoffa o'u dyletswyddau statudol yn y maes hwn. Roedd hyn er mwyn helpu i annog darpariaeth fwy hyblyg i helpu i gefnogi plant ac i gynnal gwell mynediad i rieni.

2.18.3 Rydym yn cadw cysylltiad agos ag awdurdodau lleol er mwyn i Lywodraeth Cymru gael gwell dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion gweithredu pob awdurdod lleol. Mae hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru nodi a rheoli unrhyw faterion yn barhaus.

2.18.4 Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r sefydliadau ambarél sy'n cynrychioli darparwyr lleoliadau nas cynhelir yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi darlun eang i ni o'r sector cyfan.

2.18.5 Oherwydd y dull gwahanol o ariannu ysgolion nid oes modd gwneud cymariaethau mesuradwy rhwng y sectorau gan fod rhai gwahaniaethau sylweddol fel:

- peidio â neilltuo cyllid cyfredol ar gyfer FPN yn y sector a gynhelir;
- awdurdodau lleol ddim bob amser yn defnyddio fformiwla gyson i gyfrifo cyllidebau ysgolion;
- ysgolion yn derbyn ffrydiau ariannu ychwanegol gan gynnwys yr EIG a'r PDG sy'n cefnogi'r broses o ddarparu ac yn cefnogi'r dysgwyr yn uniongyrchol; ac
- ysgolion yn gallu defnyddio arbedion maint ac yn gallu adleoli adnoddau staff yn haws.

Y diweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu'r cysylltiad rhwng cyfraddau cyllido ar gyfer gofal plant tair a phedair oed (o dan y cynnig Gofal Plant) ac addysg y blynyddoedd cynnar (y Cyfnod Sylfaen) ar gyfer plant tair a phedair oed, a'r diweddaraf am y cynllun peilot yn Sir y Fflint.

- 2.18.6 Mae sicrhau bod darpariaeth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen hirsefydlog yn ffactor llwyddiant allweddol ar gyfer darparu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru (y Cynnig) yn llwyddiannus.
- 2.18.7 Rydym wedi cydnabod bod gwahaniaethau wedi dod i'r amlwg rhwng y gyfradd y mae awdurdodau lleol yn ei thalu am FPN ac elfen gofal plant y Cynnig, pan roddwyd y Cynnig ar waith i ddechrau. Mae rhai darparwyr yn nodi bod y cyfraddau cyllido is ar gyfer yr FPN yn rhwystr rhag darparu'r FPN a rhoi'r Cynnig ar waith.
- 2.18.8 Ym mis Rhagfyr 2018, ar y cyd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac yna'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, cytunais i brofi'r egwyddor o gael un gyfradd gyllido ar gyfer elfennau addysg a gofal y Cynnig, drwy gynnal cynllun peilot yn Sir y Fflint.
- 2.18.9 Rydym wedi profi effaith cyfradd gyllido gyson ar gyfer addysg gynnar a gofal plant mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir. Cynhaliwyd y cynllun peilot ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i blant 3 oed yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2019.
- 2.18.10 Ochr yn ochr â'r peilot, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol gan Ymchwil Arad (sydd hefyd yn gwerthuso'r Cynnig yn ehangach). Rydym wedi derbyn y gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot ac rydym wrthi'n ystyried y canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys gwneud rhagor o waith modelu ariannol i adolygu costau cyffredinol cyflwyno un gyfradd gyllido. Byddem yn disgwyl i unrhyw ofyniad cyllidebol o ganlyniad i hyn gael ei amlinellu mewn cyllideb yn y dyfodol.

Eglurhad ynghylch sut mae'r cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn y Grant Gwella Addysg (EIG) yn berthnasol i gyllid arall ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar, ac a yw eu dibenion yn wahanol i'w gilydd.

- 2.18.11 Mae cyfran sylweddol o'r cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) yn cael ei darparu i awdurdodau lleol drwy'r setliad llywodraeth leol. Nid yw'r cyllid hwn wedi cael ei glustnodi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen oherwydd ei fod yn berthnasol i swyddogaethau prif ffrwd.
- 2.18.12 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen drwy'r Grant Gwella Addysg (EIG). Cafodd Grant y Cyfnod Sylfaen ei gynnwys mewn un ffrwd gyllido, yr EIG, ar gyfer ysgolion yn 2015. Y bwriad oedd arwain at hyblygrwydd i gonsortia addysg rhanbarthol ac awdurdodau lleol i dargedu adnoddau lle'r oedd eu hangen fwyaf a chaniatáu i ysgolion ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig wrth wella canlyniadau addysgol i blant yng Nghymru.

2.18.13 Mae'r EIG yn egluro diben y Grant Cynnal Refeniw yn glir. Telerau ac amodau'r grant hwn yw'r dull o sicrhau y cedwir at y cymarebau staff i ddisgyblion mewn ysgolion. Cyflwynwyd cymarebau staff i ddisgyblion ar gyfer addysg gynnar yn 2005 (cyn i'r Cyfnod Sylfaen gael ei weithredu) er mwyn cydymffurfio â safonau gofynnol cenedlaethol a gyflwynwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer plant 3 a 4 oed mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig ac er mwyn gallu darparu'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen a'i addysgeg i blant 3 i 7 oed. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen cymhareb staff i ddisgyblion uchel (1:8 ar gyfer y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn) i ddarparu'r dull dysgu drwy brofiad, chwarae addysgol a gweithredol mewn ffordd strwythuredig, yn yr awyr agored yn ogystal â dysgu dan do.

2.18.14 Mae'r EIG yn ofynnol hefyd i ddarparu cymorth i leoliadau nas cynhelir i sicrhau bod darpariaeth Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel ar gael. Mae hyn yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy Athrawon Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar a gyflogir gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, er bod dulliau eraill, gan gynnwys ysgolion sy'n darparu cymorth uniongyrchol i leoliadau ar gael hefyd.

2.19 Cyllid cyfalaf ar gyfer y seilwaith ysgolion a cholegau

Gwybodaeth am y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif a hynt y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a niferoedd y prosiectau sydd wedi cael eu cwblhau/cymeradwyo hyd yma, wedi'u dadansoddi yn ôl:

- ***Crynodeb o'r gwariant a nifer y prosiectau sydd wedi cael eu cyflawni / cwblhau ym Mand A.***
- ***Y sefyllfa ddiweddaraf o ran Band B y rhaglen.***

2.19.1 Y llynedd, cyhoeddwyd buddsoddiad gwerth £75m ychwanegol dros dair blynedd (2004-19 tan 2020-21) i gyflymu Rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif. Mae hyn, ynghyd â'r cyllid ychwanegol sydd wedi cael ei ddyrannu yn y gyllideb hon, sy'n cynnwys codiad cyfalaf cyffredinol o £10m, yn dod â chyfanswm y cyllid ar gyfer BEL y Seilwaith Addysg sy'n cefnogi cyllideb Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif i dros £200 miliwn yn 2020-21.

2.19.2 Bydd ton gyntaf (Band A) y rhaglen yn buddsoddi mwy na £1.4bn, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu 50% o'r cyllid. Mae'r don yma bron â bod yn gyflawn gan fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer 170 o brosiectau, y mae 145 ohonynt wedi'u cwblhau ac 19 wrthi'n cael eu hadeiladu. Mae gan y prosiectau sydd wedi cael eu cymeradwyo £796.4m o gyllid wedi'i ymrwymo iddynt hyd at 2020-21 yn unol â'r cyllidebau a gymeradwywyd.

2.19.3 Mae ail don y rhaglen (Band B) yn cynnwys cyfalaf cyfwerth â £500m i'w ddarparu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) ac rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y gwariant hwn yn cael ei broffilio'n effeithiol. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer 27 o brosiectau, y mae saith ohonynt wrthi'n cael eu hadeiladu. Mae gan y

prosiectau sydd wedi cael eu cymeradwyo £157.1m o gyllid wedi'i ymrwymo iddynt hyd at 2024-25 yn unol â'r cyllidebau a gymeradwywyd.

Y diweddaraf ynghylch defnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer Band B a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr arian sydd ar gael.

2.19.4 Mae buddsoddiad ychwanegol gwerth £500m ychwanegol (cyfalaf cyfwerth) i'w ddarparu o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) yn elfen bwysig o Fand B. Mae effaith defnyddio'r model hwn ar y gyllideb yn gadarnhaol gan ei fod yn ateb Dyledion y Llywodraeth, sy'n golygu ei fod yn 'ychwanegol' at unrhyw gyllid cyfalaf. Bydd y costau datblygu y bydd awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach yn eu hwynebu wrth weithio ar eu cynlluniau yn cael eu hariannu drwy grant cyfalaf yn yr un modd â'r cynlluniau cyfalaf ar sail 65:35.

2.19.5 Mae Tîm Addysg MIM wrthi'n caffael Partner Cyflawni Sector Preifat i greu menter ar y cyd â Llywodraeth Cymru a fydd yn hwyluso pob Awdurdod Lleol neu Sefydliad Addysg Bellach unigol i gyflwyno cynlluniau MIM mewn modd effeithlon a hyblyg. Disgwylir i'r partner a ffafrir gael ei benodi ym mis Mehefin 2020 gyda'r ysgolion/ colegau cyntaf yn cwblhau'r agweddau ariannol ar y prosiectau cyntaf mor fuan â mis Medi 2021 a'r adeiladau newydd cyntaf yn cael eu cwblhau erbyn 2022.

2.20 Addysg Bellach, Chweched Dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Manylion unrhyw gyllid i'w ddarparu i sefydliadau addysg bellach er mwyn eu galluogi i baratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.

2.20.1 Mae'r cyllid wedi'i dargedu at oedran ysgol statudol ac nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i sefydliadau Addysg Bellach.

Manylion y galw ar gam gweithredu addysg ôl-16 2020-21, i fodloni ymrwymadau cyllido blwyddyn academaidd 2019/20 ar gyfer y Chweched Dosbarth a sefydliadau addysg bellach.

2.20.2 Mae Chweched Dosbarth awdurdodau lleol yn cael dyraniadau ar sail blwyddyn ariannol. Felly, nid oes galw ar gam gweithredu addysg ôl-16 2020-21 i fodloni ymrwymadau cyllido blwyddyn academaidd 2019/20.

2.20.3 Bydd Sefydliadau Addysg Bellach yn cael dyraniadau ar sail blwyddyn academaidd, sy'n golygu bod galw ar gam gweithredu addysg ôl-16 2020-21. Ar gyfer 2020-21, £111.168m yw'r galw hwnnw.

Manylion unrhyw gyllid cyfalaf i sefydliadau addysg bellach ac unrhyw gyfyngiadau mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi ar y cyllid cyfalaf.

2.20.4 Nid yw'r cwestiwn yn benodol i amser, ond dyfarnwyd y canlynol i Sefydliadau Addysg Bellach:

Rhaglen	Amser	Cyfradd Ymyrraeth	Cyllid LIC £000oedd
Rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif - Band B	2019-2024	65%	48,410

2.20.5 O dan Fand B Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae £74.5m o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ar draws y sector fel y gwelir isod:

Coleg Addysg Bellach – prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £000oedd
Dysgu Oedolion Cymru - Bryn Menai	420
Coleg Penybont - Academi STEAM	30,400
Coleg Cambria - Canolfan Dechnegol Iâl	20,650
Coleg Gwent - Arlwyo ar Gampws Brynbuga	3,330
Grŵp Llandrillo-Menai - Campws Bangor	10,000
Grŵp Llandrillo-Menai - Canolfan Hyfforddi Nyrsgys Milfeddygol / Anifeiliaid Bach Glynllifon	1,430
Coleg Gŵyr Abertawe – Neuadd Sgeti	2,250
Coleg Sir Benfro	5,990
Cyfanswm	74,470

2.20.6 Yn ogystal â'r cyllid uchod, o dan Raglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif - Band B, mae amlenni mynegol o £117m o gyfalaf ar ôl ac mae £160.4m o MIM wedi cael ei ddyrannu i Sefydliadau Addysg Uwch ledled Cymru.

Manylion unrhyw ddyraniadau wedi'u neilltuo neu heb eu neilltuo i sefydliadau addysg bellach y tu hwnt i'w dyraniad craidd ac, yn arbennig, manylion unrhyw symiau sydd wedi'u bwriadu i gefnogi darpariaeth iechyd meddwl, anghenion dysgu ychwanegol, cyflog athrawon a phensiynau.

2.20.7 Adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid yw'r dyraniadau ôl-16 i'r sector AB wedi'u pennu eto. Mae hyn, yn bennaf, am fod y setiau data terfynol yn dal i gael eu harchwilio. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd y dyraniadau wedi cael eu pennu a'u cwblhau'n derfynol.

Manylion BEL y lleoliadau arbenigol ôl-16, yn cynnwys ei dibenion.

2.20.8 Mae manylion BEL y lleoliadau arbenigol ôl-16, yn cynnwys ei dibenion wedi cael eu nodi yn adran 2.9.

Y cyllid y disgwylir i sefydliadau addysg bellach ei gael o gontractau/darpariaeth dysgu seiliedig ar waith a chyflogadwyedd.

2.20.9 Nid yw'r cyllidebau a ddefnyddir at y diben hwn yn cael eu cofnodi fel rhan o'r MEG Addysg. Mae'r rhain yn rhan o'r MEG Economi a Thrafnidiaeth mewn gwirionedd. Mae dwy ran i'r gweithgaredd hwn:

- Dysgu Seiliedig ar Waith

- Cyflogaeth a Sgiliau

2.20.10 Yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20, £170.738m oedd cyfanswm y rhain ac yn ystod blwyddyn ariannol 20-21, £166.355m yw'r gwariant wedi'i gynllunio.

2.20.11 Adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid yw'r penderfyniad i ddyfarnu contractau Cymorth Swyddi Cymru yn dilyn proses gaffael wedi cael ei wneud eto, felly nid ydym beth fydd yr effaith ar Sefydliadau Addysg Bellach.

Manylion holl ddyraniadau 2019/20 i golegau addysg bellach, gan gynnwys cyfansymiau'r wyth elfen sy'n rhan o'r dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, amddifadedd, teneurwydd poblogaeth a lwfansau cyfrwng Cymraeg, lwfans cynhaliath ac addasiad Addysg Oedolion Cymru).

2.20.12 Gweler **Atodiad G** - Dyraniadau AB 2019/20.

Esboniad cam-wrth-gam o sut mae'r dyraniadau amser llawn a rhan-amser ar gyfer sefydliadau addysg bellach nawr yn cael eu cyfrifo, yn cynnwys y data am ddemograffeg, y cwricwlwm a dysgwyr sy'n sail i'r cyfrifiadau hyn.

2.20.13 Ar ei symlaf, tarddiad y cyllid amser llawn yw cyfanswm nifer y dysgwyr a ragwelir wedi'i luosi â gwerth rhaglen cyfartalog sefydliad. Gweler **Atodiad H** - methodoleg cyllido AB am wybodaeth fanylach ynghylch sut cyrhaeddir y nifer o ddysgwyr a ragwelir a'r gwerthoedd rhaglen cyfartalog.

2.20.14 Mae manylion tarddiad y cyllid rhan-amser wedi'u cynnwys hefyd yn **Atodiad H** - methodoleg cyllido AB.

Copi o'r canllawiau diweddaraf ar Rhagdybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach a roddwyd i Sefydliadau Addysg Bellach.

2.20.15 Roedd y Rhagdybiaethau Cynllunio yn cynnwys y nodiadau paratoi canlynol:

- Mae'r rhagdybiaethau hyn at ddibenion cynllunio yn unig er mwyn sicrhau bod modd cymharu sefydliadau ac ni ddylid eu trin fel rhagolygon cyllido mynegol na chyingor ar gytundebau cyflog yn y dyfodol.
- Maent ar sail gynghorol ac os bydd unrhyw golegau'n teimlo nad ydynt yn briodol i'w hamgylchiadau nhw, gellir defnyddio rhagdybiaethau gwahanol ar yr amod eu bod yn cael eu datgelu yn y rhagolygon.
- Dylid darllen y rhagdybiaethau hyn ar y cyd ag unrhyw gyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi cyngor penodol ar ffrydiau cyllido eraill.

2.20.16 Roedd y rhagdybiaethau allweddol yn cynnwys:

- Dylid tybio 1% o gynnydd yn y dyraniad ar gyfer blynyddoedd i ddod (sylwer: Nodyn 1 uchod).
- Dylid tybio 1% o ddyfarniad cyflog ar gyfer pob blwyddyn (sylwer: Nodyn 2 uchod).
- Ar wahân i 2018/19 lle cytunwyd ar £5m o gyllid cynnal a chadw, dylid tybio na fydd unrhyw gyfansymiau eraill ar gael ar gyfer 2019/20 a 2020/21.

- Oherwydd prinder gwybodaeth ar hyn o bryd ynghylch cyllidebau Cymru yn y dyfodol, rydym yn argymhell dadansoddiad sensitifrwydd o 2.5% a 5% mewn cyllid rheolaidd, yn cynnwys unrhyw incwm Dysgu Seiliedig ar Waith.

2.21 Manylion y cymorth i ddysgwyr addysg uwch ac ôl-16, yn cynnwys adnoddau benthyciadau i fyfyrwyr

Manylion dyraniad CCAUC, yn cynnwys manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo fydd yn cael ei ddyrannu i CCAUC, er enghraifft ar gyfer Cymru Fyd-eang II, gwaith ymchwil, pensiynau (os o gwbl) ac ati (sonnir am brentisiaethau gradd isod).

2.21.1 Cafodd dyraniad terfynol CCAUC ar gyfer 2019-20 ei bennu ar £152.745m. Yn unol â'r rhagamcanion a nodwyd yn fy llythyr cylch gwaith at CCAUC ar gyfer y flwyddyn ariannol, mae'r dyraniad wedi cynyddu i £178.247m. Er nad yw cyllid CCAUC wedi'i neilltuo, rydw i wedi dyrannu cyllid y cyngor ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- £5m i gefnogi cynllun i annog astudio ôl-radd yng Nghymru;
- £1.369m i gefnogi Cymru Fyd-eang II, trydedd flwyddyn o ddyraniad cyllido tair blynedd.
- £0.105m i gefnogi datblygiad rhaglen WHEELP II ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach;
- £1.3m i gefnogi cynllun cymhellion ôl-radd;
- £0.08m i gefnogi cynllun bwrsari i fyfyrwyr Gradd Meistr dros 60 oed.
- £10m o gyllid cyfalaf ar gyfer defnyddio'r ystad.

2.21.2 Yn ogystal â hyn, fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond, rydw i wedi dyrannu arian ar gyfer gweithredu yn y meysydd canlynol:

- Ehangu premiwm pwnc drud (amser llawn)
- Ehangu premiwm pwnc drud (rhan-amser)
- Ysgoloriaethau ymchwil doethurol
- Cyllid heb ei neilltuo
- Trosglwyddo gwybodaeth ac ymchwil

Manylion unrhyw gyllid cyfalaf fydd ar gael i CCAUC, yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau i'w gosod gan Lywodraeth Cymru.

2.21.3 Yn 2020-21, bydd £10m o gyllid cyfalaf ar gael. Dyma drydedd flwyddyn ymrwymiad cyllido tair blynedd i ddarparu cyllid i gefnogi sefydliadau i leihau'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig ag ystadau a chyflawni arbedion wrth reoli eu hystadau a'u gweithrediadau.

Tabl yn dangos alldro 2019-20 a'r gwariant a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol o ran:

- ***Grant Ffioedd Dysgu i Israddedigion Amser Llawn (FTUG) (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr yng Nghymru ac mewn manau eraill yn y DU)***

- **Grant Cynhaliaeth FTUG (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr yng Nghymru ac mewn manau eraill yn y DU)**
- **Grant Cynhaliaeth i Israddedigion Rhan-amser (PTUG) (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr yng Nghymru ac mewn manau eraill yn y DU)**
- **Elfen o'r grant Cyllid Gradd Meistr (wedi'i dadansoddi yn ôl myfyrwyr yng Nghymru ac mewn manau eraill yn y DU)**
- **Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA)**
- **Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (WGLG(FE))**
- **Grantiau a lwfansau wedi'u targedu (yn ôl myfyrwyr yng Nghymru ac mewn manau eraill yn y DU)**
- **Unrhyw eitemau cyllido eraill sy'n rhan o'r cam gweithredu i gefnogi dysgwyr ôl-16 (sonnir am y ddarpariaeth adnoddau benthyciadau i fyfyrwyr isod).**

2.21.4 Gweler **Atodiad I** ar gyfer Tablau 1 i 3.

2.21.5 Mae Tabl 1 yn cynnwys dadansoddiad o'r gwariant alldro a ragwelir ar gyfer 2019-20 a'r gwariant a ragwelir am 4 blynedd ar gyfer (grantiau) cymorth nad oes angen eu talu'n ôl yn unig. Dylid nodi bod y cymorth ar gyfer astudiaethau doethurrol yn cael ei roi fel cynnyrch benthycia yn unig.

2.21.6 Mae Tablau 2 a 3 yn rhannu'r gwariant yn ôl lle mae'r myfyriwr yn dewis astudio. Mae Tabl 2 hefyd yn dadansoddi'r cymorth a roddir i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac sy'n astudio mewn Prifysgolion yng Nghymru;

2.21.7 Mae Tabl 3 yn dadansoddi'r cymorth a roddir i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac sy'n astudio mewn prifysgolion yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon.

Y ddarpariaeth benthyciadau i fyfyrwyr wedi'i dadansoddi yn ôl:

- **DEL ac AME ar gyfer reffeniw a chyfalaf, wedi'u rhannu yn ôl symiau cyllidol ac anghyllidol, yn cynnwys sylwebaeth sy'n esbonio unrhyw symudiadau o gymharu â chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20.**

Llinell y Gyllideb	Ffin y Gyllideb	BEL	2019-20 Atodol 1af £000	Gwahaniaeth £000	2020-21 Drafft £000
Ffi RAB	Adnodd Anghyllidol	4707	106,849	-	106,849
Cyfanswm yr Adnoddau Anghyllidol			106,849	-	106,849
Llog Effeithiol	AME - Adnoddau	4713	-123,844	-555	-124,399
Ad-daliadau	AME - Cyfalaf	4713	-99,872	-14,195	-114,067
Blaendaliadau	AME - Cyfalaf	4713	702,171	92,548	794,719
Llog wedi'i Gyfalafu	AME - Cyfalaf	4713	172,003	38,733	210,736
Cyfanswm AME			650,458	116,531	766,989
Mae'r amrywiadau uchod yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i HMT ym mis Medi 2019, yn seiliedig ar y data economaidd diweddaraf a demograffeg y myfyrwyr.					

Y ddarpariaeth benthyciadau i fyfyrwyr a ragwelir wedi'i dadansoddi yn ôl symiau ar gyfer:

- **Gwariant ar fenthyciadau cynhaliath a ffioedd dysgu FTUG a'r ffi Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB)**
- **Gwariant ar fenthyciadau cynhaliath a ffioedd dysgu PTUG a'r ffi RAB**
- **Gwariant ar elfen benthyciadau Cyllid Gradd Meistr a'r ffi RAB**
- **Gwariant ar fenthyciadau doethurol a'r ffi RAB**
- **Benthyciadau israddedig amser llawn yn ystod Blwyddyn Ariannol 2019-20**

2.21.8 Wedi'i gynnwys yn **Atodiad I** fel Tabl 4.

Amlinelliad o unrhyw effaith mae penderfyniad SYG ym mis Rhagfyr 2018 ynghylch y modd y caiff benthyciadau i fyfyrwyr eu trin yng nghyllid y sector cyhoeddus wedi'i chael ar Gymru / ar bolisi Llywodraeth Cymru.

2.21.9 Nid yw penderfyniad SYG wedi cael unrhyw effaith ar y modd y caiff benthyciadau i fyfyrwyr eu trin o safbwynt Llywodraeth Cymru; gan effeithio yn unig ar y modd y caiff Benthyciadau i Fyfyrwyr eu trin o safbwynt cyllid cyhoeddus yn genedlaethol.

2.21.10 Rydym mewn cysylltiad rheolaidd â Thrysorlys EM a'r Weinyddiaeth Addysg a byddwn yn ymwneud ag unrhyw drafodaeth ynghylch y modd y bydd Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cael eu trin yn y dyfodol ym maes cyllid cyhoeddus.

Manylion unrhyw ddyraniad ar gyfer 2020-21 a fwriedir ar gyfer cyflwyno prentisiaethau gradd; a manylion y cyllid fyddai'n ofynnol i addysgu prentisiaid gradd pe na bai'r rhaglen beilot yn parhau y tu hwnt i'r ymrwymiad cychwynnol o £20 miliwn.

2.21.11 Trosglwyddwyd £5m yn flaenorol i CCAUC fel rhan o'r broses ddiwethaf o bennu'r gyllideb. Rhagwelir y bydd (hyd at) £7m arall yn cael ei drosglwyddo i CCAUC i gefnogi Prentisiaethau Lefel Gradd newydd i barhau yn ystod 2020-21.

2.22 Addysg ôl-16 arall a Chymraeg mewn addysg

Manylion cyllid lleoliadau arbenigol ôl-16 a'i ddefnydd, os na roddir sylw mewn man arall.

2.22.1 Mae sylw wedi cael ei roi i hyn yn ein hymateb o dan adran 2.9.

Manylion cyllid treialu'r Cyfrif Dysgu Personol.

- 2.22.2 Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn ymrwmo i dreialu Cyfrif Dysgu Personol. Bydd y cyfrif yn darparu cyllid ar gyfer ailhyfforddi pobl gyflogedig mewn modd galwedigaethol mewn sectorau diwydiant lle mae'n amlwg bod prinder sgiliau.
- 2.22.3 Mae'r rhaglen ar gael i unrhyw un sy'n byw yng Nghymru, sydd dros 19 oed ac yn gweithio, ond yn ennill llai nag incwm Canolrifol Cymru (£0.026m y flwyddyn). Mae'n cael ei threalu gan Goleg Gwent yn y de-ddwyrain a gan Grŵp Llandrillo-Menai yn y gogledd. Mae'n cynnig cyfle i bobl sy'n gweithio gael mynediad at gyrsiau hyblyg am ddim yn sectorau â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru; yn y sector peirianeg, y sector adeiladu a'r sector TGCh i gychwyn.
- 2.22.4 Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r holl gyrsiau a bydd cynghorwyr gyrfa penodol yn Cymru'n Gweithio yn helpu pob unigolyn i lunio cynllun ymarferol sy'n gweithio o amgylch ei ymrwymadau presennol i'w helpu i gyflawni ei nodau o ran gyrfa yn y dyfodol. Bydd y rhaglen beilot yn rhedeg am ddwy flynedd a bydd yn cael ei monitro gyda'r bwriad o gynnig cyrsiau ychwanegol ar draws amrywiaeth ehangach o sectorau â blaenoriaeth, gan gynnig mwy byth o gyfleoedd i bobl newid gyrfa.

Manylion cyllido ar gyfer dysgu troseddwyr, a manylion y ddarpariaeth a gaiff ei hariannu.

- 2.22.5 Llywodraeth Cymru sy'n cyllido (o'r arian a ddarperir i Weinidogion Cymru yn benodol at y diben hwn gan lywodraeth y DU) y ddarpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd carchardai mewn carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi (HMPPS).
- 2.22.6 HMPPS sy'n gyfrifol am gomisiynu'r holl addysg a dysgu a ddarperir mewn carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni rhagolygon cyflogaeth cynaliadwy. Mae'r carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys CEM Caerdydd, Abertawe, Brynbuga, Prescoed a CEM Berwyn. Ac eithrio CEM Berwyn, caiff dysgu a sgiliau eu darparu gan staff mewnol a gyflogir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gyfer CEM Berwyn, mae HMPPS wedi rhoi'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau allan ar gontract i Novus Cambria. Mae CEM Parc yn garchar preifat a chaiff yr holl wasanaethau eu gweithredu drwy G4S.
- 2.22.7 Bydd cyllideb flynyddol o £3.328m yn cael ei dyrannu i HMPPS i gefnogi'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau ar gyfer carcharorion mewn Carchardai yn Ne Cymru. Ers agor CEM Berwyn ym mis Chwefror 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn trosglwyddiadau mewn blwyddyn i ariannu'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau yno. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cadarnhau bod y cyllid hwn wedi'i warantu ar gyfer y dyfodol ac y bydd yn gymesur â'r cyllid a gaiff ei ryddhau ar gyfer dysgu a sgiliau wrth i garchardai gau yn Lloegr.
- 2.22.8 Mae'r trefniadau presennol yn galluogi Llywodraeth Cymru i wella ansawdd a pherthnasedd dysgu troseddwyr ymhellach yng nghyd-destun blaenoriaethau

Llywodraeth Cymru. Mae'n cefnogi nifer o ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu: Symud Cymru Ymlaen, gan ganolbwyntio'n arbennig ar roi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i gael mynediad at swyddi. Bydd gwella addysg a darparu sgiliau am oes yn torri'r cylch amddifadedd ac anghydraddoldeb a brofir gan lawer yn y garfan hon dros y tymor hwy.

Manylion cyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cenedlaethol.

2.22.9 Y gyllideb Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2020-21 yw £12.675m. Mae'r gyllideb yn cynnwys trosglwyddo £1.650m o fewn y MEG ar gyfer hyfforddi ymarferwyr laith Gymraeg, gan mai'r BEL Datblygu a Cefnogi Athrawon sydd bellach yn gyfrifol am y cynllun Sabothol a CYDAG. Yn ogystal â hyn, mae'r £0.5m a dynnwyd o'r llinell sylfaen mewn perthynas â'r cyllid a ddyrannwyd yn y cytundeb Cyllideb drwy flynedd gyda Plaid Cymru ar gyfer adnoddau addysg dwyieithog wedi cael ei adfer ar gyfer 2020-21. Bydd y cyllid hwn yn sicrhau parhad y rhaglen sy'n mynd rhagddi i gomisiynu adnoddau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd a chymwysterau galwedigaethol ôl-16.

2.22.10 Y cyllid cyffredinol ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw £5.88m. Mae hyn yn cynnwys £5.4m ar gyfer y Coleg a £0.330m ar gyfer ei gynllun ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg mewn AU. Dyrannwyd £0.150m hefyd i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg ar gyfer Addysg Bellach a Phrentisiaethau.

Roedd y BEL Cymraeg mewn Addysg wreiddiol yng Nghyllideb Derfynol 2019-20 yn £29.361 miliwn. Symudodd y BEL yma i'r MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r laith Gymraeg (IRWL) ym mis Ionawr 2019. Ym mis Mehefin 2019, mae'r Gyllideb Atodol Gyntaf yn dangos bod y Cam Gweithredu wedi symud yn ôl at y MEG Addysg, ond dim ond £14.325 miliwn gafodd ei drosglwyddo allan o'r MEG IRWL i'r BEL Cymraeg mewn Addysg o fewn y MEG Addysg - y balans yn symud fel trosglwyddiad o fewn y MEG IRWL i mewn i'r BEL laith Gymraeg:

- ***Pa weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiadau cyllido sydd wedi symud o'r MEG IRWL i mewn i'r MEG Addysg, a pha rai sydd wedi aros o fewn y MEG IRWL?***
- ***Beth oedd y rhesymeg dros rannu'r cyllid a oedd yn arfer cael ei gynnwys yn y BEL Cymraeg mewn Addysg rhwng dau MEG?***

2.22.11 Ar ôl i'r Prif Weinidog benodi ei Gabinet ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd cyfrifoldebau pob Gweinidog Cabinet ym mis Ionawr 2019. O ganlyniad i'r newid mewn cyfrifoldebau gweinidogol, roedd angen trosglwyddo cyllid i'r MEGs perthnasol er mwyn bod yn gyson â chyfrifoldebau'r portffolio. Yn achos yr laith Gymraeg, cafodd cyllid ei drosglwyddo yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 rhwng y MEG IRWL a'r MEG Addysg, yn unol â'r cyfrifoldebau Gweinidogol a nodir isod:

2.22.12 Y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Iaith Gymraeg:

- Yr iaith Gymraeg, yn cynnwys goruchwyllo a chydlynu polisi iaith Gymraeg cyffredinol;
- Swyddogaethau Gweinidogol sy'n deillio o Fesur Iaith Gymraeg 2011;
- Comisiynydd y Gymraeg.

2.22.13 Y Gweinidog Addysg:

- Addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- Addysg Bellach;
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned;
- Polisi, strategaeth a chyllid Addysg Uwch.

2.22.14 Cafodd £15.036m ei drosglwyddo o'r BEL Cymraeg mewn Addysg i'r BEL Iaith Gymraeg o fewn y MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Iaith Gymraeg (IRWL). Cafodd y balans oedd yn weddill yn y BEL Cymraeg mewn Addysg, sef £14.325m ei drosglwyddo o'r MEG IRWL i'r MEG Addysg i adlewyrchu cyfrifoldebau'r portffolio a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019.

2.22.15 Mae'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cyllid sydd wedi symud o'r MEG IRWL i'r BEL Addysg yn cynnwys: datblygu darpariaeth blyneddodded cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; cefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg; cymorth i golegau AB a darparwyr hyfforddiant i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i addysgu a hyfforddi dysgwyr yn ddwyieithog; a chyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth Addysg AU cyfrwng Cymraeg ac arwain ar ddatblygiadau ôl-16. Mae'r gweithgareddau eraill yn cynnwys: hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr mewn ysgolion a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg; datblygu adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi'r broses o addysgu Cymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ac adnoddau dwyieithog eraill i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

2.22.16 Ymhlith y gweithgareddau sydd wedi aros y fewn y MEG IRWL, mae *Cymraeg for Kids* sydd wedi'i gynllunio i helpu i gynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill y teulu. Mae *Siarter Iaith* yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith plant oed ysgol gynradd ac yn Ysgol Gymraeg Llundain, gan alluogi'r rheini sydd wedi gadael Cymru i barhau i gyfrannu at ein cymuned a'r gymdeithas ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gweithgareddau eraill sydd wedi aros o fewn y MEG IRWL yn cynnwys *Cymraeg i Oedolion* sy'n galluogi'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion a dyfarnu cyllid grant i sefydliadau allweddol sy'n cynnwys Mentrau Iaith, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a'r Papurau Bro. Mae'r Llinell Gymorth ar gyfer Busnesau Cymru, gweithgareddau marchnata iaith Gymraeg, prosiectau i ddatblygu rhaglenni Cymraeg a phrosiectau terminoleg Cymraeg wedi'u cefnogi o fewn y MEG hefyd.

2.23 Gwyddoniaeth ac arloesi ym myd busnes

Manylion y cymorth ar gyfer:

- **Y Prif Gyngorydd Gwyddonol a'i swyddfa, yn cynnwys unrhyw gyllid ychwanegol sydd ar gael ar gyfer mentrau strategol/rhoi polisiau gwyddoniaeth ar waith**

2.23.1 Dyma ddadansoddiad o gyfanswm y cyllid a gynigir ar hyn o bryd ar gyfer 2020-21 ar gyfer y Prif Gyngorydd Gwyddonol a'r Swyddfa Gwyddoniaeth:

Cyllideb y Swyddfa Gwyddoniaeth	2020-21
Cyfalaf	£000
Sêr Cymru I	764
Sêr Cymru II	1,600
Sêr Cymru II+	800
COFUND	362
Sêr Cymru III	1,348
Cyfanswm	4,874
Refeniw	
Cefnogi a hwyluso prosiectau	150
Trio Sci Cymru	898
Lles a Marchnata yn cynnwys cymorth Brexit a Chyllid i baratoi ar ei gyfer (yn dibynnu ar gymeradwyaeth)	600
Cyfanswm	1,648

2.23.2 Ym mis Medi, cyhoeddwyd £7.5m o fuddsoddiad ychwanegol gan ymestyn i 2022-23 (y daw £4.6m ohono o Gronfeydd Strwythurol yr UE) ar gyfer cam nesaf Sêr Cymru, sef Rhaglen Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru. Dyluniwyd y rhaglen hon i helpu Prifysgolion i gryfhau'r cysylltiadau rhwng academyddion a'r diwydiant, i brynu offer ac i gynyddu'r capasiti a'r gallu i ymchwilio.

2.23.3 Bydd y cyllid newydd hwn yn galluogi ymchwilwyr Cymru i gystadlu am gyfran fwy o gyllid newydd Ymchwil ac Arloesi yn y DU ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer dull newydd, tymor hwy o ymchwilio ac arloesi yng Nghymru. Dros y 7 mlynedd diwethaf, mae rhaglen Sêr Cymru wedi cefnogi dros 340 o fyfyrwyr PhD ac ymchwilwyr ôl-ddoethurol yng Nghymru, o 29 o wledydd, gan fuddsoddi cyfanswm o £100m. Mae llinell Sêr Cymru II yn adlewyrchu ymrwymiad 2020/21 i'r cam hwnnw.

- **gweithgarwch ymchwil ac arloesi, yn enwedig gweithgarwch arloesi busnesau**


2.23.4 Cyfanswm Cyllid SMART ar gyfer Gweithgarwch Arloesi Busnesau 2014-2020 (er bod prosiectau unigol yn gallu rhedeg tan 2023):

Cyllid SMART Ar gael	Llyw. Cymru	ERDF	Sefydliadau Sector Preifat	Cyfanswm
	£000oedd			
Arloesi SMART	7,500	11,000	0	18,500
SMART Cymru	0	27,300	36,100	63,400
Arbenigedd SMART	1,300	30,300	19,700	51,300

Cyfanswm Flwyddyn	y	1,200	9,800	8,000	19,000
Cyfanswm		8,700	68,600	55,700	133,100

2.23.5 Cyfanswm yr ymrwymiadau prosiect hyd yn hyn:

Cyllid SMART hyd at fis Gorffennaf 19	Llyw. Cymru	ERDF	Sefydliadau Sector Preifat	Cyfanswm
	£000oedd			
Arloesi SMART	2,400	3,600	0	5,900
SMART Cymru	0	15,900	20,000	35,900
Arbenigedd SMART	600	6,200	6,400	13,200
Cyfanswm	3,000	25,700	26,300	55,000



Perfformiad SMART hyd yma	
Cwmnïau a dderbyniodd gymorth	2,396
Prosiectau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a dderbyniodd gymorth	1,266
Arloesi Diagnosteg	370
Gweithgynhyrchu Diagnosteg	219
Dylunio Diagnosteg	138
Archwiliadau IP	90
EC/EFF	86
Prosiectau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi SMART a dderbyniodd gyllid	460
Partneriaid Cydweithredol	146
Swyddi a Grëwyd	89
Cynnyrch / Prosesau / Gwasanaethau Newydd neu Well a Lanswyd neu a Roddwyd ar Waith	406
Nifer y Cynnyrch / Prosesau / Gwasanaethau Newydd neu Well a Gofrestrwyd	70

2.23.6 Mae'r rhaglenni SMART yn cefnogi busnesau Cymru drwy wneud y canlynol:

- **goresgyn** rhwystrau at Arloesi ac Ymchwil a Datblygu. *Arloesi SMART* – lluo o arbenigwyr y diwydiant yn darparu cyngor ac arweiniad ar Ymchwil a Datblygu, ymgynghoriaeth dechnegol, gweithgynhyrchu uwch, dylunio arloesol, arloesi agored ac eiddo deallusol.

- **rhannu** eu perygl o ran Arloesi ac Ymchwil a Datblygu. *SMART Cymru* – cydfuddsoddi i annog busnesau i weithredu prosesau arloesol ac ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys dichonoldeb technegol, gwaith ymchwil diwydiannol a datblygu arbrofol.
- **cefnogi** gwaith ymchwil a datblygu ar y cyd o dan arweiniad y diwydiant i fasnacheiddio gwybodaeth academaidd. *Arbenigedd SMART* - yn cefnogi prosiectau ymchwil a datblygu ar y cyd o dan arweiniad y diwydiant rhwng busnesau a sefydliadau ymchwil; yn troi ymchwil yn atebion masnachol.

Crynodeb

Cyflwynir Cyllideb Ddrafft y MEG Addysg ar gyfer 2020-21 i'r Pwyllgor ei hystyried.

Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

Crynodeb ar lefel camau gweithredu

Fel y gofynnodd y Pwyllgor, darperir crynodeb isod o newidiadau yn y gyllideb ddrafft yn ôl Camau Gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn. Mae'r crynodeb yn adlewyrchu newidiadau ers ffigyrau'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2019-20 (fel y cymharydd o flwyddyn i flwyddyn) a ffigwr sylfaen 2020-21 sy'n adlewyrchu'r newidiadau o £1.882m fel y nodir ym mharagraff 1.1.2 y Papur Tystiolaeth.

Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd

2019-20 Cyllideb Atodol Mehfin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
6,556	6,556	-	6,556

- Mae'r gyllideb yn cyllido ystod o ymyriadau i gefnogi'r agenda gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc. Mae cyllid o fewn y Cam Gweithredu hwn yn rhoi cymorth yn benodol i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a chyflwyno, dros gyfnod o dair blynedd, asesiadau wedi'u personoli a gynhelir ar-lein.
- Fodd bynnag, mae llythrennedd a rhifedd wedi'u sefydlu ar draws y broses o gyflawni polisïau addysg. Mae'r arlwy cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd eisoes yn cael ei darparu mewn dull effeithiol ac effeithlon gan gonsortia drwy Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, sy'n cynnwys llythrennedd a rhifedd fel blaenoriaethau o fewn ei gylch gwaith. Mae hyn yn ychwanegu'n sylweddol at gyfanswm y cymorth a gynigir ar gyfer y sgiliau hyn mewn ysgolion.
- Mae cyllid Buddsoddi i Arbed sy'n gyfanswm o £8.5m wedi'i ddyrannu er mwyn cynnal asesiadau personol yn raddol (er bod gostyngiadau mewn benthycia, ac felly ad-daliadau yn y dyfodol, wedi'u cyflawni drwy ailbroffilio). Mae'r benthyciad Buddsoddi i Arbed yn rhychwantu'r cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20, ac mae disgwyl i'r ad-daliadau gael eu talu yn ystod y pum mlynedd o 2020-21 tan 2024-25. Bydd addasiad yn cael ei wneud rhwng y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol i gael gwared ar y £2.1m sydd wedi'i gynnwys yn y dyraniad ar hyn o bryd.

Cam Gweithredu'r Cwricwlwm

2019-20 Cyllideb Atodol Mehfin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
12,330	12,330	750	13,080

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys BEL y Cyfnod Sylfaen (gwaith polisi yn unig, gan fod darparu cyllid bellach yn perthyn i'r Grant Gwella Addysg o fewn y Cam Gweithredu Safonau Addysg), BEL y Cwricwlwm ac Asesu ac Adolygu'r Cwricwlwm.
- Mae'r gyllideb yn cynyddu £0.75m o'i gymharu â ffigur sylfaen 2020-21. Nod y cynnydd hwn yw ariannu ein Hymgynghorwyr Proffesiynol sy'n cefnogi ein gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm.
- Mae cyllid wedi'i gynnwys hefyd yn y cam gweithredu i gefnogi'r **Adolygiad o'r Celfyddydau**. Cyllid yw hwn i Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn cyflwyno estyniad dwy flynedd (2020-21 a 2021-22) i'r cynllun Dysgu Creadigol pum mlynedd gwreiddiol drwy'r Cynllun Celfyddydau (CLTA) – cyfanswm o £1.5m (£750k y flwyddyn); bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer hyn o'i Gronfa Loteri.

Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
41,264	41,264	(2,350)	38,914

- Mae'r gyllideb yn cefnogi'r cyllid ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr addysgu proffesiynol, gan gynnwys y rhwydwaith Ysgolion Arloesi. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cymhelliant hyfforddi athrawon (AU ac AB), y Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP), ynghyd â'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) ran-amser newydd, i ddarparu dewis arall o ansawdd da yn lle astudiaeth AGA lawn-amser, a'r Llwybr sy'n Seiliedig ar Gyflogaeth (EBR) newydd, a fydd yn golygu bod darpar athro/athrawes yn cael ei g/chyflogi gan ysgol o'r dechrau un. Mae hefyd yn cyllido Cyngor y Gweithlu Addysg i weinyddu Statws Athro Cymwysedig a'r Rhaglen Sefydlu mewn ysgolion, gan gynnwys dosbarthu cyllid i gefnogi trefniadau mentora a chymorth ar gyfer ANG.
- Mae'r gyllideb yn gostwng £2.35m, o'i gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2020-21. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:
 - Gostyngiad o £7.5m yn ymwneud â chyllid cyflogau athrawon, a oedd yn gyllid am gyfnod cyfyngedig ar gyfer 2018-19 a 2019-20.
 - Cynnydd o £3.0m yng nghyswllt Ysgolion Arloesi i ddatblygu Rhwydweithiau Cenedlaethol presennol a datblygu Rhwydweithiau Cenedlaethol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) gyda rhwydwaith ychwanegol ar gyfer Addysgeg.
 - Cynnydd o £0.5m i ddatblygu cronfeydd o athrawon cyfrwng Cymraeg i'w rhannu rhwng ysgolion.
 - Trosglwyddo o £1.65m o fewn MEG o BEL y Gymraeg mewn Addysg (5164) yng nghyswllt cynllun sabothol y Gymraeg a CYDAG i gynnal rhaglen o

weithgareddau i gefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg.

Cam Gweithredu Cymwysterau

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
8,482	8,482	981	9,463

- Mae yna gydnabyddiaeth glir y bydd angen i gymwysterau newid i gyd-fynd â'n Cwricwlwm newydd i Gymru 2022 a'i gefnogi. O ganlyniad, mae'r gyllideb wedi cynyddu £0.981m ar gyfer 2020-21 i gefnogi Cymwysterau Cymru i gyflawni'r cylch gwaith hwn. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau ac mae Cymwysterau Cymru eisoes yn ysgwyddo ac yn talu rhywfaint o'r costau hyn o'i ddyraniad grant blynyddol.

Cam Gweithredu Addysg Ôl-16

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
437,381	437,381	22,945	460,326

- Mae'r Cam Gweithredu hwn (BEL Darpariaeth Addysg Bellach) yn cynnwys cyllid ar gyfer darparu cymwysterau UG, Safon Uwch ac ystod eang o raglenni galwedigaethol i bobl ifanc 16-19 oed yn chweched dosbarth a cholegau Addysg Bellach Awdurdodau Lleol. Mae hefyd yn darparu darpariaeth ran-amser i oedolion (yn bennaf darpariaeth Sgiliau Sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd eraill (ESOL), mewn colegau AB a lleoliadau Dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol.
- Mae'r Cam Gweithredu hefyd yn cefnogi prosiectau strategol a gweithgareddau gwella ansawdd sydd â'r nod o wella'r ddarpariaeth dysgu ôl-16 yng Nghymru gan gynnwys cymorth i wella ansawdd, meithrin gallu ac ymchwil ar gyfer y sector dysgu a sgiliau, cyllid grant y Sefydliad Dysgu a Gwaith (gan gynnwys Wythnos Dysgu Oedolion), y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a chymorth ar gyfer llywodraethu addysg bellach; datblygu polisi gyrfaoedd, cyllid i gefnogi darparu rhwydwaith Seren, cefnogi dilyniant i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton ar gyfer y dysgwyr mwyaf disglair; a gweithgareddau Erasmus i gefnogi symudedd rhyngwladol ymhlith staff a myfyrwyr.

- Mae'r gyllideb ar gyfer Cam Gweithredu Addysg ôl-16 wedi cynyddu £22.9m ar gyfer 2020-21 yn sgil y dyraniadau canlynol:
 - £1.5m i gefnogi Dyfarniad Cyflog Athrawon yn 2019/20 ar gyfer dosbarthiadau chwech.
 - £4.94m i gynnal cydraddoldeb cyflog i staff mewn Sefydliadau Addysg Bellach.
 - £2.16m yn ymwneud â chostau pensiwn uwch i staff mewn dosbarthiadau chwech.
 - £4.0m i ariannu pensiynau mewn colegau AB.
 - £5.5m i adlewyrchu'r cynnydd yn nemograffeg AB myfyrwyr 16-19 oed.
 - £1.0m i ariannu Sefydliad Seren.
 - £1.0m i ariannu cynllun peilot Cyfrifon Dysgu Personol.
 - £0.845m ychwanegol i ymestyn y Rhaglen Urddas yn ystod Mislif i'r sector Addysg Bellach.
 - £2.0m i weithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod colegau'n cefnogi anghenion iechyd meddwl dysgwyr a staff.

Cam Gweithredu Addysg Uwch

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
141,260	139,878	38,369	178,247

- **BEL Gwariant Rhaglenni CCAUC** - Mae'r gyllideb hon yn cynnwys arian Cymorth Grant ar gyfer CCAUC sy'n galluogi'r sefydliad i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn llythyr Cylch Gwaith Blynyddol y Gweinidog Addysg. Mae'r gyllideb ar gyfer y Cam Gweithredu Addysg Uwch wedi cynyddu £38.369m yn 2020-21 o'i gymharu â ffigur sylfaen 2020-21. Mae'r cynnydd o £35m yn sgil trosglwyddo cyllidebau o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) o BEL Grantiau Cymorth i Fyfrwyr. Mae'r broses hon o drosglwyddo cyllidebau yn helpu i barhau i roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar waith. Mae'r newidiadau i'r rheoliadau cymorth i fyfrwyr wedi'u cwblhau ac mae'r cam gweithredu terfynol yn parhau gyda'r broses o drosglwyddo adnoddau o'r grant ffioedd dysgu i CCAUC – mae hyn yn dechrau cyflawni elfennau terfynol yr ymateb gan eu bod yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd.
- Cafwyd dyraniad ychwanegol o £1.369m ar gyfer arian trosiannol yr UE i gefnogi ail flwyddyn prosiect Cymru Fyd-eang II.
- Mae dyraniad ychwanegol o £2 filiwn wedi'i wneud i'r BEL er mwyn adeiladu ar systemau sy'n diogelu lles ac iechyd myfyrwyr yng Nghymru, a'u gwella.
- Mae cyllideb **BEL cyfalaf CCAUC (Dibrisiant)** o £0.090m wedi cael ei chynnal ar lefelau 2019-20.

Cam Gweithredu Safonau Addysg

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
157,053	157,053	3,800	160,853

- **BEL grant gwella ysgolion** – Mae'r BEL hon yn cynnwys maint dosbarthiadau babanod, y Grant Gwella Addysg (EIG) a chyllid ar gyfer dysgwyr lleiafrifoedd ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £1.3m i helpu dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ddod â chyfanswm y gyllideb i £10m yn 2020-21.
- Mae £2.5 miliwn ychwanegol hefyd wedi'i ddyrannu i gryfhau a sefydlogi'r broses o ddarparu Cyfnod Sylfaen o ansawdd, gan gynnwys cefnogi ysgolion i barhau i weithio tuag at y cymarebau cydnabyddedig sy'n hanfodol er mwyn cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- **BEL codi safonau ysgolion** – Mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r £100m ychwanegol a ymrwymwyd yn ystod tymor y cynulliad hwn i godi safonau ysgolion a lleihau anghydraddoldebau mewn addysg. Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb hon a dyrennir £25.5m yn 2020-21.
- **BEL cymorth safonau ysgolion** – Mae'n cynnwys gwybodaeth am ysgolion a ffyrdd o'u gwella, a chymorth gyda safonau ac effeithiolrwydd ysgolion. Mae'r gyllideb hon yn ariannu systemau a'r gwaith o gasglu data sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer gweithgarwch polisi ac sy'n weladwy ac yn uchel ei phroffil. Mae gan y cyllid gysylltiad uniongyrchol â dangos tystiolaeth a gwelliannau mewn safonau a mynd i'r afael â'r bwch cyrhaeddiad.

Cam Gweithredu Grant Datblygu Disgyblion

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
98,900	98,900	12,600	111,500

- Bu cynnydd cyffredinol o £12.6m i'r Cam Gweithredu. Mae'r grant Datblygu Disgyblion (PDG) yn cael ei arwain gan alw ac er bod y niferoedd dal yn ddangosol, mae'r arwyddion cynnar o ddata CYBLD 2018 yn dangos cynnydd yn y galw a hefyd cynnydd i godi'r holl ddysgwyr sy'n rhan o Grant Datblygu Disgyblion y Blynnyddoedd Cynnar (EYPDG) i £1,150.
- Mae £ 9.4m ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer 2020-21, gan ddod â'r grant PDG i dros £100m y flwyddyn nesaf. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys:
 - Dyraniad ychwanegol o £6.6m i PDG y Blynnyddoedd Cynnar.
 - £2.0m i gefnogi'r cynnydd a ragwelir yn y galw am y PDG.

- £0.8m i ariannu blaenoriaethau gan gynnwys y Gronfa Cefnogi Plant yng Nghymru.
- Ar gyfer 2020-21, mae'r £3.2m ychwanegol sy'n cael ei fuddsoddi i ymestyn y cynllun mynediad i PDG yn ein galluogi i gefnogi'r teuluoedd sydd ei angen fwyaf mewn ffordd wirioneddol a phendant.

Cam gweithredu TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
4,470	4,470	(41)	4,429

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi trefniadau darparu'r cwricwlwm drwy ddarparu mynediad at ystod o offer ac adnoddau addysgu digidol o ansawdd da, gan gynnwys: Hwb drwy'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol; JISC; cymorth gyda rhaglen EPS; y prosiect Rhif Dysgwr Unigryw; a systemau rheoli data mewnol
- Gwelwyd gostyngiad o £41k i'r cam gweithredu yn dilyn trosglwyddiad o fewn MEG o'r BEL Deunydd Cyfathrebu mewn Addysg o £135k ar gyfer staff a ariannwyd gan y rhaglen a throsglwyddiad o £176k i'r MEG Economi a Thrafnidiaeth i ariannu'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â chyflenwi a rheoli'r ULN yng Nghymru. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n gyson yn dilyn newidiadau i gyfrifoldebau portffolios.

Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
19,397	19,397	15,550	34,947

- **BEL y gyllideb anghenion dysgu ychwanegol** – Mae'r BEL yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Dyrannwyd cyllideb ddangosol o £10.536m i'r BEL hon. Mae hyn yn gynydd o £7.75m o'i gymharu â'r gyllideb atodol gyntaf. Fel rhan o'r cynnydd hwn dyrannwyd £8.0m ychwanegol i'r BEL hwn. Ceir trosglwyddiad o £0.25m hefyd i'r BEL Grwpiau Agored i Niwed ar gyfer y gyllideb Lleiafrifoedd Ethnig ac Amddiffyn Plant.

- **BEL bwyd a maethiad mewn ysgolion** – Rydym wedi parhau i ddiogelu cyllid o fewn y BEL Bwyd a Maethiad mewn Ysgolion ar gyfer y Cynllun Llaeth mewn Ysgolion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ôl cyfradd cymorthdaledig. Gwnaethpwyd dyraniad ychwanegol o £3.25m i'r BEL hwn sy'n cynnwys:
 - Dyranwyd £0.45m i gefnogi astudiaeth ddichonoldeb sy'n gysylltiedig â brecwast am ddim i ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd peilot sy'n dechrau ym mis Medi 2020.
 - £1.8m i ddatblygu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol.
 - £1.0m i ymestyn y cynllun peilot Newyn gwyliau i gyrraedd 10,000 o blant a darparu 200,000 o brydau bwyd.
- **BEL lleoliadau arbenigol ôl-16** – Mae'r gyllideb yn darparu cyllid ar gyfer lleoliadau coleg arbenigol i ddysgwyr hyd at 25 oed y mae angen darpariaeth arbenigol arnynt er mwyn cael mynediad at AB sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion. Nid yw'r cyllid yn ddewisol ac mae'n seiliedig ar y galw. Dyranwyd £1.4m ychwanegol i'r BEL hon yn 2020-21.
- **BEL agwedd ysgol gyfan tuag at lesiant** – Mae hon yn BEL newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 ac mae £2.0m wedi'i ddyrannu i gefnogi agwedd ysgol gyfan tuag at iechyd meddwl.
- **BEL grwpiau agored i niwed** – Mae hon yn BEL newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 ac mae ganddi gyllideb o £1.15m sy'n cynnwys trosglwyddiad o £0.25m o'r BEL anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer y gyllideb lleiafrifoedd ethnig ac amddiffyn plant ynghyd â dyraniad o £0.9m sy'n ymwneud ag Ysgolion Rhithwir Plant sy'n Derbyn Gofal.

Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
552,611	552,611	-35,000	517,611

- Bu gostyngiad o £35m i'r cam gweithredu yn dilyn trosglwyddo cyllidebau o fewn MEG o BEL Grantiau Cefnogi Myfyrwyr i BEL Gwariant rhaglen CCAUC. Mae'r broses hon o drosglwyddo cyllidebau yn helpu i barhau i roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar waith. Mae'r newidiadau i'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr wedi'u cwblhau ac mae'r cam gweithredu terfynol yn parhau gyda'r broses o drosglwyddo adnoddau o'r grant ffioedd dysgu i CCAUC – mae hyn yn dechrau cyflawni elfennau terfynol yr ymateb gan eu bod yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd.
- **BEL Grantiau Cymorth i Fyfirwyr** - Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon y rhaglen cymorth i fyfyrwyr statudol sy'n seiliedig ar alw ar gyfer Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB). Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-

amser, Grantiau wedi'u Targeddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr (SLC), Grantiau Cymorth i Fyfyrrwyr, y Grant Ffioedd Dysgu a'r Lwfans Cynhaliath Addysg.

- **BEL costau gweinyddu'r cwmni benthyciadau i fyfyrrwyr/CThem** - Mae'r gyllideb hon yn darparu'r ffi weinyddu a gaiff ei thalu i'r cwmni benthyciadau i fyfyrrwyr. Yn ogystal â chostau prosiectau busnes fel arfer a phrosiectau mewnol, bydd y gyllideb hon yn cael ei defnyddio i ariannu'r gwaith o roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar waith. Mae'r BEL hefyd yn ariannu: ffi weinyddol CThem (cyllideb £0.25m), trefniadau gweinyddu'r Brifysgol Agored o gymorth statudol i fyfyrrwyr ar gyfer carfanau o fyfyrrwyr hanesyddol (cyllideb o £0.06m) a gweithredu polisi (cyllideb o £0.57m).
- **BEL darpariaethau cyllideb adnoddau benthyciadau i fyfyrrwyr** - yn cynnwys y ddarpariaeth heb fod yn arian parod ar gyfer benthyciadau myfyrrwyr.
- **BEL dyfarniadau wedi'u targedu cymorth i fyfyrrwyr** - mae cyllideb y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG) yn darparu cymorth ariannol dewisol i fyfyrrwyr mewn sefydliadau AB, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Brifysgol Agored, sy'n wynebu caledi ariannol, i'w helpu i gael mynediad at addysg ac i aros yno. Mae FCF (AB) yn rhoi cymorth ariannol i'r myfyrrwyr cymwys hynny y gallai ystyriaeth ariannol fod yn rhwystro eu mynediad i AB, neu sydd, am ba reswm bynnag, gan gynnwys anabledd corfforol neu anableddau eraill, yn wynebu caledi ariannol.

Cam Gweithredu Ennyn Diddordeb Disgyblion

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
515	515	1,500	2,015

- **BEL Trechu Dadrithiad** – Mae hwn yn cefnogi gweithgareddau sy'n anelu at wella canlyniadau i ddysgwyr bregus/difreintiedig drwy'r canlynol: Gwellu dulliau gwrth-fwlio a phresenoldeb yn yr ysgol; Gŵyl y Gelli (rhaglenni ysgolion a dysgwyr); Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), Cwnsela; Addysg yn y cartref; presenoldeb; gwrth-fwlio.
- Mae'r gyllideb yn cynyddu £1.5m yn 2020-21 i ddarparu cymorth ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, gan gynnwys y costau i awdurdodau lleol ddarparu cymorth i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref.

Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000

10,654	10,654	-	10,654
--------	--------	---	--------

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido nifer o grantiau cymorth ieuenctid i gefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru a darpariaeth gweithgarwch i gefnogi'r gwaith parhaus o weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid). Hefyd, mae'r Cam Gweithredu'n rhoi cyllid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) i gefnogi darpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd carchardai yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae arian hefyd ar gael ar gyfer prosiectau peilot arloesol sy'n cefnogi'r agenda Dysgu Troseddwr, ac i gefnogi'r gwaith o ddarparu sgiliau hanfodol ar gyfer y rhai sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ddarparu cyllid ar gyfer addysg mewn carchardai i oedolion yng Nghymru.

Cam Gweithredu Cymorth Cyflawni

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
1,501	1,501	(135)	1,366

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ariannu dulliau marchnata a chyfathrebu, ymchwil a'r Rhaglen Addysg Ryngwladol (IEP).
- Mae trosglwyddiad o £0.135m wedi'i wneud o'r BEL Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg i dalu costau cyflogau tri aelod o staff sy'n cael eu hariannu gan y rhaglen.

Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
14,325	13,825	(1,150)	12,675

- Bu gostyngiad o £1.15m i'r Cam Gweithredu, yn bennaf o ganlyniad i drosglwyddo £1.65m i'r BEL Datblygu a Cefnogi Athrawon ar gyfer hyfforddiant i ymarferwyr yn Gymraeg. Mae'r trosglwyddiad hwn wedi'i wrthbwysu gan ddyraniad o £0.5m i adfer y cyllid a ddyrannwyd fel rhan o gytundeb cyllideb Plaid Cymru yn 2018-19 a 2019-20 ar gyfer gwell darpariaeth o adnoddau addysg ddwyieithog.

Cam Gweithredu Arloesi

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
604	604	-	604

- Mae'r cam gweithredu hwn yn cefnogi'r effaith fesuradwy y gall arloesi ei chael ar economi Cymru drwy roi cymorth i fusnesau, y byd academaidd a chydweithrediadau.

Cam Gweithredu Gwyddoniaeth

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
3,550	3,550	-	3,550

- BEL Gwyddoniaeth** – Diben y BEL hwn yw ariannu'r gwaith hyrwyddo, darparu a chynghori i gefnogi capasiti ymchwil a rhagoriaeth; comisiynu a dadansoddi tystiolaeth; annog cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ymchwil sy'n cael eu masnacheiddio'n helaeth; codi lefelau sgiliau gwyddonol a thechnegol a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy weithgarwch ymgysylltu STEM.
- BEL Gwyddorau Bywyd** - Nod y gyllideb hon yw sicrhau mai Cymru yw'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer arloesedd a thwf busnesau ym maes Gwyddorau Bywyd. Bydd llwyddiant yn seiliedig ar gynnydd mewn cyflogaeth sector ac olrhain y manteision iechyd ac economaidd ehangach i Gymru.

Cyfalaf - Cam Gweithredu Ystadau a Darpariaeth TG

2019-20 Cyllideb Atodol Mehefin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
206,483	179,555	28,220	207,775

- Mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif sy'n cynrychioli buddsoddiad strategol yn ein seilwaith addysg. Bydd y gyllideb hefyd yn cael ei defnyddio i gefnogi unrhyw ofynion ariannu cyfalaf i gyflawni ein blaenoriaethau addysg, gan gynnwys meintiau dosbarthiadau. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys arian cyfalaf ar gyfer y cynnig gofal plant.
- Mae'r ffigur sylfaen ar gyfer 2020-21 yn cyd-fynd â'r swm a gyhoeddwyd yn flaenorol. Fel rhan o'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 dyrannwyd £28.22m ychwanegol sy'n cael ei rannu fel a ganlyn:
 - £8.22m i gefnogi pecyn gwyrdd ar gyfer tŷ carbon niwtral yng Ngholeg y Cymoedd

- £10.0m i gefnogi dechrau'n deg y blynyddoedd cynnar a chyfleusterau gofal plant
- £10.0m fel rhan o godiad cyfalaf cyffredinol.

Cyfalaf - Cam Gweithredu Arloesi

2019-20 Cyllideb Atodol Mehafin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
6,316	4,066	-	4,066

- Mae'r cam gweithredu hwn yn cefnogi'r effaith fesuradwy y gall arloesi ei chael ar economi Cymru drwy roi cymorth i fusnesau, y byd academaidd a chydweithrediadau.
- Mae'r ffigur sylfaen ar gyfer 2020-21 yn cyd-fynd â'r swm a gyhoeddwyd yn flaenorol. Ni wnaethpwyd unrhyw ddyraniadau pellach i'r cam gweithredu hwn.

Cyfalaf - Cam Gweithredu Gwyddoniaeth

2019-20 Cyllideb Atodol Mehafin 2019 £000	Ffigur Sylfaen 2020- 21 £000	2020-21 Newidiadau £000	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000
5,452	5,675	-	5,675

- Mae'r ffigur sylfaen ar gyfer 2020-21 yn cyd-fynd â'r swm a gyhoeddwyd yn flaenorol. Ni wnaethpwyd unrhyw ddyraniadau pellach i'r cam gweithredu hwn.
- **BEL Gwyddoniaeth** – Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ariannu'r gwaith hyrwyddo, darparu a chynghori i gefnogi capasiti ymchwil a rhagoriaeth; comisiynu a dadansoddi tystiolaeth; annog cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ymchwil sy'n cael eu masnacheiddio'n well; codi lefelau sgiliau gwyddonol a thechnegol a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy weithgarwch ymgysylltu STEM.
- **BEL Gwyddorau Bywyd** - Nod y gyllideb hon yw sicrhau mai Cymru yw'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer arloesedd a thwf busnesau ym maes Gwyddorau Bywyd. Bydd llwyddiant yn seiliedig ar gynnydd mewn cyflogaeth sector ac olrhain y manteision iechyd ac economaidd ehangach i Gymru.

PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) ADDYSG

Atodiad B

CYLLIDEB ADNODDAU							
Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r BEL	2018-19 Alldro Terfynol	2019-20 Cyllideb Atodol 1af Mehefin 2019	2019-20 Rhagolwg (Cyfnod 7)	Ffigur Sylfaen Cychwynnol 2020-21	Newid	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21
Llythrennedd a Rhifedd	Llythrennedd a Rhifedd	6,442	6,556	6,956	6,556	0	6,556
Cyfanswm Llythrennedd a Rhifedd		6,442	6,556	6,956	6,556	0	6,556
Cwricwlwm	Cwricwlwm ac Asesu	6,804	6,782	7,002	6,782	0	6,782
	Adolygu'r Cwricwlwm	6,255	5,400	5,510	5,400	750	6,150
	Y Cyfnod Sylfaen	148	148	148	148	0	148
Cyfanswm y Cwricwlwm		13,207	12,330	12,660	12,330	750	13,080
Addysgu ac Arweinyddiaeth	Datblygu a Chefnogi Athrawon	41,902	41,264	54,924	41,264	-2,350	38,914
Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth		41,902	41,264	54,924	41,264	-2,350	38,914
Cymwysterau	Cymwysterau Cymru	8,331	8,482	8,632	8,482	981	9,463
Cyfanswm Cymwysterau		8,331	8,482	8,632	8,482	981	9,463
Addysg Ôl-16	Darpariaeth Addysg Bellach	414,987	437,381	443,785	437,381	22,945	460,326
Cyfanswm Addysg Ôl-16		414,987	437,381	443,785	437,381	22,945	460,326
Addysg Uwch	CCAUC - Gwariant ar y Rhaglen	130,392	141,170	157,655	139,788	38,369	178,157
	Cyfalaf CCAUC	90	90	90	90	0	90
Cyfanswm Addysg Uwch		130,482	141,260	157,745	139,878	38,369	178,247
Safonau Addysg	Llywodraethu Ysgolion	99	0	20	0	0	0
	Grant Gwella Ysgolion	130,428	130,359	131,505	130,359	3,800	134,159
	Codi Safonau Ysgolion	1,019	25,500	25,500	25,500	0	25,500
	Cefnogi Safonau Ysgolion	25,329	1,194	1,194	1,194	0	1,194
Cyfanswm Safonau Addysg		156,875	157,053	158,219	157,053	3,800	160,853
Grant Datblygu Disgyblion	Grant Datblygu Disgyblion	96,236	98,900	99,633	98,900	12,600	111,500
Cyfanswm Grant Datblygu Disgyblion		96,236	98,900	99,633	98,900	12,600	111,500
TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth	Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg	5,239	4,470	4,608	4,470	-41	4,429
Cyfanswm TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth		5,239	4,470	4,608	4,470	-41	4,429

Llesiant Plant a Phobl Ifanc	Anghenion Dysgu Ychwanegol	1,468	2,786	2,815	2,786	7,750	10,536
	Bwyd a Maethiad mewn Ysgolion	7,825	4,130	3,290	4,130	3,250	7,380
	Lleoliadau Arbenigol Ôl-16	13,656	12,481	13,881	12,481	1,400	13,881
	Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant	0	0	0	0	2,000	2,000
	Grwpiau Agored i Niwed	0	0	0	0	1,150	1,150
Cyfanswm Llesiant Plant a Phobl Ifanc		22,949	19,397	19,986	19,397	15,550	34,947
Cymorth i ddysgwyr ôl-16	Grantiau Cymorth i Fyfrwyr	431,234	425,742	397,142	425,742	-35,000	390,742
	Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr/CThEM	16,923	13,723	20,660	13,723	0	13,723
	Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau i Fyfrwyr	316,947	106,849	245,849	106,849	0	106,849
	Dyfarniadau wedi'u Targedu Cymorth i Fyfrwyr	6,605	6,297	7,100	6,297	0	6,297
Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16		771,709	552,611	670,751	552,611	-35,000	517,611
Ystadau a Darpariaeth TG	Seilwaith Addysg	-91	0	0	0	0	0
Cyfanswm Ystadau a Darpariaeth TG		-91	0	0	0	0	0
Ennyn Diddordeb Disgyblion	Trechu Dadrithiad	425	515	524	515	1,500	2,015
Cyfanswm Ennyn Diddordeb Disgyblion		425	515	524	515	1,500	2,015
Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid	Dysgu Troseddwy	6,584	3,328	6,613	3,328	0	3,328
	Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid	4,844	7,326	10,882	7,326	0	7,326
Cyfanswm Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid		11,428	10,654	17,495	10,654	0	10,654
Cymorth Cyflawni	Dulliau Cyfathrebu mewn Addysg	1,845	617	622	617	-135	482
	Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol	909	884	1,018	884	0	884
Cyfanswm Cymorth Cyflawni		2,754	1,501	1,640	1,501	-135	1,366
Cymraeg mewn Addysg	Cymraeg mewn Addysg	28,619	14,325	12,675	13,825	-1,150	12,675
Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg		28,619	14,325	12,675	13,825	-1,150	12,675
Arloesi	Arloesi ym myd busnes	1	604	604	604	0	604
Cyfanswm Arloesi		1	604	604	604	0	604
Gwyddoniaeth	Gwyddoniaeth	1,095	1,350	1,000	1,350	0	1,350
	Gwyddorau Bywyd	2,545	2,200	2,200	2,200	0	2,200
Cyfanswm Gwyddoniaeth		3,640	3,550	3,200	3,550	0	3,550
ADDYSG - CYFANSWM CYLLIDEB ADNODDAU		1,715,135	1,510,853	1,674,037	1,508,971	57,819	1,566,790

CYLLIDEB CYFALAF							
Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r BEL	2018-19 Alldro Terfynol	2019-20 Cyllideb Atodol 1af Mehefin 2019	2019-20 Rhagolwg (Cyfnod 7)	Ffigur Sylfaen Cychwynnol 2020-21	Newid	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21
Ystadau a Darpariaeth TG	Seilwaith Addysg	203,235	206,483	228,483	179,555	28,220	207,775
Cyfanswm Ystadau a Darpariaeth TG		203,235	206,483	228,483	179,555	28,220	207,775
Arloesi	Arloesi ym myd busnes	219	6,316	6,316	4,066	0	4,066
Arloesi		219	6,316	6,316	4,066	0	4,066
Gwyddoniaeth	Gwyddoniaeth	4,561	4,654	2,254	4,874	0	4,874
	Gwyddorau Bywyd	2,152	798	798	801	0	801
Cyfanswm Gwyddoniaeth		6,713	5,452	3,052	5,675	0	5,675
ADDYSG - CYFANSWM CYLLIDEB CYFALAF		210,167	218,251	237,851	189,296	28,220	217,516

CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a reolir yn flynyddol							
Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r BEL	2018-19 Alldro Terfynol	2019-20 Cyllideb Atodol 1af Mehefin 2019	2019-20 Rhagolwg (Cyfnod 7)	Ffigur Sylfaen Cychwynnol 2020-21	Newid	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21
Cymorth i ddysgwyr ôl-16	Benthyciadau i Fyfirwyr - Gwariant a Reolir yn Flynyddol	-110,264	-123,844	-117,302	-123,844	-555	-124,399
Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16		-110,264	-123,844	-117,302	-123,844	-555	-124,399
ADDYSG - CYFANSWM CYLLIDEB ADNODDAU AME		-110,264	-123,844	-117,302	-123,844	-555	-124,399

CYLLIDEB CYFALAF - Gwariant a reolir yn flynyddol

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r BEL	2018-19 Alldro Terfynol	2019-20 Cyllideb Atodol 1af Mehefin 2019	2019-20 Rhagolwg (Cyfnod 7)	Ffigur Sylfaen Cychwynnol 2020-21	Newidia dau	Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21
Cymorth i ddysgwyr ôl-16	Benthyciadau i Fyfirwyr - Gwariant a Reolir yn Flynyddol	633,126	774,302	824,286	774,302	117,086	891,388
Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16		633,126	774,302	824,286	774,302	117,086	891,388
ADDYSG - CYFANSWM CYLLIDEB CYFALAF AME		633,126	774,302	824,286	774,302	117,086	891,388

ADDYSG - CRYNODEB	2018-19 Alldro Terfynol	2019-20 Cyllideb Atodol 1af Mehefin 2019	2019- 20 Rhagolwg (Cyfnod 7)	2020-21 Cychwynnol Ffigur Sylfaen	Newid	2020- 21 Cynlluniau u Newydd Cylli deb Ddrafft
Adnodd	1,715,135	1,510,853	1,674,037	1,508,971	57,819	1,566,790
Cyfalaf	210,167	218,251	237,851	189,296	28,220	217,516
Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf	1,925,302	1,729,104	1,911,888	1,698,267	86,039	1,784,306
AME Adnoddau	-110,264	-123,844	-117,302	-123,844	-555	-124,399
AME Cyfalaf	633,126	774,302	824,286	774,302	117,086	891,388
Cyfanswm AME	522,862	650,458	706,984	650,458	116,531	766,989
ADDYSG - CYFANSWM CYLLIDEB	2,448,164	2,379,562	2,618,872	2,348,725	202,570	2,551,295

Tudalen 81 o 81

Ymrwymiad Codi Safonau Ysgolion gwerth £100m – dadansoddiad wedi'i ddiweddarau ar gyfer 2019-20 a dros dro ar gyfer 2020-21

Codi Safonau Ysgolion - Gweithgaredd	Gwreiddi ol 2019-20	Wedi'i ddiwygio 2019-20	Dros dro 2020-21
	£000	£000	£000
<p>Cymorth ar gyfer cwricwlwm trawsnewidiol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Llafaredd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Cynradd • Ymgysylltu â chyflogwyr yn yr ysgol • Codio a sgiliau digidol • Ymddiriedolaeth Llyfrau • Ymgysylltu â chyflogwyr yn yr ysgol • Meithrin gallu (2019-20 yn unig) • Gwella Safon Uwch 	1,700	1,243	1,280
<p>Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel</p> <ul style="list-style-type: none"> • Athrawon/gweithlu cyflenwi • Rhaglen hyfforddi i raddedigion cyfrwng Cymraeg • Profi dulliau cyflenwi gwahanol ar gyfer athrawon sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar (wedi gorffen yn 19-20) • Cynorthwyr addysgu lefel uwch (CALU) • Rhwydweithiau Rhagoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Mathemateg • Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen • Datblygiad Proffesiynol Cymru • Recriwtio i ddenu mwy o athrawon i'r sector Cymraeg ac i addysgu Cymraeg fel pwnc • Anghenion Dysgu Ychwanegol • Cymhwysedd Digidol • Maint dosbarthiadau babanod • Cynllun Sabothol Cymraeg • Y Gymraeg mewn Addysg – Cyfathrebu ac Arweinyddiaeth 	13,600	14,000	14,152
<p>Arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio er mwyn codi safonau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu'r Academi Arweinyddiaeth • Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) • Rhaglen Academy Associates • Arweinyddiaeth yn y dyfodol • Sefydliad Technoleg Massachusetts 	3,200	3,200	3,200
<p>Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglenni llesiant ar y cyd ym maes Addysg ac Iechyd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl 	500	404	500

Plant a'r Glasoed (CAMHS) mewn ysgolion peilot a hyrwyddo dull ysgol gyfan at iechyd a lles.			
Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy'n cefnogi system o hunanwella <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y rhanbarthau • Ymchwil i fframweithiau iaith Gymraeg • Datblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu • Cefnogi cydweithio a helpu i ddatblygu capasiti rhanbarthol • Ymestyn effaith a dyfnder Ffederasiynau • Cynllun grantiau bach a gwledig • Ehangu'r defnydd o reolwyr busnes (yn gorffen yn 19-20) • Grant Estyn 	6,500	6,248	6,248
Ymchwil a gwerthuso <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso'r cynllun sabothol • Lab data WISERD • Grant Ymchwil a Gwerthuso 	-	405	120
CYFANSWM	25,500	25,500	25,500

Dadansoddiad o'r dyraniadau arfaethedig a dangosol ar gyfer Cymru gyfan i gonsortia 2019-20

Tudalen y pecyn 85

Amcan	Disgrifiad o'r cyllid	Dyraniadau dangosol (llythyr dyddiedig Mawrth 2019)	Dyraniadau terfynol (Mai 2019)	Amrywiad (Hydref 2019)	Cyfanswm 2019-20
Aseiad o'r Cwricwlwm - cefnogi cwricwlwm cenedlaethol gyda thegwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd sy'n gosod safonau uchel i bob dysgwr	Ysgolion arloesi digidol a chwricwlwm	3,150,000	3,150,000		3,150,000
	Cymorth consortia craidd ar gyfer dylunio a datblygu'r cwricwlwm newydd	2,225,000	2,225,000		2,225,000
	Asesu ar gyfer Dysgu	400,000	400,000		400,000
	Fframwaith defnyddio'r Gymraeg yn cynwys y Siarter Iaith Gymraeg (ysgolion cyfrwng Gymraeg)	500,000	500,000		500,000
Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel - gwella'r dulliau dysgu ac addysgu yn ein hysgolion	Grant Gwella Addysg i Ysgolion (EIG)	118,137,000	118,137,000		118,137,000
	Ieithoedd Tramor Modern (Dyfodol byd-eang)	432,000	432,000		432,000
	Cymorth y Prawf Rhifedd Cenedlaethol	20,000	20,000		20,000
	Grant Llythrennedd a Rhifedd	500,000	500,000		500,000
	Dysgu Proffesiynol - Ysgolion Arloesi	1,860,000	1,860,000		1,860,000
	Dysgu yn y Gymru Ddigidol - Cyfnod II DPP	500,000	500,000		500,000
	Codio a Sgiliau Digidol	300,000	300,000		300,000
	Cynllun Llafaredd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Cynradd ar gyfer Cymru	400,000	400,000		400,000
	Cynorthwyywr addysgu lefel uwch (CALU)	950,000	950,000	40,000	990,000
	Safonau Addysgu Proffesiynol	80,000	80,000	20,000	100,000
	Y Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg	900,000	900,000		900,000
	Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen	200,000	200,000		200,000
	Cymraeg - Datblygiad Proffesiynol - Cyllid Consortia (gyda rhai llinellau wedi'u cyfuno)	2,700,000	2,700,000		2,700,000
	Cymhwysedd Digidol - Cynnig Dysgu Proffesiynol	300,000	300,000		300,000
	Gwella Safon Uwch	280,000	280,000		280,000
	Athrawon/Gweithlu Cyflenwi (HAGA) yn cynwys peilotiaid partneriaeth AGA	300,000	300,000	12,103	312,103

	AGA rhan-amser a seiliedig ar waith	200,000	200,000		200,000
	Ieithoedd Tramor Modern - meithrin gallu ar gyfer ITM yn y sector cynradd	214,000	214,000		214,000
	Fframwaith Cymhwysedd Digidol	100,000	100,000		100,000
	Ysgolion pob oedran - Cymorth ar gyfer Prosiectau Ymchwil a Chydweithredol	100,000	100,000		100,000
	Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru (PTAC)	20,000	20,000		20,000
	Cefnogi gweithio ar y cyd a helpu i feithrin gallu mewn consortia		560,000		560,000
	Cyllid Clwstwr Arloeswyr PL - heb fod yn arloeswyr		595,200		595,200
	Cyllid Clwstwr Arloeswyr PL		126,000		126,000
	Prosiect Cydweithredol Arwain ar Ddysgu			249,360	249,360
	Prosiect e-ddysgu			523,067	523,067
	Cyngor/cefnogaeth gyda pholisi allanol ar gyfer y tîm polisi AHO 16-19			58,000	58,000
	Rheolwr Achredu SAU			100,000	100,000
Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio er mwyn codi safonau Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau arweinyddiaeth a phroffesiynol y dyfodol	Arweinwyr y dyfodol (darpar arweinwyr, arweinwyr canol gan gynnwys cefnogaeth coetsio a mentora)	1,000,000	1,000,000		1,000,000
	Penaethiaid newydd a dros dro (cyn NMSH)	150,000	150,000		150,000
	Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)	1,200,000		720,000	720,000
	Arbenigedd meithrin gallu		54,122		54,122
	Arbenigedd meithrin gallu		107,568		107,568
Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant	Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ac eithrio PDG - Mynediad	93,685,579	93,685,579		93,685,579
Cefnogi system hunanwella - cefnogi system lle mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cyfrwng i ddysgu'n barhaus er mwyn gwella eu hymarfer	Ehangu effaith a dyfnder cydweithredu, gan gynnwys drwy ffedereiddio	800,000	800,000		800,000
	Ymchwil a gwerthuso cydweithredol, cefnogi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws rhanbarthau	240,000	240,000		240,000
	Datblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu - cyllid Meini Prawf 3	500,000	500,000		500,000

Cyfanswm 232,343,579 232,586,469 1,722,530 234,308,999

Cyfanswm (ac eithrio'r PDG)	138,658,000	138,900,890	1,722,530	140,623,420
-----------------------------	-------------	-------------	-----------	-------------

**Lleihau'r grant maint dosbarthiadau babanod
Dadansoddiad o ddyraniadau Awdurdodau Lleol dros dymor y Cynulliad**

Awdurdod Lleol	Elfen Refeniw £	Elfen Cyfalaf £
Ynys Môn	306,504	0
Blaenau Gwent	338,108	199,600
Pen-y-bont ar Ogwr	747,436	750,000
Caerffili	961,983	0
Caerdydd	2,095,766	3,317,000
Sir Gaerfyrddin	870,490	2,000,000
Ceredigion	584,125	1,600,000
Conwy	512,256	300,000
Sir Ddinbych	486,569	0
Sir y Fflint	796,576	1,320,000
Gwynedd	530,722	600,000
Merthyr Tudful	303,532	931,000
Sir Fynwy	426,384	0
Castell-nedd Port Talbot	686,951	1,890,000
Casnewydd	908,923	1,100,661
Sir Benfro	569,373	308,165
Powys	540,652	1,420,000
Rhondda Cynon Taf	1,384,904	1,600,000
Abertawe	1,202,923	1,918,750
Torfaen	566,002	0
Bro Morgannwg	722,417	0
Wrecsam	757,404	1,000,000
CYFANSWM	16,000,000	20,255,176

Grant ysgolion bach a gwledig
Dadansoddiad o ddyraniadau Awdurdodau Lleol dros dymor y Cynulliad

Awdurdod Lleol	2017-18	2018-19	2019-20	2021-21 (dyraniad dangosol)
	£	£	£	£
Ynys Môn	138,157	140,312	140,353	138,189
Blaenau Gwent	35,948	35,915	35,873	35,904
Pen-y-bont ar Ogwr	61,088	61,184	61,177	61,381
Caerffili	103,580	103,618	103,539	106,947
Caerdydd	33,967	31,217	31,217	28,264
Sir Gaerfyrddin	265,956	263,560	263,655	276,240
Ceredigion	159,997	154,124	154,193	153,001
Conwy	139,973	141,955	141,905	145,911
Sir Ddinbych	108,500	116,034	116,049	113,309
Sir y Fflint	144,599	137,247	137,235	139,625
Gwynedd	279,580	279,094	279,174	273,482
Merthyr Tudful	22,573	22,555	22,532	22,549
Sir Fynwy	72,984	73,212	73,244	73,618
Castell-nedd Port Talbot	84,259	90,356	90,342	91,146
Casnewydd	35,917	35,895	35,868	35,888
Sir Benfro	157,896	159,536	159,566	146,964
Powys	251,816	246,847	246,910	244,358
Rhondda Cynon Taf	133,841	134,083	134,006	128,356
Abertawe	90,991	91,161	91,121	91,547
Torfaen	27,777	27,787	27,800	27,790
Bro Morgannwg	56,276	56,278	56,281	59,430
Wrecsam	94,325	98,030	97,960	106,101
Cyfanswm	2,500,000	2,500,000	2,500,000	2,500,000

Dyraniad terfynol 2019/20 gan gynnwys cynnydd o 2.6% yn y gyfradd fesul uned ariannu.

Atodiad G

	Cyfanswm dyraniad 2018/19 (ac eithrio ychwanegiad at y cyllid atodol)	Dyraniad Amser Llawn gan gynnwys cynnydd o 2.6% i'r gyfradd fesul uned	Dyraniad Rhan-amser gan gynnwys cynnydd o 2.6% i'r gyfradd fesul uned	Lwfans Rhan-amser	Ymgodiad amddifadedd	Ymgodiad colegau tenau eu poblogaeth	Lwfans cyfrwng Cymraeg	5% Lwfans Cynhaliaeth	Cyfanswm dyraniad 2019/20 gan gynnwys cynnydd o 2.6%	Pontio ar gyfer newid i'r model ariannu	Cyfanswm dyraniad 2019/20 gan gynnwys pontio
	£	£	£	£	£	£	£	£	£		£
Coleg A	15,338,330	11,478,631	2,190,230	438,046	671,625	0	30,000	683,443	15,491,976	67,775	15,559,751
Coleg B	28,414,998	22,794,990	6,239,477	1,247,895	2,132,834	0	30,000	1,451,723	33,896,920	-805,396	33,091,524
Coleg C	36,800,099	27,142,343	5,150,657	1,030,131	1,296,296	733,136	115,000	1,614,650	37,082,213	235,248	37,317,461
Coleg D	39,907,102	31,340,049	5,534,486	1,106,897	2,226,040	0	230,000	1,843,727	42,281,199	0	42,281,199
Coleg E	19,337,932	14,505,765	2,315,854	463,171	454,275	575,850	1,061,250	841,081	20,217,246	0	20,217,246
Coleg F	28,717,413	21,463,068	3,623,231	724,646	2,206,480	0	29,756	1,254,315	29,301,496	0	29,301,496
Coleg G	23,449,610	18,576,764	2,692,869	538,574	1,384,961	0	115,000	1,063,482	24,371,649	0	24,371,649
Coleg H	40,655,963	27,733,534	4,474,651	894,930	1,381,599	2,441,719	2,156,250	1,610,409	40,693,092	435,992	41,129,084
Coleg FF	24,367,604	16,038,856	3,567,887	713,577	936,079	2,456,260	30,000	980,337	24,722,995	0	24,722,995
Coleg G	8,630,888	7,798,588	645,288	129,058	682,814	0	30,000	422,194	9,707,942	0	9,707,942
Coleg NG	10,521,351	8,463,239	1,315,818	263,164	211,774	356,812	30,000	488,953	11,129,760	0	11,129,760
Coleg H	5,686,784	4,840,862	160,208	32,042	399,251	0	15,000	250,053	5,697,416	66,382	5,763,798
Coleg I	5,746,526	0	3,618,684	723,737	214,937	0	30,243	180,934	4,768,535	1,092,618	5,861,153
	287,574,600	212,176,689	41,529,341	8,305,868	14,198,965	6,563,777	3,902,499	12,685,302	299,362,441	1,092,618	300,455,059

Enghraifft o Goleg

Atodiad H

Nifer y dysgwyr	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Blwyddyn 7 - Ionawr	1134	1163	1168	1228
Blwyddyn 8 - Ionawr	1111	1125	1161	1164
Blwyddyn 9 - Ionawr	1162	1105	1120	1152
Blwyddyn 10 - Ionawr	1219	1152	1100	1116
Blwyddyn 11 - Ionawr	1280	1216	1114	1100
Cofrestriadau ALL	1520	1541	1548	1630
Canran y dysgwyr o Flwyddyn 11 i AB			62.0%	70.0%

Gwirion eddol	Gwirioneddol	Gwirioneddol	Gwirioneddol	Rhagfynegwyd	Rhagfynegwyd	Rhagfynegwyd
2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
1,520	1,541	1,548	1,630	1,549	1,550	1,587

Cyfartaledd 3 Blynedd
1,562

70.0% Cyfradd aros

Mae data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol hynny sydd fwyaf cydnaws â dalgylch y coleg wedi'i ddefnyddio at ddibenion cyfrifo nifer y staff llawn amser a ragwelwyd. Pan fo mwy nag un awdurdod lleol yn cael ei ystyried yn nalgylch y coleg, mae data'r CYBLD wedi'i adio at ei gilydd yn y tabl 'cyfanswm'. Cymerir data CYBLD ym mis Ionawr pob blwyddyn academiaidd. Defnyddir data CYBLD gan fod y ffigurau hyn yn adlewyrchiad cywir o nifer y dysgwyr sy'n dod drwy ysgolion ym mhob Awdurdod Lleol. Mae niferoedd **cofrestru ALL** wedi'u cymryd o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) sydd wedi'i rewi ar ddiwedd y flwyddyn.

* Mae 'canran y dysgwyr o Flwyddyn 11 i AB' ar gyfer 2016/17 yn defnyddio nifer cofrestriadau AB y coleg ar gyfer 2016/17 ac yn rhannu â nifer y dysgwyr Blwyddyn 11 o 2014/15 a 2015/16, gan mai dysgwyr o'r ddwy garfan hyn fydd yn bwydo i flynyddoedd 12 a 13 yn y Coleg yn 2016/17.

* Mae 'canran y dysgwyr o Flwyddyn 11 i AB' ar gyfer 2017/18 yn defnyddio nifer cofrestriadau AB y coleg ar gyfer 2017/18 ac yn rhannu â nifer y dysgwyr Blwyddyn 11 o 2015/16 a 2016/17, gan mai dysgwyr o'r ddwy garfan hyn fydd yn bwydo i flynyddoedd 12 a 13 yn y Coleg yn 2017/18. Mae % y **gyfradd aros** ddiweddaraf wedi cael ei defnyddio ar gyfer dyraniadau 2019/20. Yn y dyfodol, bydd cyfartaledd o'r 2 flynedd flaenorol yn cael ei ddefnyddio i esmwytho effaith unrhyw newidiadau sydyn.

Mae **rhagfynegiad ar gyfer 2018/19** yn cael ei wneud drwy edrych ar flwyddyn 11 ar gyfer 2016/17 a 2017/18 yn yr un modd ag uchod. Ar gyfer y blynyddoedd canlynol, defnyddir niferoedd dysgwyr blwyddyn 11 a blwyddyn 10 ar gyfer 2019/20 a blwyddyn 10 a blwyddyn 9 ar gyfer 2020/21.

Yna, defnyddir **cyfartaledd 3 blynedd** i roi'r nifer a ragwelir ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20.

CYFANSWM	£6,476,810.40	1399.2
GWERTH CYFARTALOG A GYNLLUNIWDYD 2018/19	£4,628.94	
CYFARTELEDD GWERTH RHAGLENNI AR GYFER DYRANIAD 2019/20 (yn cynnwys cynnydd o 2.6%)	£4,749.29	

Cod LP74	Rhaglen	Enghraifft o Goleg	
		Ariannol Wedi'i chynllunio	Nifer y Dysgwyr/Dysgwyr Wedi'i chynllunio
0013A03B	3 AS - 3 UG	302192	88
0013C03B	2 AS with WBQ - 2 UG gyda CBC	74256	28
0014C03B	3 AS with WBQ - 3 UG gyda CBC	96152	28
0023A03B	3 A2	219776	64
0023C03B	2 A2 with WBQ - 2 A2 gyda CBC	84864	32
0103A01B	Health and Social Care Level 1 - Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 1	38844	10
0103A03B	Health and Social Care Level 3 - Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3	352966	105
0103AAAB	Access to HE Diploma - Healthcare - Mynediad at Ddiploma AU – Gofal Iechyd	53296	16
0103B02B	Complementary Therapies Level 2 - Therapiau Cyflenwol Lefel 2	35027	10
0103B03B	Complementary Therapies Level 3 - Therapiau Cyflenwol Lefel 3	26944	8
0104A01B	Public Services Level 1 - Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 1	45282	11
0104A03B	Public Services Level 3 - Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 3	98578	26
0105A01B	Childcare Level 1 - Gofal Plant Lefel 1	40891	11
0105A02B	Childcare Level 2 - Gofal Plant Lefel 2	41843	13
0105A03B	Childcare Level 3 - Gofal Plant Lefel 3	86302	26
0201C03B	Applied Science Level 3 - Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3	32912	9
0201CAAB	Access to HE Bio Science - Mynediad at AU – Biowyddoniaeth	43428	12
0303B02B	Animal Care Level 2 - Gofalu am Anifeiliaid Lefel 2	92432	16
0303B03B	Animal Care Level 3 - Gofalu am Anifeiliaid Lefel 3	175621	30
0304A02B	Countryside & Environment Level 2 - Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 2	55805	10
0401A01B	Manufacturing and Engineering Level 1 - Gweithgynhyrchu a Pheirianeg Lefel 1	135627	23
0401A02B	Manufacturing and Engineering Level 2 - Gweithgynhyrchu a Pheirianeg Lefel 2	130950	22
0401A03B	Manufacturing and Engineering Level 3 - Gweithgynhyrchu a Pheirianeg Lefel 3	159011	27
0401B03B	Electrical / Electronic Engineering Level 3 - Peirianeg Drydanol/Electronig Lefel 3	126274	22
0401C02B	Fabrication and Welding Level 2 - Saernio a Weldio Lefel 2	37414	6
0401C03B	Fabrication and Welding Level 3 - Saernio a Weldio Lefel 3	37414	6
0401G02B	Marine Engineering Level 2 - Peirianeg Forol Lefel 2	60798	10
0401G03B	Marine Engineering Level 3 - Peirianeg Forol Lefel 3	56122	10
0401H01B	Automotive Engineering Level 1 - Peirianeg Fodurool Lefel 1	154334	26
0401H02B	Automotive Engineering Level 2 - Peirianeg Fodurool Lefel 2	60798	10
0401I03B	Enhanced Engineering Level 3 - Peirianeg Fanwl Lefel 3	243840	24
0502A02B	Construction Level 2 - Adeiladu Lefel 2	55978	10
0502A03B	Construction Level 3 - Adeiladu Lefel 3	97961	17

Cyfrifwyd gwerth cyfartalog y rhaglen drwy gymryd cyfanswm gwerth y ddarpariaeth a gynlluniwyd gan goleg yn 2018/19 a'i rannu â chyfanswm nifer y dysgwyr a gynlluniwyd. **Yna, cynyddwyd y gwerth hwn 2.6% yn unol â'r cynnydd yn y gyfradd fesul uned.**

At ddibenion Adeiladu Gwell a TG Gwell, defnyddir y gwerth heb ei wella mewn cyfrifiadau gan fod y gwerth ychwanegol yn destun ffrwd ariannu ar wahân.

0502AE0B	Construction & Built Environment Level E - Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig Lefel E	46648	8
0502B01B	Brickwork Level 1 - Gwaith Briciau Lefel 1	18659	3
0502B02B	Brickwork Level 2 - Gwaith Briciau Lefel 2	37318	6
0502C01B	Carpentry & Joinery Level 1 - Gwaith Coed a Saerniaeth Lefel 1	65307	11
0502C02B	Carpentry & Joinery Level 2 - Gwaith Coed a Saerniaeth Lefel 2	51313	9
0502F01B	Plumbing Level 1 - Plymio Lefel 1	116620	20
0502F02B	Plumbing Level 2 - Plymio Lefel 2	55978	10
0502F03B	Plumbing Level 3 - Plymio Lefel 3	55978	10
0502K01B	Electrical Installation Level 1 - Gwaith Gosod Trydan Lefel 1	130614	22
0502K02B	Electrical Installation Level 2 - Gwaith Gosod Trydan Lefel 2	102626	18
0502K03B	Electrical Installation Level 3 - Gwaith Gosod Trydan Lefel 3	51313	9
0502M02B	Enhanced Construction Level 2 - Adeiladwaith Fanwl Lefel 2	167933	29
0601A02B	IT Practitioners Level 2 - Ymarferwyr TG Lefel 2	56002	14
0601A03B	IT Practitioners Level 3 - Ymarferwyr TG Lefel 3	130670	34
0703B01B	Hairdressing Level 1 - Trin Gwallt Lefel 1	53517	13
0703B02B	Hairdressing Level 2 - Trin Gwallt Lefel 2	99763	26
0703B03B	Hairdressing Level 3 - Trin Gwallt Lefel 3	31176	8
0703C01B	Beauty Therapy Level 1 - Therapi Harddwch Lefel 1	40138	10
0703C02B	Beauty Therapy Level 2 - Therapi Harddwch Lefel 2	93528	24
0703C03B	Beauty Therapy Level 3 - Therapi Harddwch Lefel 3	43646	11
0704A01B	Professional Cookery Level 1 - Coginio Proffesiynol Lefel 1	35968	8
0704A02B	Professional Cookery Level 2 - Coginio Proffesiynol Lefel 2	34160	8
0704B01B	Hospitality and Catering Level 1 - Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 1	7194	2
0704B02B	Hospitality and Catering Level 2 - Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 2	3416	1
0704B03B	Hospitality and Catering Level 3 - Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 3	20496	5
0801A02B	Sport and Leisure Level 2 - Chwaraeon a Hamdden Lefel 2	41530	11
0801A03B	Sport and Leisure Level 3 - Chwaraeon a Hamdden Lefel 3	213581	58
0901A03B	Performing Arts Level 3 - Y Celfyddydau Perfformio Lefel 3	64512	14
0901C03B	Music & Music Technology Level 3 - Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerdd Lefel 3	100352	22
0902A02B	Art and Design Level 2 - Celf a Dylunio Lefel 2	51307	11
0902A03B	Art and Design Level 3 - Celf a Dylunio Lefel 3	307843	67
0902B03B	Art Foundation Studies Level 3 - Astudiaethau Celf (Sylfaen) Lefel 3	54972	12
1401A02B	Foundation Studies Level 2 - Astudiaethau Sylfaen Lefel 2	210165	37
1401BE1B	ILS Profound Level E1 - Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Lefel E1	45557	5
1401BE2B	ILS Profound Level E2 - Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Lefel E2	106299	11
1401BE3B	ILS Profound Level E3 - Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Lefel E3	205006	22
1503B03B	Business Studies Level 3 - Astudiaethau Busnes Lefel 3	120288	32
1503B12B	Accelerated Learning Business Studies Level 1-2 - Dysgu Carlam Astudiaethau Busnes Lefel 1-2	51486	11

Atodiad H

	ESOL	Sgiliau Sylfaenol ac ILS	Addysg Gyffredinol	Pob PT arall	Cyfanswm PT
Coleg A	153,832	651,929	387,479	941,488	2,134,727
Coleg B	1,825,539	1,400,635	366,024	2,489,164	6,081,362
Coleg C	634,631	1,073,717	1,211,337	2,100,449	5,020,134
Coleg CH	383,215	918,106	992,707	3,100,208	5,394,236
Coleg D	140,905	245,127	255,425	1,615,711	2,257,168
Coleg DD	70,976	903,078	492,092	2,065,268	3,531,414
Coleg E	443,895	436,863	298,049	1,445,822	2,624,629
Coleg F	261,318	1,107,008	802,328	2,190,605	4,361,258
Coleg FF	177,242	917,332	544,574	1,838,324	3,477,473
Coleg G	0	174,835	21,609	432,491	628,936
Coleg NG	0	191,445	311,387	779,642	1,282,474
Coleg H	0	0	156,148	0	156,148
Coleg I	634,817	1,659,090	0	1,233,075	3,526,983
	£4,726,371	£9,679,166	£5,839,157	£20,232,247	£40,476,940

Cyfanswm darpariaeth PT yn 2017/18

£40,476,940

Cyfanswm sy'n weddill ar ôl cyfnod pontio ESOL, Sgiliau Sylfaenol,

Cyfanswm y gyllideb ran-amser ar gyfer 2019-20 yw £40,476,940. Mae hyn yn gyfwerth â chyfanswm y ddarpariaeth yn 2017/18.

Mae dyraniadau coleg ar gyfer **ESOL, Sgiliau Sylfaenol ac ILS** ac **Addysg Gyffredinol** yn gyfwerth â'r gwerthoedd cyflawni gwirioneddol yn 2017/18.

Cyfrifwyd y gyllideb a oedd yn weddill ar gyfer dyfarniadau rhan-amser drwy gymryd cyfanswm y gyllideb a thynnu cyfanswm cyfnod pontio ESOL, Sgiliau Sylfaenol ac ILS, Addysg Gyffredinol ac Addysg Oedolion Cymru. Cyfanswm y gyllideb sy'n weddill yw £18,999,172.

Ac eithrio Coleg I, sydd â threfniadau pontio ar wahân ar waith, y dyraniadau colegau unigol ar gyfer '**Pob PT arall**' yw Coleg A Coleg B Coleg C Coleg CH Coleg D Coleg DD Coleg E Coleg F Coleg FF Coleg G Coleg NG Coleg H Coleg I a gyfrifwyd

FEI	Poblogaeth 19+ gyda lefel 2 fel y cymwysterau uchaf
Coleg A	61,802
Coleg B	163,396
Coleg C	137,880
Coleg CH	203,507
Coleg D	106,060
Coleg DD	135,570
Coleg E	94,908
Coleg F	143,798
Coleg FF	120,673
Coleg G	28,390
Coleg NG	51,178
Coleg H	
Coleg I	

Tabl 1: 2019-20 a rhagolwg gwariant dros y pedair blynedd ganlynol (grantiau yn unig, felly dim doethuriaeth gan nad oes elfen grant)

	<i>Rhagolygon o gostau'r flwyddyn ariannol</i>				
	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
Myfyriwr israddedig amser llawn					
Grant Cynhaliaeth	£200.9m	£231.6m	£252.1m	£265.1m	£277.3m
Grant Ffioedd Dysgu	£132.7m	£58.0m	£13.7m	£2.0m	£0.0m
Lwfansau (Amser llawn)	£16.9m	£17.1m	£17.3m	£17.5m	£17.7m
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£350.6m</i>	<i>£306.8m</i>	<i>£283.1m</i>	<i>£284.6m</i>	<i>£295.1m</i>
Myfyriwr israddedig rhan-amser					
Grant Cynhaliaeth	£14.2m	£17.5m	£19.9m	£22.1m	£24.1m
Grant Ffioedd Dysgu	£0.1m	£0.1m	£0.0m	£0.0m	£0.0m
Lwfansau (Rhan-amser)	£1.5m	£1.4m	£1.3m	£1.4m	£1.4m
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£15.9m</i>	<i>£19.0m</i>	<i>£21.2m</i>	<i>£23.4m</i>	<i>£25.4m</i>
Myfyriwr ôl-raddedig sydd wedi dilyn cwrs Meistr					
Grant Cyfrannu	£10.2m	£17.8m	£20.8m	£22.8m	£24.6m
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£10.2m</i>	<i>£17.8m</i>	<i>£20.8m</i>	<i>£22.8m</i>	<i>£24.6m</i>
Addysg Bellach					
LCA	£16.9m	£16.9m	£16.9m	£16.9m	£17.0m
GDLLC					
AB	£4.8m	£4.4m	£4.3m	£4.3m	£4.3m
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£21.7m</i>	<i>£21.3m</i>	<i>£21.2m</i>	<i>£21.2m</i>	<i>£21.2m</i>
Cyfanswm					
Bron yn arian parod	£398.3m	£364.9m	£346.4m	£352.1m	£366.3m

Ffynhonnell: Modelu'r Is-adran Addysg Uwch[1], Llywodraeth Cymru

Nodiadau

[1] Fersiynau enghreifftiol yn cael eu defnyddio ym mis Awst 2019

Atodiad I

Tabl 2: Myfyrwyr yng Nghymru (rhannu Tabl 1)

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
					<i>Rhagolygon o gostau'r flwyddyn ariannol</i>
Myfyriwr israddedig amser llawn ^[1]					
Grant Cynhaliaeth	£138.4m	£160.3m	£174.7m	£183.8m	£192.4m
Grant Ffioedd Dysgu	£84.2m	£37.0m	£8.7m	£1.3m	£0.0m
Lwfansau (Amser llawn)	£11.7m	£11.8m	£12.0m	£12.1m	£12.3m
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£234.3m</i>	<i>£209.1m</i>	<i>£195.4m</i>	<i>£197.2m</i>	<i>£204.7m</i>
Myfyriwr israddedig rhan-amser (rhannu'r cyfanswm)					
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£14.8m</i>	<i>£17.5m</i>	<i>£19.4m</i>	<i>£21.4m</i>	<i>£23.3m</i>
Myfyriwr ôl-raddedig sydd wedi dilyn cwrs Meistr ^[3]					
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£6.1m</i>	<i>£10.7m</i>	<i>£12.5m</i>	<i>£13.7m</i>	<i>£14.8m</i>
Addysg Bellach (gellir tybio bod hyn yn cyfeirio at Gymru gyfan)					
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£21.7m</i>	<i>£21.3m</i>	<i>£21.2m</i>	<i>£21.2m</i>	<i>£21.2m</i>
Cyfanswm myfyrwyr yng Nghymru					
Bron yn arian parod	£277.0m	£258.6m	£248.6m	£253.6m	£264.0m

Ffynhonnell: Modelu'r Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

Nodiadau

- [1] Wedi rhannu yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru a thu hwnt. Mae hyn yn goramcangyfrif cyfran Cymru gan nad yw'n ystyried cyfartaleddau is ar gyfer pobl sydd gartref a chyfartaleddau uwch ar gyfer pobl sy'n Llundain ac maent wrth gwrs yn debygol o fod gartref = astudio yng Nghymru Llundain = astudio yn rhywle arall. Mae hyn yn symleiddio pethau ac, yn ei gyd-destun, nid yw'r gwahaniaeth yn sylweddol.
- [2] Mae gan y prif fodel rhan-amser res ar gyfer grant cynhaliaeth i fyfyrwyr sy'n hynu o Gymru ac yn astudio yn rhywle arall a rhes ar gyfer grant cynhaliaeth i bawb. Defnyddir y gymhareb honno i rannu darpariaeth ran-amser.
Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ran-amser yng Nghymru felly dim ond ychydig yn is na'r ffigur yn Nhabl 1 yw hwn.
- [3] Cyfrifwyd rhaniad y ddarpariaeth ôl-raddedig drwy ddefnyddio data'r SLC y cafwyd mynediad ato drwy eu Porth Microstrategaeth. Mae'r data hwnnw'n cyfrif cwsmeriaid yng Nghymru sy'n dilyn math o gwrs ôl-raddedig a hefyd yn ôl rhanbarth sefydliad addysgol y llywodraeth. Defnyddir y gymhareb o gwsmeriaid lle mae rhanbarth sefydliad yn golygu Cymru yn erbyn pob cwsmer i rannu'r ddarpariaeth i ôl-raddedigion.

Tabl 3: Myfywrwyr mewn mannau eraill (rhannu Tabl 1)

Rhagolygon
o gostau'r
flwyddyn
ariannol

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
Myfyriwr israddedig amser llawn ^[1]					
Grant Cynhaliaeth	£62.5m	£71.3m	£77.4m	£81.3m	£84.9m
Grant Ffioedd Dysgu	£48.5m	£21.1m	£5.0m	£0.7m	£0.0m
Lwfansau (Amser llawn)	£5.3m	£5.3m	£5.3m	£5.4m	£5.4m
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£116.2m</i>	<i>£97.7m</i>	<i>£87.7m</i>	<i>£87.4m</i>	<i>£90.4m</i>
Myfyriwr israddedig rhan-amser (rhannu'r cyfanswm)					
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£1.0m</i>	<i>£1.5m</i>	<i>£1.8m</i>	<i>£2.0m</i>	<i>£2.1m</i>
Myfyriwr ôl-raddedig sydd wedi dilyn cwrs Meistr ^[3]					
<i>Bron yn arian parod</i>	<i>£4.0m</i>	<i>£7.1m</i>	<i>£8.3m</i>	<i>£9.1m</i>	<i>£9.8m</i>
(Addysg Bellach - gellir tybio nad oes dim mewn mannau eraill)					
Cyfanswm myfywrwyr mewn mannau eraill					
Bron yn arian parod	£121.3m	£106.2m	£97.8m	£98.5m	£102.3m

Ffynhonnell: Modelu'r Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

Nodiadau

- [1] Wedi rhannu yn seiliedig ar nifer y myfywrwyr sy'n astudio yng Nghymru a thu hwnt. Mae hyn yn goramcangyfrif cyfran Cymru gan nad yw'n ystyried cyfartaleddau is ar gyfer pobl sydd gartref a chyfartaleddau uwch ar gyfer pobl sy'n Llundain ac maent wrth gwrs yn debygol o fod gartref = astudio yng Nghymru Llundain = astudio yn rhywle arall. Mae hyn yn symleiddio pethau ac, yn ei gyd-destun, nid yw'r gwahaniaeth yn sylweddol.
- [2] Mae gan y prif fodel rhan-amser res ar gyfer grant cynhaliaeth i fyfyrwyr sy'n hynu o Gymru ac yn astudio yn rhywle arall a rhes ar gyfer grant cynhaliaeth i bawb. Defnyddir y gymhareb honno i rannu darpariaeth ran-amser. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ran-amser yng Nghymru felly mae'r ffigur hwn yn isel.
- [3] Cyfrifwyd rhaniad y ddarpariaeth ôl-raddedig drwy ddefnyddio data'r SLC y cafwyd mynediad ato drwy eu Porth Microstrategaeth. Mae'r data hwnnw'n cyfrif cwsmeriaid yng Nghymru sy'n dilyn math o gwrs ôl-raddedig a hefyd yn ôl rhanbarth sefydliad addysgol y llywodraeth. Defnyddir y gymhareb o gwsmeriaid lle mae rhanbarth sefydliad yn golygu Cymru yn erbyn pob cwsmer i rannu'r ddarpariaeth i ôl-raddedigion.

Tabl 4: Darpariaeth Benthyciadau i Fyfyrrwyr

Darpariaeth Benthyciadau i Fyfyrrwyr

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Gwariant benthyciad				
Myfyriwr israddedig amser llawn, Cynllun 1 ^(a)	£22,229	£3,822		
Myfyriwr israddedig amser llawn, Cynllun 2 ^(b)	£622,073,658	£672,829,479	£713,734,486	£742,695,448
Myfyriwr israddedig rhan-amser	£10,372,124	£12,611,122	£14,141,482	£14,847,009
Graddau Meistr	£43,786,275	£50,294,281	£53,133,405	£56,676,661
Doethuriaeth	£2,960,500	£6,040,739	£9,343,012	£12,269,489
Ffi RAB				
Myfyriwr israddedig amser llawn, Cynllun 1 ^(a)	36.8%	31.9%		
Myfyriwr israddedig amser llawn, Cynllun 2 ^(b)	37.8%	39.3%	39.8%	39.8%
Myfyriwr israddedig rhan-amser	33.4%	33.5%	34.1%	34.0%
Graddau Meistr	7.4%	8.5%	8.3%	8.1%
Doethuriaeth	34.3%	35.1%	33.7%	31.4%

Ffynh

(a) Cynllun 1: Trefn benthyciadau myfyrrwyr cyn 2012

(b) Cynllun 2: Trefn benthyciadau myfyrrwyr ar ôl 2012

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Papur gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor PPIA

Dyddiad: 8 Ionawr 2020

Lleoliad: Y Senedd, Bae Caerdydd

Teitl: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer 2020-21

1. Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 6 Awst, gan eu gwahodd i roi tystiolaeth ar eu cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft a gofyn iddynt ddarparu papur mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft.

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n berthnasol i gynigion cyllideb i blant a phobl ifanc ar gyfer 2020-21, ac yn rhoi diweddariad ar feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Sylwebaeth ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

Amlinellodd y gyllideb ddrafft fanwl a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr ein cynlluniau gwario ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol trwy BEL. Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2021-22 ar gael ar hyn o bryd gan mai dim ond un flwyddyn y mae'r gyllideb ddrafft yn ei chwmpasu.

Dyraniadau yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

MAES RHAGLENNI GWARIANT (SPA)	Cefnogi Plant		
CAM GWEITHREDU	Cefnogi Plant		
BEL	Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20	Newid	2020-21
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae	43.351	20.000	63.351
Cymorth ar gyfer Hawliau Plant	0.991	-	0.991
Cefnogi Plant	0.989	2.300	3.289

Comisiynydd Plant	1.580	-	1.580
Cymorth ar gyfer Teuluoedd a Phlant	3.004	0.600	3.604

Mae'r newidiadau i'r **Cam Gweithredu Cefnogi Plant** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 oherwydd:

- £20 miliwn mewn perthynas â'r cynnig gofal plant
- £2.300 miliwn o gyllid parhaus ar gyfer plant sy'n agored i niwed, mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu.
- £0.600 miliwn mewn perthynas â chostau cyfathrebu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Nid oes unrhyw ddyraniadau refeniw dangosol wedi'u gosod ar gyfer 2021-22

SPA	CAFCASS		
CAM GWEITHREDU	CAFCASS		
BEL	Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20	Newid	Cyllideb Ddrafft 2020-21
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
CAFCASS Cymru	11.738	0.414	12.152

Mae'r newidiadau i'r **Cam Gweithredu CAFCASS** rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 oherwydd costau staffio uwch, gan gynnwys dyfarniad cyflog 2019-20 a chyfraniadau pensiwn cyflogwyr.

Nid oes unrhyw ddyraniadau refeniw dangosol wedi'u gosod ar gyfer 2021-22.

BEL 0060 – Cymru Iachach

Yn 2020-21, bydd cyllid ychwanegol i gefnogi plant a'r blynyddoedd cynnar o fewn BEL Cymru Iachach. Trwy Raglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, byddwn yn buddsoddi £3.5 miliwn yn y dull Dechrau'n Deg a £0.5 miliwn yn y Dull Ysgol Gyfan.

2. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Mae proses gyllidebu Llywodraeth Cymru yn cael ei llywio gan drafodaethau gyda holl Bwyllgorau'r Cynulliad a phob math o fuddiannau allweddol eraill. Yr un fath ag yn 2019-20, mae ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol yn cynnwys ystyriaeth glir o effaith penderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant.

Mae dull integredig yn ein galluogi ni i ddeall effaith gyffredinol penderfyniadau ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys ystyried anghydraddoldebau a hawliau dynol, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol ym mywydau'r bobl ifanc hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dal ati i gyhoeddi asesiadau effaith integredig ochr yn ochr â chyhoeddi'r gyllideb ddrafft.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y ffaith bod rhaid i asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), gael eu cyflawni fel rhan o'n gwaith parhaus o ddatblygu ac adolygu polisïau. Bydd yr asesiadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch y gyllideb a'r asesiad ehangach o effaith y gyllideb. Mae'r dull hwn, yng nghyd-destun dyraniadau'r gyllideb, yn sicrhau bod tystiolaeth a dealltwriaeth o effeithiau yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf a gydol ein paratodau ar gyfer y gyllideb.

Mae ein hadnodd asesiad effaith integredig newydd yn dal i fynnu bod hawliau plant yn cael eu hystyried a bod asesiad llawn o'r effaith ar hawliau plant yn cael ei gwblhau, lle bo hynny'n ofynnol. Mae'r broses CRIA yn rhoi lle blaenllaw i hawliau plant wrth i ni ddatblygu deddfwriaeth, rhaglenni a pholisïau newydd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi ein huchelgeisiau i wella iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Cyflawnir hyn trwy gyflawni'r tri amcan yn Ffyniant i Bawb: gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol, hyrwyddo iechyd a llesiant i bawb ac adeiladu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell. Rydym wedi defnyddio dull hirdymor wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2020-21, gyda phwyslais ar gyflawni ein gweledigaeth o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig di-dor ar gyfer y dyfodol, fel yr amlinellir yn *Cymru Iachach, ein Cynllun Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*.

Mae'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y referniw craidd a'r cyllid cyfalaf ar gyfer GIG Cymru, ynghyd â chyllid i gefnogi iechyd cyhoeddus, gofal cymdeithasol a chefnogi plant. Rydym yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad yn GIG Cymru ac rydym yn buddsoddi £385 miliwn o gyllid referniw ychwanegol yn y system iechyd a gofal cymdeithasol a £40 miliwn o gyllid cyfalaf.

Mae Cymru Iachach yn cyflawni ein hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i gyhoeddi cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn ymateb i adroddiad yr Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cynllun yn adeiladu ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus i gael effaith ar iechyd a llesiant gydol bywyd. Mae pwyslais ar atal salwch a helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan alluogi pobl i fyw yn annibynnol am gyhyd ag y gallant.

Ein nod yw cymryd camau sylweddol i newid ein dull o drin i atal. Y weledigaeth rydym wedi'i sefydlu yn Cymru Iachach yw rhoi mwy o ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar.

Ynghyd â buddsoddiad sylweddol yn y GIG yn 2020-21, rydym yn gwneud buddsoddiadau penodol mewn cymorth blynyddoedd cynnar i blant a phobl ifanc. Bydd £20 miliwn ychwanegol yn y cynnig Gofal Plant a £3.5 miliwn pellach i ehangu'r dull Dechrau'n Deg fel rhan o Raglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar.

Bydd cyllid ychwanegol o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o £0.5 miliwn i ymestyn y dull ysgol gyfan ac, ynghyd â chyllid pellach o'r MEG Addysg o £2 filiwn, bydd hyn yn cynyddu'r ddarpariaeth gwrsela a Chymorth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewn ysgolion.

Yn ogystal, mae buddsoddiad pellach mewn gweithgareddau ataliol sy'n mynd i'r afael â phenderfynyddion salwch ehangach, er enghraifft, fel rhan o'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach – mae mwy o fanylion isod.

Yn 2020-21, byddwn yn parhau i fframio ein dyraniadau cyllideb yn unol â'r diffiniadau o wariant ataliol a dderbynnir yn eang ac a ddisgrifir ar draws meysydd sylfaenol, eilaidd, trydyddol ac aciwt.

Atal Sylfaenol

Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach

Dyrennir £5.5 miliwn i gefnogi'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, sef cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra ledled Cymru. Mae'n amlinellu cynllun 10 mlynedd i flaenoriaethu ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad ar bob lefel i newid ein harferion a hyrwyddo gweithgarwch iach. Mae'r strategaeth yn ymrwymiad allweddol tuag at ddull trawslywodraethol o leihau gordewdra yng Nghymru ar raddfa poblogaeth. Datblygwyd y strategaeth o dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Mae hyn wedi nodi'r angen am ddull newydd sy'n cyfuno newid ymddygiad unigol â newid amgylcheddol a newid i systemau. Bydd yn defnyddio cyfuniad o gyllid, polisïau a deddfwriaeth i ddatblygu dulliau trwy ein hamgylchedd i osod ffocws cryf ar atal. Bydd hefyd yn defnyddio dulliau a dargedir mewn ardaloedd o amddifadedd ac yn helpu'r rhai sydd eisoes dros bwysau neu'n ordew trwy amrywiaeth o wasanaethau atal, ymyrraeth gynnar a gwasanaethau arbenigol. Yn ogystal â'r £5.5 miliwn o gyllid newydd sy'n cael ei ddyrannu o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020-21, bydd y gwaith gweithredu ehangach, a fydd yn cychwyn yn 2020, yn dwyn ynghyd rhaglenni gwaith o sawl gwahanol bortffolios sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y nodau a amlinellir yn y strategaeth. Mae manylion camau gweithredu penodol yn ymwneud â phlant, teuluoedd a phobl ifanc wedi'u cynnwys isod yn adran 3.

Imiwneiddiad

Erbyn diwedd 2019-20, byddwn wedi cyflwyno rhaglenni brechu newydd ar gyfer HPV i fechgyn. Cychwynnodd rhaglen imiwneiddio HPV yn 2008, a dim ond i ferched i gychwyn. Mae'r ddau fath o HPV yn achosi dros 70% o ganser ceg y groth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gostyngiad mawr yn y cyfraddau haint gyda'r ddau brif fath o HPV sy'n achosi canser wedi dangos effeithiolrwydd y rhaglen. Bydd y gwaith o ehangu rhaglen brechu HPV yn 2019-20 yn helpu i ddiogelu pobl rhag canserau'r geg a'r anws.

Dechrau'n Deg a'r Blynyddoedd Cynnar

Mae cyllid craidd Dechrau'n Deg yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn pontio gwariant ataliol sylfaenol ac eilaidd. I adeiladu ar hyn, yn 2020-21 dyrennir £3.5 miliwn ychwanegol o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu ymhellach waith Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar sy'n sail i'n blaenoriaeth o ran y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn cynyddu'r dyraniad o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i £6.3 miliwn ar gyfer 2020-21. Mae'r cyllid ychwanegol yn cynrychioli'r cam cyntaf tuag at ehangu'r cymorth blynyddoedd cynnar dros dymor hwy a fydd yn helpu i greu system fwy ataliol sy'n:

- mynd i'r afael â'r cynnydd mewn iechyd gwael
- cyfrannu at leihau llif y plant sy'n mynd i mewn i ofal
- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn canlyniadau plant.

Deintyddol

Byddwn yn parhau i fuddsoddi £3.7 miliwn yn y rhaglen genedlaethol gwella iechyd y geg plant, Cynllun Gwên. Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys ymwelwyr iechyd a gwasanaethau blynyddoedd cynnar eraill. Y nod yw helpu i gychwyn arferion da yn gynnar trwy roi cyngor i deuluoedd â phlant ifanc, darparu brwshys dannedd a phast dannedd ac annog rhieni i fynd â'u plant at y deintydd cyn eu pen-blwydd yn flwydd oed.

Atal Eilaidd a Thrydyddol

Mae'r rhaglenni hyn yn pontio'r ddwy elfen hon o ran gwariant ataliol:

Dull Ysgol Gyfan

Dyrennir £0.5 miliwn ychwanegol i ymestyn y gwaith o gyflwyno'r dull ysgol gyfan o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn yn cynyddu'r dyraniad o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020-21 i £3 miliwn. Yn ogystal, dyrennir £2 filiwn ychwanegol o'r MEG Addysg i gefnogi'r maes hwn. Bydd y buddsoddiadau hyn yn cefnogi ymestyn gwasanaeth cwnsela ysgolion i flwyddyn ysgol ychwanegol (blwyddyn 5) ac yn ymestyn y cynlluniau peilot presennol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer 2020-21 i gyd. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i atal materion iechyd a llesiant meddyliol mwy difrifol ymhlith plant o oedran ysgol, a bydd symud i ymyrraeth gynharach fyth yn cefnogi'r dull hwn ymhellach.

Gwasanaethau Mabwysiadu

Mae £2.3 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y gwasanaeth mabwysiadu yng Nghymru i gryfhau a gwella gwasanaethau presennol ar gyfer mabwysiadwyr, plant a phobl ifanc a fydd yn helpu awdurdodau lleol i wella canlyniadau ar gyfer plant a chreu teuluoedd mabwysiadu cydnerth. Mae plant a osodir i'w mabwysiadu ymhlith y plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Maent yn blant y mae dewisiadau eraill ar eu cyfer wedi methu ac a fyddai'n debygol o 'dderbyn gofal' am weddill eu plentyndod pe na baent yn cael eu mabwysiadu. Mae'n bwysig bod mabwysiadu yn cynnig y cyfle gorau i blentyn ffynnu mewn amgylchedd teulu diogel lle mae eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu a lle gallant gael yr un cyfleoedd ag unrhyw blentyn arall. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi dulliau newydd o baru yn gyflymach ac yn gryfach, gan alluogi mwy o blant i fwynhau sefydlogrwydd a magwraeth teulu mabwysiadol. Bydd yn sicrhau hefyd fod anghenion a chymorth seiliedig ar gryfderau ar gael gydol y daith fabwysiadu. Yn y pen draw, bydd hyn yn cefnogi atal tarfu ar fabwysiadu, gan leihau'r posibilrwydd y bydd plant yn dychwelyd i'r system ofal.

3. Meysydd o Ddiddordeb Cyffredinol

Gordewdra ymhlith plant

- Yn unol ag arfer sefydledig, mae unrhyw gyllid newydd a drosglwyddir i Gymru yn dilyn cynnydd mewn gwariant ar raglenni yn Lloegr yn cael ei ddyrannu i adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion Cymru.
- Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb yw hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb. Byddwn yn helpu pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, gan ddileu'r rhwystrau mae salwch yn eu gosod ar gyflogaeth a chyfle a mynd i'r afael â chylch salwch ac anweithgarwch sy'n pontio'r cenedlaethau.
- Un o egwyddorion pwysig datganoli yw sicrhau nad yw'r cyllid rydym yn ei dderbyn o ganlyniad i fesurau gwariant a gyhoeddwyd yn Lloegr yn cael ei glustnodi at ddibenion penodol.
- Yn unol ag arfer sefydledig, cafodd y cyllid a dderbyniwyd gennym mewn perthynas ag ardoll y diwydiant diodydd meddal ei ychwanegu at ein cronfeydd a'u dyrannu mewn cyllidebau dilynol yn unol â'n blaenoriaethau strategol, gan gynnwys hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb.

Dyraniadau a ragwelir ar gyfer Pwysau Iach: Cymru Iach: £5.5 miliwn

- Fel y nodir uchod, cyhoeddir y cynllun cyflawni ar gyfer 2020-22 yn gynnar yn 2020. O fewn y buddsoddiad, bydd cyllid i gefnogi Llwybr Gordewdra Clinigol, ynghyd â chynghorydd clinigol cenedlaethol a fydd yn darparu cymorth ac yn sbarduno dull cyflawni cyson ledled Cymru. Dyrennir cyllid hefyd ar gyfer Ymyrraeth Plant a Theuluoedd a Dargedir a fydd yn ceisio cefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig, wedi'i thargedu tuag at y gyfran uchaf o blant sy'n ordew, yn seiliedig ar y Rhaglen Mesur Plant. Bydd hyn yn cysylltu â seilwaith trwy Dechrau'n Deg a chyda dulliau rhagnodi cymdeithasol. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu hefyd ar gyfer rhaglen Rheoli Pwysau mewn Beichiogrwydd a fydd yn cyflwyno model cyflawni cenedlaethol i gyflwyno arfer gorau, gydag arbenigedd a chymorth wedi'u darparu ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol.
- Bydd cysylltu â'r Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol er mwyn datblygu cynigion i ddatblygu rhaglenni sy'n targedu plant a theuluoedd mewn cymunedau i gynyddu cyfranogiad yn fecanwaith arall i gefnogi cyflawniad. Byddai hyn yn rhoi ffocws penodol ar ymddygiad eisteddog ac anghydraddoldebau iechyd er mwyn datblygu cynlluniau pilot i brofi ffyrdd newydd o weithio.
- Bydd cyllid pellach yn cael ei ddyrannu i swyddi hanfodol a fydd yn cefnogi cyflawniad Pwysau Iach: Cymru Iach ac ar gyfer dull gwerthuso ac ymchwil deinamig a fyddai'n llywio datblygiad y strategaeth ac yn sicrhau y gallwn ni ddatblygu data a dadansoddiad cadarn i gefnogi cyflawniad.

Gwasanaethau Newyddenedigol

Dyraniadau i gyflawni Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan;

- Yn hanesyddol, mae Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, wedi darparu cyngor

amserol ar sail tystiolaeth i Fyrddau Iechyd, Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC) a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau newyddenedigol. Fodd bynnag, yn 2019, cyfunwyd y Rhwydwaith Newyddenedigol a'r Rhwydwaith Mamolaeth i greu Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol newydd gyda threfniadau llywodraethu diwygiedig. Mae'r uno hwn yn cyflwyno cyfleoedd i feithrin cysylltiadau agosach ar draws y llwybr clinigol i famau a babanod ac yn darparu meysydd newydd ar gyfer cydweithio.

- Mae Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd i gydymffurfiaeth lawn. Diwygiodd y Rhwydwaith Newyddenedigol y Safonau Newyddenedigol, gyda'r trydydd argraffiad wedi'i gymeradwyo yng Ngrŵp Llywio'r Rhwydwaith Newyddenedigol ym mis Medi 2017. Mae'r safonau'n defnyddio'r dystiolaeth a'r canllawiau arfer gorau diweddaraf i'w gwneud nhw'n berthnasol yn glinigol ac yn weithredol. Maent yn cael eu dylanwadu gan ddatblygiadau newyddenedigol ar draws y Deyrnas Unedig ac yn ystyried argymhellion gan Gymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM), y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP), y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH), Bliss a safonau eraill a gyhoeddwyd yn Lloegr a'r Alban.
- Nod y safonau yn y trydydd argraffiad oedd parhau i adeiladu ar safonau blaenorol i wella gwasanaethau ar gyfer babanod a'u teuluoedd ledled Cymru, gan ymgorffori rôl fwyfwy pwysig y Rhwydwaith Newyddenedigol a'r Unedau sy'n cydweithio er mwyn rhannu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol, i hyrwyddo gwelliant parhau i wasanaethau.
- Bob blwyddyn, mae'r rhwydwaith yn gofyn i unedau gynnal hunanasesiad yn erbyn y safonau ac, yn fwy diweddar, gofynnwyd am amcangyfrif o'r goblygiad cost i gyflawni'r safonau. Mae'r asesiad sylfaenol hwn yn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau ar draws unedau a meysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth ar lefel uned.
- Gofynnwyd i bob uned newyddenedigol ddarparu hunanasesiad wedi'i ddiweddarau ym mis Mawrth 2019, gan gynnwys costau, lle bo hynny'n briodol. Roedd y rhan fwyaf o'r unedau yn gallu dangos gwelliant clir mewn llawer o feysydd, gyda rhai o'r gwelliannau hyn yn gysylltiedig â chwblhau cynlluniau cyfalaf i wella cyfleusterau'r uned newyddenedigol a chydymffurfio â safonau rheoleiddio. Mae gwelliannau eraill yn cynnwys:
 - Sefydlu gwasanaeth therapi a ariennir ar gyfer BILI Hywel Dda a BILI Betsi Cadwaladr
 - Llwybr i gymorth seicolegol yn BILI Betsi Cadwaladr, gyda phresenoldeb uned gorfforol bob pythefnos
 - Cyflwyno Gofal Integredig i Deuluoedd yn seiliedig ar ddogfennaeth Cymru Gyfan
 - Gwell cyfleusterau gofal trosiannol

- Cyfleusterau teuluol pwrpasol mewn unedau lle mae datblygiadau cyfalaf wedi'u cwblhau neu lle mae cynlluniau i gyflawni hynny yn y dyfodol agos
- Adolygu marwolaethau ar lefel leol a rhwydwaith, yn seiliedig ar y Pecyn Cymorth Marwolaeth Amenedigol
- Mae'r Rhwydwaith hwn wedi datblygu dangosfwrdd Newyddenedigol Cymru Gyfan sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch a pherfformiad; yn darparu sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru; yn darparu cyfrwng ar gyfer monitro mesurau'r NNAP ledled Cymru; yn cefnogi ceisiadau busnes WHSSC a Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar ddarpariaeth gwasanaethau newyddenedigol.

Blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol

- Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau Newyddenedigol dros y 12 mis nesaf yn cynnwys gwaith parhaus i gyflwyno gwasanaeth cludo babanod newydd-anedig 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar draws y De, a sicrhau bod y capasiti gofal critigol cywir gyda'r gweithlu priodol ar waith ledled y De. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl hefyd i fyrddau iechyd barhau i weithio gyda'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol i sicrhau bod eu cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol yn ddigon cadarn i gyflawni Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan a gwelliannau ar draws y gwasanaeth.
- I'r dyfodol, bydd y Rhaglen Adolygiad Newyddenedigol gan Gymheiriaid, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2019, yn adolygu cydymffurfiaeth â'r Safonau, ynghyd â'r mesurau perfformiad cytunedig, canllawiau clinigol a pholisïau sy'n berthnasol adeg yr adolygiad.

Sut y bydd dyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2020-21 yn helpu i sbarduno newid / gwella perfformiad

- Mae gwasanaethau newydd enedigol byrddau iechyd yn cael eu hariannu trwy'r dyraniad refeniw dewisol blynyddol, a bydd byrddau iechyd yn amlinellu eu blaenoriaethau lleol mewn perthynas â gwasanaethau newyddenedigol yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP). Mae WHSSC yn rheoli'r rhan fwyaf o gyllideb byrddau iechyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau Gofal Dwys Newyddenedigol (Lefel 4) a Dibyniaeth Uchel Newyddenedigol (Lefel 3). Mae'r gyllideb ar gyfer Unedau Gofal Arbennig Babanod yn cael ei rheoli gan y Byrddau Iechyd.
- Rhwng 2015 a 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi bron i £110 miliwn mewn datblygiadau newyddenedigol ledled Cymru. Mae'r buddsoddiad wedi'i wneud ar draws amryw o safleoedd aciwt allweddol yng Nghymru gyda'r nod o leihau nifer y trosglwyddiadau o famau a babanod trwy ddarparu amgylchedd arbenigol sy'n cydymffurfio â'r gofynion o ran gofod i sicrhau bod gofal babanod yn ddiogel ac effeithiol. Mae'r cyllid ar draws y cyfnod hwn yn cynnwys:-

- £19 miliwn wedi'i fuddsoddi yn y Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (SuRNICC) yn Ysbyty Glan Clwyd, a agorwyd gan y Prif Weinidog ym mis Medi 2018;
- £37 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer y datblygiadau Cyfnod II yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, sydd i'w cwblhau yn 2019;
- £25 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer Cyfnod II o'r cynllun Menywod a Phlant yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, sydd i'w gwblhau yn 2020;
- £10 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer Capasiti Newyddenedigol ac Ôl-enedigol ar safle Ysbyty Singleton, sydd i'w gwblhau ganol 2020;
- £6 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer yr uned newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful, a gwblhawyd yn 2018;
- £2 filiwn wedi'i fuddsoddi mewn gwaith ar yr uned newyddenedigol ar safle Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd, a agorwyd yn ystod gwanwyn 2017
- £10 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn gwaith newyddenedigol cyfnod I yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac yn Ysbyty Glangwili fel y gellir gwneud buddsoddiad pellach.

Costau deddfwriaeth

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Cyhoeddwyd asesiad effaith rheoleiddiol ochr yn ochr â'r Bil ym mis Mawrth, gan amlinellu'r amcangyfrif o gostau a manteision posibl y ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae rhai costau i sefydliadau yn anhysbys gan nad yw data perthnasol yn cael ei gasglu gan y sefydliadau hynny i ddarparu gwaelodlin a gan fod diffyg data cymaradwy i ddarparu sail amcangyfrif o'r cynnydd posibl mewn llwyth gwaith. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwmo i weithio gyda rhanddeiliaid i gasglu a monitro data cyn ac ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth, i helpu i asesu effaith y ddeddfwriaeth.

Rydym wedi dyfarnu contract i gefnogi'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer y Bil ac i gefnogi ein hymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo. Yn 2020-21, rydym wedi dyrannu hyd at £0.600 miliwn i godi ymwybyddiaeth o'r Bil, a £0.325 miliwn i'r ymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo, sy'n cefnogi ein polisi o annog dewisiadau eraill yn lle cosbau corfforol ac yn darparu gwybodaeth a chyngor ar dechnegau rianta cadarnhaol yn fwy eang. Byddwn hefyd yn dyrannu hyd at £0.030 miliwn ar gyfer ymchwil gymdeithasol i olrhain lefelau ymwybyddiaeth a safbwyntiau ar y Bil, a hyd at £0.043 miliwn i gefnogi ymgysylltu â phobl ifanc trwy Plant yng Nghymru.

Mae costau eraill yn ymwneud â'r Bil yn ystod 2020-21 yn gostau cyfle naill ai i Lywodraeth Cymru neu i sefydliadau sy'n gweithio gyda ni ar roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn effeithiol

Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019

Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), gan amlinellu costau a manteision llawn yr opsiwn a ffeirir ar gyfer gweinyddu'r ceisiadau a'r gwiriadau cymhwysra mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant. Yr opsiwn a ffafriwyd adeg cwblhau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Rhagfyr 2018) oedd defnyddio'r system Gwasanaethau Gofal Plant bresennol ar gyfer Gofal Plant Di-dreth a weinyddir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Cwblhawyd gwaith 'Darganfod' pellach rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2019 i sefydlu yn fwy manwl y costau a'r amserlenni cyflawni arfaethedig ar gyfer defnyddio'r System Gwasanaethau Gofal Plant.

Rhodddwyd ystyriaeth briodol i'r costau o ganlyniad i'r gwaith 'Darganfod' a materion a phryderon perthnasol yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg, lefelau gwasanaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, safbwyntiau presennol Awdurdodau Lleol ac adolygiad polisi Llywodraeth Cymru, gan arwain at argymhelliad na ddylid defnyddio Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn y tymor byr i ganolig. Cymeradwywyd yr argymhelliad hwn gan Weinidogion ar 17 Gorffennaf 2019 (MA-P-JM-0436-19). Am y tro, mae awdurdodau lleol yn fodlon parhau i wirio cymhwysra â llaw.

O ganlyniad, ni ragwelir bod unrhyw gostau yn gysylltiedig â rhoi Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019 yn ystod 2020-21.

Dechrau'n Deg

Fel y nodir uchod, bydd £3.5 miliwn ychwanegol yn cael ei ddyrannu yn 2020-21 i adeiladu ar waith Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, gan ein galluogi i gyrraedd mwy o blant a theuluoedd sydd angen cymorth yn y blynyddoedd cynnar.

Ar 1 Ebrill 2019, daeth grant refeniw Dechrau'n Deg yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau (CCG). Mae'r CCG yn cynnwys 7 rhaglen (Gofal Plant a Chwarae, Cymunedau am Waith a Mwy, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc (Sydd Mewn Perygl o Droseddu (PPE), Cronfa Dydd Gŵyl Dewi), gan alluogi ALLau i ddefnyddio dull mwy hyblyg i wella ac integreiddio darpariaeth gwasanaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar. Mae gan ALLau hyblygrwydd llwyr i gyfarwyddo eu cyllid CCG ar draws y 7 rhaglen hyn, gan eu galluogi i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Nid yw cyfraniad Dechrau'n Deg o fewn y grant newydd wedi newid ers 2019-20, gan gadarnhau ein hymrwymiad parhaus i flaenoriaethu ymyrraeth, atal a chymorth i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant.

Mewn cydnabyddiaeth o'r hyblygrwydd newydd mewn cyllidebau a ganiateir gan y CCG, erbyn hyn mae gan Awdurdodau Lleol yr hyblygrwydd i ddyrannu unrhyw ran o'u cyllideb CCG gyffredinol ar gyfer allgymorth h.y. yn dibynnu ar anghenion lleol ac, ar gais ein rhanddeiliaid, rydym wedi dileu'r rhwystrau i hyn.

Rydym eisiau adeiladu ar gyflawniadau sylweddol rhaglen Dechrau'n Deg a dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda, yn enwedig o ran sut y gallwn ni ddyfnhau trefniadau partneriaeth, cydweithio ac amlasiantaethol ar draws sectorau i gefnogi plant ifanc a'u teuluoedd. Bydd y gyllideb ar gyfer 2020-21 yn darparu buddsoddiad o £2.55 miliwn i archwilio sut y gellid creu system Blynyddoedd Cynnar, yn lleol ac yn genedlaethol. Bwriad ein gwaith ar system Blynyddoedd Cynnar integredig yw

sicrhau bod ein holl raglenni yn dod ynghyd yn ddi-dor i sicrhau'r gwerth gorai i rieni a phlant, o'r adnoddau prin sydd ar gael. Mae'r gwaith hwn yn ennill momentwm ac mae wedi datblygu partneriaethau gwaith cryf ar draws naw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB). Yn ogystal, byddwn yn buddsoddi £0.3 miliwn mewn darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Ers ei sefydlu, mae Dechrau'n Deg wedi buddsoddi mwy na £62.5 miliwn o gyfalaf yn datblygu'r seilwaith sydd ei angen ledled Cymru i gyflawni'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys creu lleoliadau gofal plant newydd i ddarparu tua 9,000 o lefydd rhan-amser o safon uchel sydd eu hangen ar gyfer plant 2-3 oed a buddsoddiad sylweddol i ddatblygu llety ar gyfer y timau amlasiantaethol sy'n cyflawni'r rhaglen. Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2020-21 yw £4.529 miliwn, a bydd awdurdodau lleol yn parhau i gael eu hannog i ddefnyddio dull strategol i gynllunio rhaglenni cyfalaf, gan gynnwys Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, y Gymraeg a'r Cynnig Gofal Plant fel y gellir cyflawni blaenoriaethau allweddol mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

Ar 1 Ebrill 2019, daeth grant referniw Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Nid yw dyraniad Teuluoedd yn Gyntaf o fewn y grant newydd wedi newid ers 2019-20 (ond gall ALLau fod yn hyblyg gyda'r cyllid hwn fel rhan o'r CCG), sy'n cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i'r rhaglen bwysig hon. Mae'r buddsoddiad parhaus hwn yn helpu teuluoedd i greu amgylcheddau cefnogol a chyfoethog ar gyfer eu plant, ac mae'n helpu i leihau mynychder profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n effeithio ar ganlyniadau tymor hwy.

Tlodi plant

Mae tlodi wedi'i gynnwys fel blaenoriaeth ychwanegol yn y broses o gynllunio'r gyllideb, sydd wedi helpu i lywio'r ffordd mae cyllidebau wedi'u dyrannu. Gweithredodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fel eiriolwr dros dlodi i sicrhau ffocws ar wella canlyniadau ar gyfer aelwydydd incwm isel yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb.

Cydnabyddir yn eang fod gan bob portffolio gyfraniad i'w wneud at drechu tlodi. Mae ein dull trawslywodraethol yn golygu nad oes unrhyw gyllideb dlodi benodol; yn hytrach, mae cyllid sylweddol o bob cwr o'r llywodraeth yn cael ei gyfarwyddo at gamau gweithredu a fydd yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion tlodi plant.

Datblygwyd y Gyllideb hon yn erbyn cefndir o ansicrwydd digynsail a pharhaus. Mae blynyddoedd o fesurau cyni wedi arwain at ostyngiad mewn cyllidebau a chwalu'r seilwaith cymdeithasol a adeiladwyd dros flynyddoedd lawer i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae pob arwydd yn awgrymu y bydd lefelau tlodi plant yn codi yng Nghymru o ganlyniad uniongyrchol i ddiwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU. Ar ben hynny, mae sgil-effeithiau ymadael â'r UE yn debygol o fod yn sylweddol a hirhoedlog.

Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd hynny lle gallwn ni gael yr effaith fwyaf gyda'r ysgogiadau sydd ar gael i'n helpu ni i gyflawni amcanion ein Strategaeth Tlodi Plant.

Rydym wedi gwneud buddsoddiad ychwanegol i helpu plant i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn hollbwysig i ddatblygiad hirdymor plant a'u cyflawniadau yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys y dyraniadau canlynol sy'n ceisio trechu tlodi plant:

Cynnig Buddsoddi	Maes Trawsbynciol	Dyranriad	Disgrifiad
Tlodi Mislif	Tlodi	£0.22 miliwn (MEG yr Asiantaeth Cynnal Plant)	Mae cyllid tlodi mislif yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu cynhyrchion ar gyfer y mislif i fenywod sy'n wynebu anhawster ariannol.
Urddas Mislif	Tlodi	£3.1 miliwn (MEG yr Asiantaeth Cynnal Plant a'r MEG Addysg)	Cychwynnodd y cyllid yn 2018-19 a bydd yn parhau yn 2020-21. Mae hyn yn cynnwys cyllid i hyrwyddo urddas mislif yn y sector Addysg Bellach.
Ymestyn y mynediad at y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD)	Tlodi	£3.2 miliwn (MEG Addysg)	Diben y GAD yw gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) a Phlant sy'n Derbyn Gofal (LAC) mewn Dosbarthiadau Derbyn ac ym Mlynnyddoedd 3, 7 a 10. Y bwriad yw goresgyn y rhwystrau traddodiadol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu llawn botensial. Y cynnig yw ymestyn y mynediad at y GAD i fwy o grwpiau blwyddyn.
Cynllun peilot lwfans brechwast £1 am ddim i ddisgyblion eFSM mewn ysgolion uwchradd	Tlodi	£0.45 miliwn (MEG Addysg)	Nod y cynnig yw cefnogi astudiaeth ddichonoldeb sy'n gysylltiedig â chynllun peilot a fydd yn cychwyn ym mis Medi 2020 dros ddwy flynedd ariannol (£450,000 yn 2020/21 a £150,000 yn 2021/22). Y nod yw datblygu, treialu a gwerthuso amrywiaeth o fodolau clwb brechwast mewn amrywiaeth o ysgolion ym mhedwar rhanbarth Cymru, gan gydnabod cost sylweddol bosibl cyflwyno'r cynllun yn genedlaethol.
Ehangu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (SHEP)	Tlodi	£1.8 miliwn (MEG Addysg)	Nod SHEP yw mynd i'r afael â materion megis colli dysgu dros y gwyliau, allgau cymdeithasol ac ansicrwydd bwyd, ac mae wedi'i hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ers 2017.
Ymestyn y cynllun peilot gwyliau llwglyd i gyrraedd 10,000 o blant a darparu 200,000 o brydau bwyd	Tlodi	£1 miliwn (MEG Addysg)	Mae cynllun peilot Gwaith Chwarae Gwyliau Llwglyd yn galluogi lleoliadau gwaith chwarae a chymunedol presennol ledled Cymru i ddarparu bwyd i blant sy'n mynychu'r ddarpariaeth chwarae. Gydol gwyliau haf 2019, mae bwyd wedi'i ddarparu ledled Cymru mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o amddifadedd i helpu i fynd i'r afael â 'newyn gwyliau'.
Cynyddu Grant Amddifadedd Disgyblion Blynnyddoedd Cynnar (GADBC) i gynnig £1,150 i bob dysgwr	Tlodi	£6.6 miliwn (MEG Addysg)	Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cynnig cyllid ychwanegol i geisio goresgyn y rhwystrau ychwanegol mae dysgwyr difreintiedig yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag cyflawni eu potensial llawn. Cyhoeddwyd gwerthusiad o'r GADBC, sydd wedi bod ar waith ers 2015/16, yn 2018. Un casgliad oedd bod prif gyfyngiadau'r grant yn ymwneud â lefel y cyllid, ei ddsbarthiad i leoliadau nas cynhelir a'r dulliau o nodi plant cymwys.

Mae dyraniadau o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn cyfrannu at drechu tlodi plant yn 2020-21 yn cynnwys:

- **Talebau Cychwyn Iach, y Cynllun Llaeth Meithrin a fitaminau gwerth £6.9 miliwn** – talebau ar gyfer menywod beichiog, mamau newydd a phlant o dan bedair oed o aelwydydd incwm isel i brynu ffrwythau a llysiau, llaeth a fformiwla babanod ac ychwanegyn aml-fitamin am ddim. Mae'r Cynllun Llaeth Meithrin yn darparu diod o laeth/fformiwla babanod ar gyfer plant o dan bump oed mewn dwy awr neu fwy o ofal plant.
- **Cynllun Gwên £3.7 miliwn** – helpu i atal pydredd dannedd mewn plant o'u geni hyd at bump oed, gyda gofal ataliol yn cael ei ddarparu i feithrinfeydd ac ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd.

I'r dyfodol, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn arwain adolygiad o raglenni cyllid Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar fywydau plant sy'n byw mewn tlodi.

Gofal plant

Mae darparu'r Cynnig Gofal Plant (y Cynnig) yn cefnogi teuluoedd sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed ledled Cymru, gan helpu rhieni i dderbyn cynigion swydd a hybu eu dewisiadau cyflogaeth, gan wella amgylchiadau eu teulu. Cyflwynwyd y Cynnig yn llawn ym mis Ebrill 2019, flwyddyn yn gynt na'r disgwyl. Mae adborth o'r cyfnod gweithredu cyntaf yn dangos ei fod yn cael effaith gadarnhaol trwy helpu rhieni yn ariannol a'u galluogi i gydbwysu gofynion gwaith a theulu.

Mae £20 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r gyllideb hon, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £60 miliwn yn 2020-21, er mwyn cefnogi'r rhaglen dreigl a arweinir gan y galw. Disgwylir y bydd y defnydd o'r rhaglen yn cynyddu i 57%, gyda'r nod o gyrraedd y targed o 65% y flwyddyn ganlynol. Mae'n bosibl y bydd y galw yn rhagori ar y lefel gyllideb uwch, ond bydd hynny'n cael ei fonitro a'i reoli yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd yn dyrannu hyd at £81 miliwn o gyllid cyfalaf dros sawl blwyddyn o 2018-19 ymlaen i gefnogi cydleoli darpariaeth bresennol y Cyfnod Sylfaen gyda darpariaeth y Cynnig Gofal Plant newydd ar un safle, lle bo hynny'n bosibl, ac i sicrhau bod digon o ofal plant yn yr ardaloedd priodol, gyda ffocws penodol ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd lle nad oes digon o wasanaethau gofal plant ar hyn o bryd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd o amddifadedd.

Mae gan y Cynnig y potensial i fod yn sbardun ar gyfer trawsnewidiad ehangach yn y sector gofal plant, gan gynyddu hygyrchedd, fforddiadwyedd ac argaeledd gofal plant i bob rhiant a phlant o bob oedran. Bydd hyn yn adeiladu ar y cymorth arall rydym yn ei ddarparu ar gyfer y sector gofal plant a chwarae ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- Darparu £1.43 miliwn y flwyddyn i'r consortia Cwlwm, sy'n cynnwys y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru, i gefnogi'r sector gofal plant a'n helpu ni i ddatblygu atebion gofal plant hyblyg ac arloesol i ddiwallu anghenion teuluoedd.

- Darparu cyllid i Chwarae Cymru i ddarparu cymorth strategol i Awdurdodau Lleol a phartneriaid i weithredu'r Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol; datblygu canolfan ragoriaeth ryngwladol ynghylch chwarae; rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phob maes polisi sy'n gysylltiedig â chwarae; a rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu gweithlu chwarae.
- Darparu cyllid i Gofal Cymdeithasol Cymru fel partner cyflenwi allweddol a'r cyngor sgiliau sector ar gyfer y gweithlu gofal plant. Dyrennir cyllid i Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gweithredu'r cynllun gweithlu 10 mlynedd a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr 2017, gan gynnwys cyfres newydd o gymwysterau gofal plant a lanswyd ym mis Medi 2019.
- Darparu cyllid i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel partner cyflenwi allweddol er mwyn cyflawni gwaith penodol yn ymwneud â gofal plant, gan gynnwys datblygu porth cofrestru ar-lein ar gyfer darparwyr gofal plant, cynnal arolwg o ddarparwyr a gweinyddu'r cynllun cymeradwyo Gofal Plant yn y Cartref ("nani").
- O dan ein rhaglen Brentisiaeth a chan ddefnyddio Cronfa Gymdeithasol Ewrop, aethom ati i gyflwyno ein rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (PfS) i helpu ymarferwyr presennol i uwchsgilio ar draws lefelau 2 a 3. Mae PfS wedi bod yn llwyddiannus o ran darparu cymorth a chyfleoedd i dros 950 o ymarferwyr presennol i uwchsgilio. Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ymestyn y rhaglen hyd at 2023 i barhau i uwchsgilio ymarferwyr presennol ar draws lefelau 2, 3 a 4. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £715,000 ar gyfer 2020/21 i gynnig darpariaeth debyg yn y Dwyrain er mwyn hwyluso Rhaglen Genedlaethol.
- Rydym wedi bod yn gweithio hefyd gyda Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd i ddatblygu ein prosiect Childcare Works. Cynllun peilot bach ym maes cyflogaeth yw hwn sy'n ceisio cefnogi'r rhai sy'n ddi-waith ar hyn o bryd ond sydd â'r sgiliau a'r priodoleddau personol priodol i weithio gyda'n plant ieuengaf. Mae'r prosiect yn cynnig profiad gwaith a hyfforddiant rhagarweiniol pwrpasol i alluogi cyfranogwyr i ddilyn gyrfa yn y sector. Gan adeiladu ar ganlyniadau llwyddiannus Cyfnod 1, bydd ail gyfnod y prosiect yn cefnogi 84 o gyfranogwyr yng Nghonwy, Wrecsam, Gwynedd, Ynys Môn, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Torfaen, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Bydd yn rhedeg tan fis Rhagfyr 2020 gyda'r bwriad o archwilio sut y gellid sefydlu'r llwybr hyfforddiant hwn fel cyflwyniad i'r sector.

Prosiect £21.5 miliwn a ariennir ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, yw **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)**. Cychwynnodd PaCE yn y Gorllewin ym mis Gorffennaf 2015, cyn ei gyflwyno ar draws gweddill Cymru o fis Tachwedd 2015 ymlaen. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn cael ei hariannu hyd at fis Mawrth 2023.

Mae PaCE yn targedu rhieni economaidd anweithgar sy'n 25 oed a hŷn a rhieni 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Gofal plant fydd y prif rwystr sy'n atal pob rhiant sy'n ymrestru ar PaCE rhag cael mynediad at gyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae yna rwydwaith o 45 o gynghorwyr PaCE sy'n gweithio mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru, gan helpu rhieni i oresgyn eu rhwystrau gofal plant a rhwystrau eraill i'w helpu i symud tuag at gyflogaeth gynaliadwy. Mae PaCE yn adeiladu ar wasanaethau a gynigir trwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf ac yn gweithredu y tu allan i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig i ategu prosiectau eraill megis Cymunedau am Waith.

Mae cynghorwyr PaCE yn cynnig cymorth unigol ac wedi'i deilwra i rieni sy'n ymrestru ar y prosiect PaCE, a gall gynnwys talu am gostau gofal plant tra bod y rhiant yn hyfforddi neu'n cael profiad gwaith i'w helpu i wella ei ragolygon cyflogaeth ac i ddod o hyd i gyflogaeth sy'n gynaliadwy.

Hyd at 30 Medi 2019, mae PaCE wedi gweithio gyda thros 4,500 o rieni, ac mae dros 1,700 o'r rheini wedi cychwyn gwaith.

Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) yn cael ei ddarparu trwy Grant Cynnal Refeniw (RSG) Awdurdodau Lleol. Er bod grant neu gontract wedi bod ar waith yn darparu cymorth allanol i'r rhwydwaith FIS, mae'r Is-adran Plant a Theuluoedd bellach yn darparu cymorth uniongyrchol i'r Rhwydwaith FIS i sicrhau ymwybyddiaeth o bolisiâu a rhaglenni Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a all effeithio ar blant a theuluoedd ac i alluogi rhannu arfer da ledled Cymru.

Cymorth i rieni

Yn 2020-21, rydym wedi dyrannu hyd at £0.325 miliwn i gefnogi ein hymgyrch Magu Plant - Rhowch Amser Iddo. Mae'r ymgyrch yn cefnogi ein polisi o annog opsiynau cadarnhaol yn lle cosb gorfforol, ynghyd â darparu gwybodaeth a chyngor i rieni a theuluoedd ar dechnegau rhianta cadarnhaol ehangach. Rydym yn bwriadu ymestyn ystod oedran yr ymgyrch yn ystod 2020-21. Ar hyn o bryd, mae'r ymgyrch yn targedu rhieni plant 0-7 oed, a byddwn yn ymestyn hyn i gwmpasu rhieni plant 0-18 oed.

Rydym hefyd wedi cynnal ymarfer mapio i asesu argaeledd cymorth i rieni ledled Cymru ar hyn o bryd, ac rydym yn ystyried gyda'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta i ba raddau y bydd angen sicrhau bod cymorth ac adnoddau ychwanegol ar gael i rieni.

Diogelu

Yn bennaf, mae cyllid ar gyfer Diogelu yn cefnogi gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ac yn hyrwyddo agenda ataliol i wella canlyniadau llesiant ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Mae blaenoriaethau Diogelu yn dod o dan *Symud Cymru Ymlaen* sy'n amlinellu'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru ac yn eu cefnogi. Mae *Ffyniant i Bawb* yn cynnwys gofal cymdeithasol fel un o'r pum prif flaenoriaeth ac yn cydnabod bod angen mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n seiliedig ar gydweithrediad i

ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant, i'w cefnogi nhw i aros gyda'u teuluoedd os yw'n ddiogel gwneud hynny ac i ddiogelu plant rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Er mwyn hyrwyddo'r nodau hyn, mae cyllid yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Polisi Diogelu. Mae hyn yn cynnwys yn 2019-2020: lansio Gweithdrefnau Diogelu Cymru (WSP) a datblygu a darparu hyfforddiant wedi'i alinio; cefnogi Wythnos Ddiogelu 2019 a datblygu polisi a chanllawiau ymarfer ym maes diogelu, sy'n hyrwyddo ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn lle mae'r plentyn yn teimlo bod rhywun yn gwrando arno ac yn gofalu amdano.

Yn 2019-2020, mae hyn yn cynnwys:

- datblygu a chyhoeddi canllawiau Rhannu Gwybodaeth er mwyn Diogelu Plant;
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol a chymryd camau a nodir yn y cynllun hwnnw sy'n berthnasol i'r cyfnod ariannol;
- datblygu polisi ac ymgynghori ar ganllawiau statudol i ddiogelu plant rhag dioddef cam-fanteisio'n rhywiol ar blant;
- datblygu ac ymgynghori ar Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol ar gyfer lleoliadau gofal plant, gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd.

Mae cyllid diogelu yn cefnogi gwaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Byrddau Diogelu rhanbarthol fel bod mesurau ar waith i gefnogi ymarfer cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddiogelu plant ar draws asiantaethau a ledled Cymru. Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau ymarfer wedi'u halinio a gyhoeddiwyd ym mis Tachwedd 2019 ar gyfrwng digidol yn hyrwyddo ymarfer diogelu da cyson ymhellach.

Yn 2020-21, bydd blaenoriaethau yn cynnwys parhau i gefnogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol i sicrhau bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau ymarfer cysylltiedig yn cael eu mabwysiadu mewn ymarfer o ddydd i ddydd ar draws gweithluoedd perthnasol, ynghyd â sicrhau cyllid ar gyfer y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sy'n darparu cymorth i fyrddau rhanbarthol a chyngor i Weinidogion ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru. Bydd cyllid ar gyfer Wythnos Ddiogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn 2020-21, a bydd hyn yn cyfrannu at atal a diogelu plant sy'n wynebu risg.

Yn 2020-21, bydd cyllid yn cefnogi cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol a nodir ar gyfer y cyfnod ariannol yn y cynllun; datblygu a darparu hyfforddiant i gefnogi cyflwyno canllawiau statudol newydd i ddiogelu plant rhag dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant a Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol newydd. Bydd datblygiad polisi yn cynnwys Cod Ymarfer gwirfoddol ar gyfer cyrff nad ydynt yn bartneriaid diogelu perthnasol ar hyn o bryd a chanllawiau ar faterion diogelu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer plant.

Gwasanaethau Mabwysiadu gan gynnwys cymorth ar ôl Mabwysiadu

Mae plant wedi'u mabwysiadu ymhlith y plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru; maent yn blant y mae dewisiadau eraill ar eu cyfer wedi methu ac a fyddai'n debygol o 'dderbyn gofal' am weddill eu plentyndod pe na baent yn cael eu mabwysiadu.

Bydd gwella cymorth yn sicrhau bod y buddsoddiad sydd eisoes wedi'i wneud i ddiogelu'r plant hyn yn arwain at y canlyniadau gorau, a bydd yn annog mwy o deuluoedd i ystyried mabwysiadu.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i asesu angen plant sydd wedi'u mabwysiadu am gymorth. Erbyn hyn, maent yn bodloni'r gofyniad hwn yng nghydestun gwasanaethau 'Fframwaith Cymorth Mabwysiadu' y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Yn 2019-20, dyrannwyd £2.3 miliwn i awdurdodau lleol i'w galluogi i gryfhau eu darpariaeth gwasanaethau mabwysiadu. Caniataodd y cyllid i awdurdodau lleol ddyrannu adnoddau ychwanegol i wasanaethau mabwysiadu sy'n cefnogi atal chwalu neu darfu ar lleoliadau mabwysiadu, gan leihau'r posibilrwydd o blant yn dychwelyd i'r system ofal, cyhyd ag y bo modd. Bydd awdurdodau lleol yn gweithio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol fel sy'n briodol i gefnogi mabwysiadwyr posibl plant ag anghenion cymhleth a chydnerthedd lleoliadau mabwysiadu. Bydd y grant hen yn dal i fod ar gael yn 2020-21.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i ddatblygu Cofrestr Fabwysiadu Cymru ac i gaffael cronfa ddata newydd gyda'r capasiti TG diweddaraf. Mae'r gwelliannau newydd hyn i'r gofrestr yn sicrhau ei bod yn darparu cronfa ddata wedi'i theilwra ar gyfer asiantaethau mabwysiadu (gan gynnwys asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol) yng Nghymru. Bydd yn darparu data gwell o lawer i sbarduno gwelliant mewn gweithgarwch mabwysiadu ledled Cymru, yn enwedig mewn perthynas â'r plant hynny sy'n anoddach eu lleoli gyda darpar rieni. Bydd y system newydd yn gwella trefniadau cymorth mabwysiadu hefyd trwy ddarparu system 'cadw mewn cysylltiad' ar gyfer mabwysiadwyr a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae cost barhaus yn gysylltiedig â gweithredu'r Gofrestr.

Mabwysiadu: Meysydd allweddol ar gyfer buddsoddiad yn ystod 2020-2021

Ar hyn o bryd, mae tua 350 o blant yn disgwyl cael eu mabwysiadu ledled Cymru. Bydd cyllid parhaus yn helpu i leihau nifer y plant sy'n disgwyl gadael gofal a chael eu mabwysiadu a nifer y lleoliadau mabwysiadu sy'n chwalu.

Fframwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol:

Bydd buddsoddiad yn parhau i gefnogi Fframwaith Cymorth Mabwysiadu y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol sy'n darparu'r strategaeth ar gyfer gwella cymorth mabwysiadu ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- cymorth cyffredinol sy'n golygu mwy na mynediad at iechyd ac addysg; mae'n golygu hefyd cael cyngor arbenigol ar fabwysiadu a'r cyfyng-gyngor sy'n wynebu teuluoedd mabwysiadu yn enwedig e.e. hanes bywyd a chysylltiad â theulu biolegol, ynghyd â chael help 'ymwybyddiaeth o fabwysiadu' gan wasanaethau megis iechyd ac addysg
- cymorth arbenigol ac wedi'i dargedu, sef help gyda materion penodol tymor byr neu dymor hwy

Gwaith Taith Bywyd

Nod Gwaith Taith bywyd yw helpu plentyn i wneud synnwyr o'i orffennol a deall ei sefyllfa bresennol er mwyn ei helpu i symud ymlaen i'r dyfodol. Bydd cyllid yn galluogi gwelliant parhaus y gwasanaeth hwn i sicrhau bod pob plentyn wedi'i fabwysiadu yn gallu cael mynediad at ei waith taith bywyd.

TESSA

Buddsoddiad i ddarparu arian cyfatebol i'r arian sydd ar gael gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig mewn Mabwysiadu (TESSA), a sefydlwyd yn ddiweddar. Bydd y cyllid yn gwella'r gwasanaeth presennol trwy ddarparu:

- Ffocws ar ymyrraeth gynnar a chymorth cyn gynted ag y bydd pryderon ar ôl setlo i mewn wedi codi
- Aseidiadau seicolegol proffesiynol ar gyfer plant, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu â rhieni a staff cymorth eraill
- 6 sesiwn cymorth therapiwtig i rieni a ddarperir gan dimau sy'n cynnwys seicolegydd clinigol a rhieni mabwysiadu profiadol (rhieni partner)
- Cymorth parhaus i rieni partner.

Cymorth Marchnata a Recriwtio

Bydd buddsoddiad yn cael ei gyfarwyddo tuag at gynllun marchnata a recriwtio integredig i gynyddu nifer y mabwysiadwyr sy'n cael eu recriwtio. Bydd rhan o'r buddsoddiad hwn yn cael ei gyfarwyddo tuag at y cynllun Mabwysiadu gyda'n Gilydd sy'n canolbwyntio ar y plant hynny sy'n disgwyl hiraf am leoliad (disgwyl i gael eu paru ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru am 12 mis neu fwy), sef plant na all gael eu lleoli gan ranbarthau naill ai gyda'u mabwysiadwyr eu hunain neu yng nghronfa ehangach Cymru o fabwysiadwyr sydd ar gael. Mae gwasanaethau therapiwtig cynnar yn sail i'r prosiect.

Cofrestr Fabwysiadu Cymru

Bydd buddsoddiad parhaus yn cefnogi cyflwyno'r newid diweddar a wnaed i'r Cyfarwyddiadau sy'n sefydlu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (sef Cyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) (Diwygio) 2019). Erbyn hyn, rhaid i bob asiantaeth fabwysiadu yng Nghymru atgyfeirio manylion darpar fabwysiadwyr unwaith iddynt gael eu cymeradwyo, a manylion plant y mae'r awdurdod lleol wedi'i awdurdodi i'w mabwysiadu, i Gofrestr Fabwysiadu Cymru o fewn mis, yn hytrach nag o fewn tri mis fel cynt. Bydd hyn yn cyflymu'r broses o baru plant â darpar fabwysiadwyr, gan leihau'r amser mae plant yn disgwyl i gael eu lleoli.

Cysylltiad â Brodyr a Chwiorydd

Yn ôl Astudiaeth Cohort Mabwysiadu Cymru, a gynhaliwyd gan Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd, mae rhwymedigaeth glir i sicrhau bod plant sydd wedi'u mabwysiadu yn cael cyfle i gael cysylltiad diogel ac ystyrlon â brodyr a chwiorydd

sy'n byw yn rhywle arall, pan fo hynny'n briodol, a bod teuluoedd mabwysiadu yn cael eu cefnogi'n llawn i hwyluso hyn, yn ôl yr angen. Bydd cyllid yn cael ei gyfarwyddo at ddatblygu dulliau o wneud trefniadau cysylltiad â brodyr a chwiorydd ledled Cymru.

Gwasanaethau eiriolaeth

Ymagwedd safonol at wasanaethau eiriolaeth statudol a ddarperir gan y chwe Chwmni Cydweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol Rhanbarthol yw NASA. Mae wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2017, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu hyd at £550,000 y flwyddyn i gefnogi cyflwyno'r dull hwn. Mae'r gwaith o gyflwyno NASA yn cael ei fonitro gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd o dan Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

Mae NASA yn amlinellu disgwyliadau cenedlaethol a rennir mewn perthynas â mynediad ac argaeledd eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae'n cael ei ategu gan y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol, elfennau cyffredin manyleb gwasanaeth a thempled adrodd, ac mae'n atgyfnerthu a sicrhau cynnig a phrofiad cyson ar gyfer plant ac ymarferwyr. Mae NASA yn llywio darpariaeth a gwelliant i'r dyfodol trwy adroddiadau meintiol ac ansoddol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae cynnig gweithredol o eiriolaeth yn rhan o NASA, ac fe'i darperir o dan yr amgylchiadau canlynol:

'Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gael cynnig gweithredol o eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (IPA) statudol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.'

Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd

Mae cyllideb CAF/CASS wedi cynyddu £0.414 miliwn i **£12.152 miliwn** ar gyfer 2020-21. Mae'r gyllideb yn cwmpasu costau staff a chostau rhedeg y sefydliad, ynghyd â chyllid grant i helpu rhieni sydd wedi gwahanu, yn ôl cyfarwyddyd y Llys Teulu, i gael cysylltiad â'u plant. Mae'r gyllideb hefyd yn ariannu darpariaeth y rhaglen Gweithio Gyda'ch Gilydd Er Lles Plant, sy'n helpu rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well i sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn cael blaenoriaeth.

Hawliau a hawliadau plant a phobl ifanc, gan gynnwys Young Wales

Bydd cyllid hyd at £0.991 miliwn yn 2020-21 yn cynorthwyo Plant yng Nghymru i weithredu'r cynllun y cytunwyd arno; mae hyn yn cynnwys cefnogi cyfranogiad trwy Young Wales. Hefyd, mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r gweithgarwch canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o CCUHP. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer contract hyfforddi gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i godi ymwybyddiaeth o CCUHP.
 - Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad gan blant a phobl ifanc, gan gynnwys cymorth ar gyfer gwefan Pobl Ifanc.
 - Hyrwyddo hawliau plant yn gyffredinol, a chefnogi'r ddyletswydd sylw dyledus.
- Ystyr 'Cynnig Gweithredol' yw rhannu gwybodaeth am hawl a hawliad statudol plentyn neu berson ifanc mewn amgylchiadau penodol i dderbyn cymorth gan

wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol. Mae Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn gwneud y 'Cynnig Gweithredol' i'r plentyn neu'r person ifanc yn uniongyrchol.

- Mae'r wybodaeth a rennir yn cynnwys esboniad o waith y gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol, yr hyn y gallai ac na allai ei wneud, sut y mae'n gweithredu ar sail safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plentyn neu berson ifanc, ei annibyniaeth a sut y mae'n gweithio dros y plentyn/person ifanc yn unig, ei bolisi ar gyfrinachedd a niwed sylweddol – mae'n egluro hawl statudol plant a phobl ifanc i dderbyn cymorth i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau yn ogystal â'u hawl i wneud sylw neu gwyno.
- Mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal am sut i ddefnyddio'r gwasanaethau eirioli amrywiol sydd ar gael.
- Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi adolygu'r Templed Cenedlaethol ar gyfer Adrodd a ddatblygwyd fel rhan o'r Dull Cenedlaethol gan lunio templed diwygiedig, sydd wedi'i dreialu am chwe mis.
- Mae'r cyfnod peilot wedi galluogi darparwyr a chomisiynwyr eiriolaeth i adolygu'r templed diwygiedig a gwneud sylwadau arno. Yn ystod y cyfnod hwn, mae darparwyr gwasanaethau eiriolaeth wedi parhau i lunio adroddiadau lleol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn ogystal ag adroddiadau rhanbarthol ar gyfer pob un o'r chwe rhanbarth comisiynu.
- Mae'r templed ar gyfer adrodd wedi cael ymateb da yn gyffredinol, ond y bwriad yw addasu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am ganlyniadau ar gyfer pobl ifanc yn fwy eglur.
- Bwriedir cynnwys gwybodaeth gan fersiwn peilot y templed cenedlaethol ar gyfer adrodd yn adroddiad blynyddol Grŵp Cynghori'r Gweinidog.
- **Llinell Gymorth Meic:** Meic yw'r llinell gymorth, gyngor ac eiriolaeth genedlaethol sy'n darparu un man cyswllt ar gyfer plant a phobl ifanc trwy Radffôn, negeseua gwib a neges destun.
 - Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y gweithgaredd hwn yn uniongyrchol, ond mae'n cynnal cyfarfodydd monitro'r contract yn rheolaidd â Pro-Mo Cymru a enillodd gontract dwy flynedd (a'r opsiwn ar gyfer 2 flynedd ychwanegol) ym mis Ebrill 2016 yn dilyn ymarferiad tendro cyhoeddus yn 2015.
 - Yn unol â thelerau'r contract ac ar sail awdurdod y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar yr opsiwn i ymestyn y contract am 2 flynedd arall, ar sylfaen adnewyddu blynyddol.
 - Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid gwerth £535,989 y flwyddyn (costau'n cynnwys TAW) i MEIC hyd at fis Mawrth 2020.
 - Ym mis Hydref, cytunodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i opsiynau caffael ar gyfer Gwasanaethau MEIC ar ôl mis Mawrth 2020. Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysebu manyleb dendro yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) ar gyfer parhau â'r gwasanaeth, a fydd yn hyblyg er mwyn galluogi a sicrhau cysondeb â blaenoriaethau Gweinidogol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn sefydliad hawliau plant annibynnol a sefydlwyd yn 2001. Prif amcan y Comisiynydd, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ariannu'r Comisiynydd Plant a'i swyddfa. Mae'r dyraniad cyllideb o £1.580m yn cynnwys costau rhedeg swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer 2020-21 a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Polisi a Gwasanaethau Chwarae, gan gynnwys Chwarae Cymru – gweler y wybodaeth uchod.

Gwasanaethau ar gyfer plant anabl

Mae cyllid craidd sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant anabl ar gael trwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Fel rhan o ddyraniad cyllid Cymru Iachach yn 2019-20, fe aethom ati ar y cyd i greu llwybr clinigol newydd ar gyfer cyfarpar cyfathrebu amgen a chynyddol (AAC). Defnyddiwyd £0.5m i ariannu therapyddion a gweithwyr cymorth lleferydd ac iaith ychwanegol mewn byrddau iechyd (a Felindre) a chyllideb fechan ar gyfer cyfarpar, er mwyn darparu gwasanaethau technoleg isel yn nes at adref ar gyfer oedolion a phlant sydd angen asesiad a thriniaeth lleferydd ac iaith a chyfarpar AAC. Hefyd, rydym wedi cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru newydd er mwyn disgrifio'r llwybr newydd yn gywir. Dylai hyn gynyddu gallu a sicrhau bod y gwasanaeth AAC cymhleth cenedlaethol yn diwallu anghenion yn well.

Hefyd, fel rhan o gyllid Cymru Iachach, dyrannwyd £0.5m er mwyn darparu cyfarpar prosthetig fel bod plant a phobl ifanc hyd at 25 oed yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau (er mwyn cydymffurfio ag oedrannau ein polisiau ar gyfer cefnogi pobl ifanc mewn addysg o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r rhai sy'n gadael gofal). Hefyd, bydd y cyllid yn helpu i ddatblygu Partneriaeth Chwaraeon Anabledd Iechyd, sef cynllun peilot llwyddiannus sy'n cynyddu nifer y plant a phobl ifanc (ac oedolion) sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon anabledd. Fe'i cynhelir mewn partneriaeth â Chwaraeon Anabledd Cymru. Bydd y cyllid hwn yn helpu i gyflwyno'r cynllun ledled Cymru yn 2020-21.

O'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym yn darparu cyllid refeniw gwerth £89m i fyrddau partneriaethau rhanbarthol trwy'r Gronfa Gofal Integredig er mwyn cefnogi gwaith integreiddio ac atal ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd cyfran o'r cyllid hwn yn 2020-21 yn cefnogi plant ag anghenion cymhleth. Gweler y disgrifiad manylach yn yr adran ar y Gronfa Gofal Integredig.

Trwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, bydd £8.2m ar gael i sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a *Cymru Iachach*. Defnyddir tua 30% o'r grant hwn i gefnogi cynlluniau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, a bydd rhywfaint o gymorth penodol ar gael ar gyfer plant anabl. Cyhoeddir datganiad ar y prosiectau llwyddiannus tua adeg cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Meysydd i graffu arnynt yn fanwl

4. Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol Plant a Phobl Ifanc

Mae'r cyllid gwerth £7.1m, a gyhoeddwyd yn 2019-20, ar gyfer Cadernid Meddwl yn cynnwys £6m (BEL 0030 Cyllid Iechyd Cymru) a £1.1m (BEL 0030 Cyllideb Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl). Dyrennir hyn ymhellach ar sail y canlynol:

- £2.5m i gefnogi'r Dull Ysgol Gyfan; a £0.5m yn ychwanegol yn 2020-21 (gweler isod).
- £3.2m o gymorth ychwanegol ar gyfer CAMHS ac ymyraethau cynnar; (dyrannwyd i fyrddau iechyd trwy'r 'cyllid gwella gwasanaethau' o 2019-20 ymlaen)
- £1.4m o gymorth ychwanegol ar gyfer mesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar lefel isel cymunedol trwy Fyrddau Partneriaethau Rhanbarthol.

Fel y nodwyd uchod, bydd cyllid ychwanegol gwerth £0.5m yn cael ei ddyrannu yn 2020-21, i BEL 0030 Iechyd Cymru, er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno cynlluniau peilot cwnsela ysgolion a mewngymorth CAMHS fel rhan o'r **dull ysgol gyfan**. Bydd hyn yn cynyddu cyfanswm buddsoddiad MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i £3m yn 2020-21. Buddsoddir £2 filiwn yn ychwanegol yn y dull 'ysgol gyfan' gan y MEG Addysg yn 2020-21.

Nid oes unrhyw newidiadau eraill i'r blaenoriaethau / dyraniadau ariannu ar gyfer 2020-21.

Mae amcanion eraill a threfniadau monitro ar gyfer yr elfennau eraill yn cynnwys:

➤ **CAMHS ac ymyraethau cynnar £3.2m**

Hysbyswyd y byrddau iechyd bod disgwyl i'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio i helpu i fodloni targedau amseroedd aros ar gyfer CAMHS gofal sylfaenol a gofal eilaidd mewn ffordd gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth â phob un o bum swyddogaeth Rhan 1 o'r Mesur a sicrhau bod systemau ar waith i gefnogi llwybr effeithiol a llif trwy CAMHS gofal sylfaenol, a, lle y bo angen, ymlaen i CAMHS arbenigol. Ar gyfer CAMHS gofal sylfaenol, mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwelliant ar gyfer byrddau iechyd mewn ymateb i'r adolygiad sicrwydd gan Uned Gyflawni'r GIG. Gofynnwyd i bob bwrdd iechyd ddatblygu cynlluniau gwelliant a adolygwyd wedyn gan swyddogion ac Uned Gyflawni'r GIG er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu yn gyson â'r argymhellion yn yr adroddiad unigol a dderbyniwyd gan fyrddau iechyd. Hefyd, roedd y cyllid yn cynnwys amodau i fyrddau iechyd gryfhau cysylltiadau rhwng CAMHS a'r rhaglen waith Dull Ysgol Gyfan.

Bydd effaith y cyllid hwn yn erbyn yr amcanion a nodir yn cael ei monitro trwy'r trefniadau monitro y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllun cyflenwi 2019-2022 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

➤ **Ymyraethau cynnar / ataliol lefel isel cymunedol £1.4m**

Mae £200,000 ar gael i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu gallu rhanbarthol mewn ffordd a fydd yn gwella mynediad i blant a phobl ifanc y mae angen gweithgarwch ymyrryd ac atal lefel isel arnynt. Mae cynigion yn ceisio datblygu gallu a chydgyssylltu amlasiantaeth ar lefel iechyd meddwl

sylyfaenol a fydd yn pontio gwasanaethau ataliol (h.y. y dull ysgol gyfan) a CAMHS arbenigol.

- Gan fod yr arian yn cael ei reoli ar lefel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, bydd y gwaith o fonitro'r cyllid hwn yn mynd rhagddo trwy ddulliau'r Gronfa Gofal Integredig, sy'n cynnwys chwe adroddiad misol ar gynnydd gweithgarwch.

Y Gronfa Trawsnewid Iechyd Meddwl:

Dyrannwyd y gronfa trawsnewid iechyd meddwl £7m, a ddechreuodd yn 2018/19, i fyrddau iechyd ar sail poblogaeth, fel y gwelir yn y tabl isod:

Bwrdd Iechyd	£m
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe*	0.902
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	1.339
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	1.488
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.007
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg*	1.130
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	0.849
Bwrdd Iechyd Powys	0.285
Cyfanswm	7.000

* Yn cynnwys addasiad dyraniad tybiannol gan fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi symud o Abertawe Bro Morgannwg i Gwm Taf.

Gofynnwyd i'r byrddau iechyd ddatblygu cynigion yn erbyn y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Ymestyn a safoni darpariaeth gwasanaethau mewn argyfwng a gwasanaethau tu allan i oriau, gan gynnwys bodloni disgwyliadau'r concordat gofal mewn argyfwng.
- Cynyddu gallu timau iechyd meddwl amenedigol i ymdopi â'r cynnydd yn y galw.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad 48 awr ar gyfer Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis, trwy gynnig ystod o ymyraethau amserol a phriodol.
- Datblygu gallu Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i blant a chynyddu'r ystod o gymorth sydd ar gael / datblygu cysylltiadau gwell ag ysgolion.
- Cyflawni'r Ddyletswydd Iechyd Meddwl i Adolygu Argymhellion (gan gynnwys adrodd ar ganlyniadau yn gyson a sut y gallwn gefnogi clinigwyr i ddefnyddio adnoddau wrth ymarfer o ddydd i ddydd).

Mae'r cyllid hwn oddi mewn i ddyraniadau'r byrddau iechyd erbyn hyn, ond bydd cynnydd yn erbyn y meysydd hyn yn cael ei fonitro trwy'r trefniadau y cytunir arnynt ar gyfer cynllun cyflawni 2019-2022 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Yn yr un modd, trwy'r gronfa gwella gwasanaethau a ddechreuodd yn 2019/20, roedd gan y byrddau iechyd hyblygrwydd i benderfynu a oedd eu cyllid yn cael ei

ddyrranu yn erbyn meysydd blaenoriaeth y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed.

Gofynnwyd i fyrddau iechyd ddatblygu cynigion i gyflwyno argymhellion Unedau Cyflawni'r GIG yn dilyn yr adolygiad sicrwydd o CAMHS gofal sylfaenol, a cheisio cyrraedd targedau amseroedd aros ar gyfer gofal sylfaenol a gofal eilaidd CAMHS mewn ffordd gynaliadwy. Gofynnwyd am gynigion i gynnwys camau gweithredu/gweithgareddau i wneud y canlynol:

- cryfhau cydymffurfiaeth â phob un o bum swyddogaeth Rhan 1 o'r Mesur
- sicrhau bod systemau ar waith i gefnogi llwybr effeithiol a llif trwy CAMHS gofal sylfaenol, ac os oes angen, i SCAMHS
- cefnogi staff ym maes CAMHS gofal sylfaenol i weithio'n fwy effeithiol trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu symudol yn well
- canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, gan gynnwys sut y bydd gwasanaethau'n cysylltu â'r *dull ysgol gyfan* o sicrhau llesiant emosiynol, o dan arweiniad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidgol.
- Gwella mynediad at wasanaethau mewn argyfwng, gwasanaethau tu allan i oriau a gwasanaethau seicolegol.

Arweiniodd hyn at ddyrranu'r symiau canlynol i fyrddau iechyd o gyllid gwella gwasanaethau cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Bwrdd Iechyd	2019-20 £000	2020-21 ymlaen £000
Aneurin Bevan	510	528
Betsi Cadwaladr	926	2,300
Caerdydd a'r Fro	462	700
Cwm Taf Morgannwg	565	593
Hywel Dda	412	638
Powys	50	100
Bae Abertawe	260	365

Yn ogystal â'r cyllid £7.1m a amlinellwyd yn yr adran uchod, ar ôl cytuno ar holl gynlluniau buddsoddi ehangach Byrddau Iechyd Lleol mewn iechyd meddwl, mae £1m arall wedi'i ddyrranu trwy'r cyllid gwella gwasanaethau er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc. Mae'r buddsoddiad arwyddocaol ac ystyrlon hwn yn dangos ymrwymiad parhaus i sicrhau bod iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth o hyd.

Hefyd, bydd effaith y cyllid hwn yn cael ei monitro trwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllun cyflawni 2019-2022 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Cronfa Trawsnewid (Cymru Iachach).

Mae nifer o gynigion yn y Rhaglen Trawsnewid yn ymwneud â newid sut mae gwasanaethau Iechyd Meddwl yn gweithio, ac maent yn cynnwys plant a phobl ifanc. Mae prosiectau Iechyd Meddwl wedi'u cymeradwyo fesul rhanbarth ac maent wedi'u disgrifio yn y tablau yn Atodiad 1.

Mae crynodebau o'r cynigion sydd wedi'u cyhoeddi ar gael yn y ddolen ganlynol:
https://llyw.cymru/cronfa-trawsnewid-iechyd-gwasanaethau-cymdeithasol-prosiectau?_ga=2.107667840.380344739.1576236034-1797206550.1576236034

Dylid nodi bod y ffigurau yn y tablau yn Atodiad 1 wedi'u cymeradwyo gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer **pob cynnig** (felly mae'r rhain yn cynnwys y prosiectau Iechyd Meddwl a gymeradwywyd, ond ni ellir eu gwahanu ar hyn o bryd).

Cyllid Gofal Integredig

Yn hanesyddol, mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi darparu cyllid ar gyfer grwpiau allweddol o'r boblogaeth fel pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, gofalwyr a phlant ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, ni chlustrnodwyd cyllid ar gyfer y grwpiau hyn (ac eithrio pobl hŷn), ac o ganlyniad roedd byrddau partneriaeth rhanbarthol yn gallu buddsoddi cyllid y Gronfa Gofal Integredig yn unol â'u blaenoriaethau lleol eu hunain fel y'u penderfynwyd gan eu hasesiad o anghenion y boblogaeth a'u Cynlluniau Ardal.

Mae'n bwysig nodi hyd yn hyn bod plant ag anghenion cymhleth wedi'u diffinio'n swyddogol fel 'plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch,' er bod rhai rhanbarthau wedi mabwysiadu agwedd ehangach ac wedi cynnwys grwpiau eraill o blant ag anghenion cymhleth yn eu cynlluniau buddsoddi mewn prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig, fel plant sy'n derbyn gofal. Bydd y Gweinidog yn ystyried cais y Comisiynydd Plant i ehangu'r diffiniad o blant ag anghenion cymhleth i gynnwys plant ag anghenion eraill, a bydd yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r diffiniad yng nghanllawiau Rhan 9 diwygiedig o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd.

Yn 2019-20, gofynnwyd i fyrddau partneriaeth rhanbarthol gyflwyno cynlluniau buddsoddi dwy flynedd. Ar gyfer 2019-2020, dyrannwyd £15m ychwanegol i'r Gronfa Gofal Integredig er mwyn ariannu prosiectau penodol sy'n ceisio atal plant ar ymylon gofal rhag mynd i ofal, a chynnig cymorth emosiynol a llesiant i blant sydd mewn gofal neu sydd wedi'u mabwysiadu.

Yn ogystal, bu byrddau partneriaeth rhanbarthol yn buddsoddi arian i gefnogi prosiectau a gwasanaethau ar gyfer plant ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr ifanc. Un enghraifft ragorol yw'r 'Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion' sy'n cael ei threialu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen hon ar waith mewn 10 ysgol (cynradd ac uwchradd) ledled y rhanbarth ac mae'n helpu i godi ymwybyddiaeth staff a disgyblion o ofalwyr ifanc a'u cyfrifoldebau. Mae'r prosiect wedi darparu cyswllt a chymorth ar gyfer gofalwyr ifanc ac mae'n datblygu pecyn cymorth o adnoddau ar gyfer staff sy'n helpu i gefnogi disgyblion iau sy'n ofalwyr.

Rydym eisoes yn gweld cynnydd mewn gwariant a bennir yn lleol yn ffurfio dyraniadau'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi plant. Yn 2018-19, gwariwyd £4.8

miliwn ar brosiectau i gefnogi plant ag anghenion cymhleth yn benodol. Yn 2019-20, mae'r ffigur hwn wedi codi i £7.1miliwn, sef cynnydd o tua 48%.

Roedd canllawiau Cronfa Gofal Integredig 2019 wedi gofyn am gynlluniau buddsoddi dwy flynedd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ond nid yw llawer o'r Byrddau wedi pennu eu hymrwymadau ar gyfer 2020-21 eto. Serch hynny, rhagwelir y bydd y patrymau prosiect a gwasanaeth presennol a ariennir trwy'r Gronfa Gofal Integredig yn para am flwyddyn arall. Mae hyn yn debygol o olygu y bydd mwy na £22 miliwn o gronfa refeniw £89 miliwn y Gronfa Gofal Integredig yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau a phrosiectau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn uniongyrchol, a bydd llawer ohonynt yn hyrwyddo iechyd emosiynol a llesiant da ar gyfer plant a phobl ifanc.

O safbwynt dysgu gwersi, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u herio'n gryf gan swyddogion i ddatblygu prosiectau a dulliau gweithredu rhanbarthol yn hytrach na chynigion awdurdodau lleol ar wahân, a oedd yn digwydd mewn rhai ardaloedd. Nid yw gwasanaethau plant wedi'u cysylltu'n gryf â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn hanesyddol, felly mae rhai o'r dulliau gweithredu rhanbarthol yn ymddangos fel pe baent wedi'u datblygu ychydig yn llai, er eu bod yn gryf mewn rhanbarthau eraill.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Bydd y dyraniadau cyllido a ddarparwyd yn 2019-20 ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig (gweler isod) yn cael eu hailadrodd yn 2020-21 er mwyn helpu i weithredu cynlluniau buddsoddi dwy flynedd y Gronfa Gofal Integredig a ddatblygwyd gan ranbarthau.

Integrated Care Fund Allocations 2019-20							
	Older people with complex needs and long term conditions, including dementia	People with learning disabilities, children with complex needs and carers	Early intervention and support to children and their families	Integrated Autism Service	Welsh Community Care Information System (WCCIS) - To be held centrally in WG, Allocations to be confirmed.	Dementia**	Total
	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Swansea Bay Area*	5.224	2.590	1.942	0.398		1.175	11.329
Gwent	7.162	3.826	2.870	0.458		1.611	15.928
North Wales	9.567	4.251	3.189	0.652		2.153	19.812
Cardiff and Vale	4.895	2.879	2.159	0.367		1.101	11.402
Cwm Taf*	5.521	3.214	2.411	0.367		1.242	12.756
West Wales	5.550	2.426	1.819	0.398		1.249	11.442
Powys	2.080	0.814	0.610	0.337		0.468	4.309
Total	40.000	20.000	15.000	2.977	-	9.000	86.977
				77.977			
£77.977m will be issued through the main NHS Allocation letter.							
* Adjusted for Bridgend aside from the Integrated Autism Service allocation which remains with Swansea Bay until further notice.							
** Dementia funding is held centrally within Welsh Government and issued 'in-year'							

Oddi mewn i'r dyraniadau cyffredinol, clustnodwyd swm o £15 miliwn ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn darparu prosiectau ar gyfer plant sydd mewn perygl o fynd i ofal. Yn ogystal, mae dyraniad o £20 miliwn wedi'i ddarparu i ariannu prosiectau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu (plant ac oedolion), plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc). Gall rhanbarthau ddewis buddsoddi'r arian hwn mewn gwasanaethau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Dyma fanylion y cyllid £35 miliwn yn ôl y saith rhanbarth:

- Caerdydd a'r Fro - £5.038 miliwn
- Cwm Taf – £5.625 miliwn
- Gwent - £6.696 miliwn
- Gogledd Cymru – 7.44 miliwn
- Powys - £1.424 miliwn
- Gorllewin Morgannwg – 4.532 miliwn
- Gorllewin Cymru – 4.245 miliwn

Hefyd, bydd £0.2 miliwn ar gael fel bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu datblygu gallu rhanbarthol mewn ffordd a fydd yn gwella mynediad ar gyfer plant a phobl ifanc y mae angen gweithgarwch ymyrryd ac atal lefel isel arnynt. Bydd y

cynigion yn ceisio datblygu gallu a chydgyssylltu amlasiantaethol ar lefel iechyd meddwl sylfaenol a fydd yn pontio rhwng gwasanaethau ataliol (h.y. y dull ysgol gyfan) a CAMHS arbenigol.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu dyraniad cyllid/buddsoddiad ychwanegol i Fyrddau Iechyd unigol ar sail cyfran y boblogaeth gan ddefnyddio'r ystadegau diweddaraf.

Roedd Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc y GIG yn dod i ben ar 21 Hydref 2019. Mae'r rhaglen wedi ysgogi cynnydd sylweddol o ran gwella gwasanaethau dros y 3 blynedd diwethaf. Cyflwynwyd cynnig terfynol i'r Gweinidog gan y Rhaglen ddechrau mis Tachwedd, ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan Grŵp Cyfeirio Arbenigol T4CYP a Bwrdd y Rhaglen yn ehangach.

Mae diweddariad arall i'r rhaglen barhaus â ffocws newydd wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor yn ein llythyr dyddiedig 9 Rhagfyr 2019.

Nid oes unrhyw drosglwyddiadau ffurfiol rhwng MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a MEG Addysg i weithredu'r Dull Ysgol Gyfan a Chynlluniau Peilot Mewngymorth CAMHS. Bydd y cyllid sy'n cefnogi'r mentrau yn aros yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

5. Iechyd Meddwl Amenedigol

Nid ydym wedi dyrannu ffigur penodol ar gyfer yr uned arbenigol eto, gan ein bod yn aros i gael gwybod am y costau disgwylidig. Fodd bynnag, mae hwn yn faes blaenoriaeth ac rydym wedi ymrwymo'n ffurfiol i sefydlu uned a darparu'r cyllid cyfalaf sydd ei angen i wneud hynny.

Cafodd y buddsoddiad gwreiddiol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol ei wneud i fyrddau iechyd yn 2015-16, sef £1.435 miliwn.

Trwy'r gronfa trawsnewid iechyd meddwl, a ddechreuodd yn 2018/19, roedd gan fyrddau iechyd hyblygrwydd i benderfynu ym mha feysydd roedd eu cyllid wedi'i ddyrannu yn erbyn nifer o feysydd blaenoriaeth a benderfynwyd ymlaen llaw. O ganlyniad, penderfynodd rhai byrddau iechyd, ond nid pob un, ddyrannu cyllid ychwanegol i wasanaethau cymunedol iechyd meddwl amenedigol.

Yn yr un modd, trwy'r gronfa gwella gwasanaethau, a ddechreuodd yn 2019-20, roedd gan y byrddau iechyd hyblygrwydd i benderfynu ym mha feysydd roedd eu cyllid wedi'i ddyrannu yn erbyn meysydd blaenoriaeth a benderfynwyd ymlaen llaw. Hefyd, arweiniodd hyn at rai byrddau iechyd yn dyrannu rhagor o symiau i wasanaethau cymunedol iechyd meddwl amenedigol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y dyraniadau cyllido cronus a fydd yn rhan o'r cyllid a glustnodir ar gyfer Iechyd Meddwl ym mhrif Ddyraniad y Byrddau Iechyd yn 2020-21.

	Total
Health Board	£m
Betsi Cadwaladr University LHB	572,844
Powys Teaching LHB	133,649
Hywel Dda LHB	327,109
Swansea Bay University LHB *	320,991
Cardiff and Vale University LHB	248,203
Cwm Taf Morgannwg LHB *	285,030
Aneurin Bevan LHB	472,237
	2,360,063

* Yn cynnwys addasiad dyraniad tybiannol gan fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi symud o ABM i Gwm Taf.

Bwrdd Iechyd

Cyfanswm £m

BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr
 BILI Addysgu Powys
 BILI Hywel Dda
 BILI Prifysgol Bae Abertawe*
 BILI Prifysgol Caerdydd a'r Fro
 BILI Cwm Taf Morgannwg
 BILI Aneurin Bevan

Bydd effaith y cyllid hwn yn cael ei monitro trwy'r trefniadau y cytunir arnynt ar gyfer cynllun cyflawni 2019-2022 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Rydym wedi nodi'n glir trwy ddyfarnu'r cyllid gwella gwasanaethau y bydd hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth â Safonau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan erbyn mis Mawrth 2020 a Safonau Cymunedol Amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion erbyn mis Mawrth 2021. Mae'r disgwyliad hwn yn berthnasol hefyd i fyrddau iechyd na wnaethant ddewis dyrannu eu harian ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn, ac maent wedi cael gwybod am hyn.

1. Plant sy'n derbyn gofal

Trosolwg

Awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb statudol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r cyrff hyn trwy'r Grant Cymorth Refeniw. Mae'r rhan fwyaf o gyllid sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn gyllid nad yw wedi'i neilltuo - dros 80%. Gall awdurdodau lleol benderfynu sut maent yn defnyddio'r cyllid hwn, ochr yn ochr â ffrydiau incwm eraill, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol, diwallu anghenion lleol a gwireddu blaenoriaethau lleol.

Mae awdurdodau lleol yn gyrrff ymreolaethol sy'n atebol yn ddemocrataidd, ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol ar gyfer rheoli eu materion ariannol. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig hyblygrwydd sylweddol i awdurdodau arfer ymreolaeth a chyfrifoldeb wrth reoli eu cyllid. Oherwydd y pwysau ar gyllidebau, mae'n bwysicach nag erioed bod awdurdodau yn cynnwys pobl lleol wrth benderfynu sut mae adnoddau lleol yn cael eu blaenoriaethu a'u defnyddio. Yn benodol, mae angen i awdurdodau gynnwys trigolion wrth wneud penderfyniadau anodd am unrhyw doriadau posibl.

Y tu hwnt i'r buddsoddiad craidd hwn trwy'r Grant Cymorth Refeniw, mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb ganolog i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol a'r meysydd cysylltiedig. Mae'r gyllideb hon yn rhan o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn bennaf, dyrennir cyllid y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar sail y bobl rydym yn ceisio eu cefnogi, ac mewn llawer o gyllidebau, nid oes cyllid ar gyfer "plant" yn benodol.

Mae'r ymateb hwn yn cynnwys diweddariadau i lythyr Llywodraeth Cymru mewn ymateb i ohebiaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2016.

Grant Cymorth Refeniw – Cyllid Craidd ar gyfer Awdurdodau Lleol

Gwariwyd cyfanswm o £659 miliwn ar holl wasanaethau plant a theluoedd gan awdurdodau lleol yn 2018-19. Gwariwyd bron i hanner yr arian (£311 miliwn) ar blant mewn gofal. Mae'r rhan fwyaf o'r arian yn cael ei wario ar ochr ddrutach y sbectwm yn hytrach nag ar wasanaethau ataliol. Gwariwyd tua £127 miliwn ar wasanaethau maethu, a £95 miliwn ar ofal preswyl.

Mae cyllid craidd sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol trwy'r Grant Cymorth Refeniw, ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu, yn rhan o'r darlun yn unig. Mae gan awdurdodau lleol ffynonellau ariannu eraill. Maent yn cynnwys grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, gyda rhai ohonynt yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, a'u hincwm eu hunain a godir yn lleol fel arian o'r Dreth Gyngor, ffioedd a thaliadau.

Rydym wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol sydd wedi ein hysbysu am y pwysau mwyaf sy'n eu hwynebu. Felly, ar gyfer Setliad Llywodraeth Leol 2019-20 ychwanegwyd £20 miliwn at y Grant Cymorth Refeniw er mwyn cydnabod y pwysau ar wasanaethau cymdeithasol.

Mae'r fformiwla dosbarthu ar gyfer y cyllid hwn nad yw wedi'i neilltuo yn defnyddio dangosyddion angen sy'n dylanwadu ar gyfraddau plant sy'n derbyn gofal, fel plant dibynnol mewn teuluoedd di-waith.

Gwariant Grant Cymorth Refeniw ar Wasanaethau Plant Awdurdodau Lleol

Mae ystadegau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod gwariant ar wasanaethau plant awdurdodau lleol wedi cynyddu bob blwyddyn¹. Yn 2010-11, gwariwyd £424 miliwn, gan godi i £659 miliwn yn 2018-19.

Cronfa Gofal Integredig £15 miliwn

Gweler y disgrifiad manwl o'r Gronfa Gofal Integredig uchod.

Ers 2019-20, mae £15 miliwn ychwanegol o gyllid y Gronfa Gofal Integredig wedi'i ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn helpu i gryfhau trefniadau integredig rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector, mewn perthynas â gwella ataliaeth ac ymyrryd yn gynharach gyda phlant a'u teuluoedd.

¹ <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Social-Services/social-services-socialservicesrevenueexpenditure-by-clientgroup>

Bydd y cyllid yn helpu i fynd i'r afael â rhai o bryderon y Comisiynydd Plant a Phenaethiaid Gwasanaethau ynglŷn â'r angen i ganolbwyntio mwy ar yr agenda plant ar lefel bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

Mae byrddau partneriaeth rhanbarthol, sy'n gweinyddu'r gronfa ledled Cymru, wedi cyflwyno eu Cynlluniau Buddsoddi refeniw dwy flynedd sy'n nodi sut maent yn bwriadu defnyddio eu cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig. Mae'r holl Gynlluniau wedi'u hadolygu er mwyn sicrhau cysondeb â chanllawiau'r Gronfa Gofal Integredig a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019, ac mae adborth unigol wedi'i roi i bob rhanbarth.

Yn gyffredinol, mae prosiectau i gefnogi plant sydd mewn perygl o fynd i ofal yn ategu amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae angen nodi i ba raddau y mae'r prosiectau hyn yn cael eu datblygu ar lefel ranbarthol. Hefyd, gellid cryfhau'r cynlluniau o safbwynt cyfraniad posibl y trydydd sector at ddarparu gwasanaethau, a sut maent yn integreiddio â gwasanaethau ieuchyd.

Hefyd, darparwyd £1 miliwn yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau plant yn 2018-19 ar gyfer prif weithgareddau i'w cynnal yn 2019-20 er mwyn lleihau'r angen i blant dderbyn gofal, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynadleddau teuluoedd a rhagor o bwyslais ar aduno teuluoedd, lle bo hynny er budd pennaf y plentyn a'i bod yn ddiogel gwneud hynny.

Bwriedir cynnig y cyllid hwn i awdurdodau lleol yn rheolaidd.

Cyllid £2.3 miliwn ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu yng Nghymru

Fel y nodwyd uchod, dyrennir £2.3 miliwn i awdurdodau lleol yn 2020-21 i'w galluogi i gryfhau eu darpariaeth o wasanaethau mabwysiadu.

Derbyniwyd pum cynnig cyfunol gan bob un o'r gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol cydweithredol, a chynnig canolog gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Dangosodd y dadansoddiad fod y gwasanaethau mabwysiadu cydweithredol yn bwriadu defnyddio rhan o'r cyllid i benodi cydgysylltydd 'TESSA' ym mhob un o'u rhanbarthau er mwyn darparu gwasanaethau cwnsela arbenigol ar gyfer mabwysiadwyr a'u teuluoedd er mwyn helpu i atal argyfwng a'r posibilrwydd o amharu ar brosesau mabwysiadu, neu eu methiant.

Cyllid Rheolaidd gwerth £9.5 miliwn ar gyfer Gwasanaethau Plant (o 2017-18 ymlaen)

 - Plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys gwasanaethau maethu;
 - Gwasanaethau ar ffiniau gofal / gwasanaethau gofal i atal plant rhag derbyn gofal;
 - Cymorth wrth adael gofal.
- Manylion trafodaethau, a chanlyniadau trafodaethau, gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol am yr adnoddau sydd eu hangen ar awdurdodau lleol yn y Grant Cymorth Refeniw i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Manylion trafodaethau gyda'r Grŵp Cyngori Gweinidogol Gwella Canlyniadau i Blant a sut maent wedi dylanwadu ar y dyraniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21.

O ran dyraniadau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar draws y portffolios, byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am **Ymateb Llywodraeth Cymru yn 2016 i lythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** o ran plant sy'n derbyn gofal.



O ran awdurdodau lleol, a allwch chi nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unrhyw asesiad o ran a yw hyn yn gysylltiedig â lefelau gwariant o'r Grant Cymorth Refeniw a'r Grantiau wedi'u Neilltuo. Byddem hefyd yn ddiolchgar am eich barn ar yr amrywiad mewn gwariant fesul plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Byddwn hefyd yn gofyn i awdurdodau lleol am eu barn ar y cyllid sydd ar gael iddynt i atal plant rhag dod i mewn i'r system ofal a hefyd i gefnogi'r plant hynny sy'n derbyn gofal.



CYPE(5)-01-20 - Papur 12

Chair of Children, Young People & Education Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA



19th November 2019

Dear Lynne

Welsh Government Draft Budget 2020-21: Pressures on Children's Services

Thank you for seeking the views of the Association of Directors of Social Services Wales (ADSS Cymru) on the Welsh Government's upcoming Draft Budget for 2020-21 to be published next month.

Obviously, the calling and eventual outcome of a UK General Election, has caused a degree of uncertainty for the local government sector as a whole in Wales, both in terms of the scrutiny timetable but also, what the potential financial dividend might be for Wales from a newly elected UK Government.

However, like our colleagues in the Welsh Local Government Association (WLGA), we have been working on assumptions based on the figures that have already been announced. In early September, the UK Government published its one-year Spending Round figures, in which the Chancellor promised an extra £600m for the Welsh Government's budget next financial year (£593m revenue above the baseline and £18m capital). The Spending Review announced an additional £3.5 billion for English local authorities, with an additional £1 billion specifically for social care. While we understand that there was an £180m adjustment on non-domestic rates which brought the overall figure down (something that is being challenged by Welsh Government), this additional funding for Wales is very much welcomed and provides the Welsh Government with a valuable opportunity to further invest in essential local services; hopefully beginning to reverse the damaging impact of austerity.

As we look ahead to the Welsh Government's own budget setting, we know that local government funding will again be under enormous pressure. As our colleagues in the WLGA stated in a letter to the Minister for Health and Social Services in September:

"We fully acknowledge that this will mean difficult decisions – both for central and local government – and that frank assessments of prioritisation will be required."

Local government is at the forefront of delivering public services and that it is a priority area for the Welsh Government. The sector has been given a commitment by Ministers that they will provide the best possible outcome to local government from its budget process. We hope the additional consequential funding announced by the UK Government will enable the Welsh Government to ensure local government services do receive

increased funding, for the benefit of people who rely on such local services on a day to day basis.

One of the very top priorities for the coming years must be social care. The pressures on social care – both Adult and Children’s Services - over the last decade, have been enormous. Spending on social services linked to social and demographic pressures continues. However, increased, complex demand, coupled with social care inflationary pressures, are for many exceeding affordable budget allocations. Whilst departmental savings are being made, most have seen little reduction in actual costs. There is now little flexibility within local authority social services budgets to respond to in-year financial pressures. So much so, that some authorities have had to take recourse action through the use of contingency and reserve funding. This is clearly having a negative impact on available services and is simply not a sustainable position going forward.

The funding gap in Children’s Services from increased demand and falling budget settlements has grown significantly over the last decade. My colleagues who are leading social care departments all over Wales, are doing their very best to support individuals, families and communities in an extremely challenging environment. Over 16,000 children in Wales receive care and support from Welsh councils. Directors and Heads of Children’s Service seek to intervene with families earlier and prevent problems from escalating; they are trying to recruit and retain more social workers and they are trying to ensure sufficient placement choice to meet the often, complex needs of children and young people. From large rural counties to city councils, it is consistently reported that demand for children's services is putting local authority budgets under enormous pressure.

According to Wales’ Fiscal Analysis’ (Cardiff University) *Cut to the Bone; Local Government Finances in Wales* (2019), spending on children’s social care has increased by £96 million (33%) in real terms since 2009-10, but this is largely a reaction to the increase in demand. The greatest area of demand is around children who are in the ‘looked after’ care system. In March 2019, the total number of children in care across Wales was 6,405. Compare that figure to a decade ago, when there were 4,695 children being looked after by councils in 2009; it is an increase of 2,150 (46%). Spending on children in care accounted for 53.3% of total budgeted expenditure on children’s and families’ social services in 2018-19. There is growing concern at these high numbers and local authorities, working with Welsh Government, are endeavouring to safely reduce the number of children in their care and prevent more children coming into the ‘looked after’ system.

While reducing the number of children in care will reduce some costs for local authorities over time, investment is currently required to provide appropriate intervention and preventative services to achieve these objectives, for example, increased access to therapeutic support and trauma-informed models of care. Yet, the huge financial pressures councils are under, coupled with the spike in demand for child protection support, mean that the limited money councils have available is increasingly being taken up with the provision of urgent help for children and families already at crisis point, leaving very little to invest in early intervention. Hence, a spiral of uninterrupted and increasing need for services is driving a mounting complexity of challenges for the most vulnerable children.

One of the most significant areas of contention between health boards and local government is Continuing Health Care for children. Whilst we appreciate that Welsh

Government has undertaken a recent consultation exercise on renewing CHC guidance, the reality is that health boards are either not paying their fair share of the costs required to fulfil the needs of this small but complex group of children and young people or they are withdrawing completely from long-standing CHC commitments. This is just exacerbating the financial pressures that authorities are facing. Whether the new guidance will ameliorate the situation is yet to be seen and tested. However, we know of many examples where local authorities are funding services that should be provided by or funded by health boards. This has to be addressed by Welsh Government as a matter of urgency.

We also believe Welsh Government must acknowledge the real pressures right across social care, and it must better recognise the real costs of social care inflation linked to things like the National Living Wage, new regulatory requirements and increasing citizen expectations. It has to properly recognise too, that new models of care, which are being implemented, are expensive to implement in the short term and that demand for core services continues to increase, at least at this stage of the transformation journey. Whilst one off grant funding for innovation has helped to develop the new models of care and relieve some pressure areas, this does not deal with the real underlying deficit in funding; offsetting future cost pressures does not pay the bills today. It also does not assist the sector to properly recruit and invest in the long-term sustainability of its workforce, which is currently feeling underpaid and undervalued. Short-term or one-off grant funding for one or two-year employment contracts are again not sustainable. Investment in the sector has to be put in the baseline to allow authorities to have the ability to flex to their population needs.

I hope I have demonstrated our commitment, as professional leaders, to do everything we can to meet the demands being placed on Children's Services. However, as I have indicated, this is becoming unsustainable, with most local authorities now anticipating significant overspends on their children's services. Moreover, we have to be mindful of addressing pressures right across the social care system. Whilst reducing the numbers of children within the 'looked after system' is, of course, important, if we prioritise that one issue with current resources, there is a risk that there will be a systemic imbalance elsewhere and we may see, for example, the sharp rise of Delayed Transfers of Care within adult services. These are the challenges our members have to compete with every day within a shrinking envelope of resource.

We know that high quality, properly funded, social care and support enables children, young people and their families, to live the lives they want to lead through access to the right care in the right place at the right time. That is why ADSS Cymru is urging the Government, in its upcoming budget, to invest fairly in our essential social care services for the well-being of the most vulnerable in our society.

Yours sincerely,




Sue Cooper, ADSS Cymru President

ADSS Cymru (Wales) Ltd, ADSS Cymru Business Unit
Ty Antur, Navigation Park, Abercynon CF45 4SN
T: 01443 742641 : www.adss.cymru

Briff i Aelodau'r Cynulliad

Sut mae cyllideb ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Rhagfyr 2019



Crynodeb

Cyllideb Llywodraeth Cymru yw'r un penderfyniad mwyaf (neu set o benderfyniadau) sy'n cael ei wneud gan gorff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Yn ogystal â phenderfynu sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu, mae'r broses gyllidebol a phenderfyniadau penodol yn anfon arwyddion pwysig am flaenoriaethau i'n holl wasanaethau cyhoeddus ac yn dangos i ba raddau'r mae'r blaenoriaethau hynny'n symud yn unol â'r dyheadau a osodwyd gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan fod y gyllideb yn set o benderfyniadau sydd mor bwysig i ddyfodol Cymru, rwy'n monitro ac asesu'r gyllideb ddrafft bob blwyddyn ac yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Wrth fonitro'r gyllideb, eleni rwy'n canolbwyntio ar:

DDATGARBONEIDDIO - Sut mae Llywodraeth Cymru'n cwrdd â'r Argyfwng Hinsawdd drwy benderfyniadau a dyraniadau'r gyllideb?

ATAL - Sut mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r diffiniad o atal i sefydlu ymagweddau ataliol drwy benderfyniadau a dyraniadau'r gyllideb?

Drwy ymgysylltu â staff Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n glir bod y pynciau hyn o ddiddordeb i Aelodau o wahanol Bwyllgorau. Mae'r briff hwn felly'n rhoi trosolwg o'r canlynol:

- Fy nisgwyliadau o'r modd y dylai'r gyllideb fod yn newid mewn perthynas â datgarboneiddio ac atal;
- Cynnydd Llywodraeth Cymru, yn cynnwys asesiad lefel uchel o ymrwymiadau yn naratif y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr;
- Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu harchwilio ymhellach mewn perthynas â datgarboneiddio ac atal, fel rhan o graffu ar y gyllideb.

 SOPHIE HOWE
Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru

Tudalen y pecyn 212



Cynnwys


- 01 1) Buddsoddi yn yr Argyfwng Hinsawdd
- 06 2) Buddsoddi mewn ymagweddau ataliol
- 11 3) Asesu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y gyllideb
- 14 4) Cymryd camau pellach tuag at ymagwedd tymor hir

Mae'r adrannau hyn yn seiliedig ar argymhellion a gynhwyswyd yn y cyngor i Lywodraeth Cymru ar ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebol, a gyhoeddais yn Rhagfyr 2018.

▶ Gellir cyrchu hwn ar:
<https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2018/12/2018-11-29-FGC-Budget-Recommendations-CYM.pdf>

Mae sawl cyfeiriad at argymhellion yn y briff:

- Bydd argymhellion gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ymddangos mewn **oren**.
- Bydd argymhellion gan Bwyllgorau y Cynulliad, sydd yn cefnogi ein argymhellion i'w gael mewn **glas**.



Adran 1

1

Buddsoddi yn yr Argyfwng Hinsawdd

Yn seiliedig ar fy ngwaith craffu ar y gyllideb llynedd, roedd fy nghyngor yn cynnwys dau argymhelliad i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod buddsoddi mewn datgarboneiddio'n adlewyrchu uchelgais:

Argymhelliad: Mae Llywodraeth Cymru'n mynegi'n glir sut y bydd y camau a osodir yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel yn cael ei ariannu er mwyn i ni gwrdd â'n targedau gostwng allyriadau statudol;

Argymhelliad: Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried ac yn gosod y lefel buddsoddi traws Lywodraeth sydd ei angen i gwrdd â'n targedau, yn arbennig mewn perthynas â: i. Trafnidiaeth; ii Tai/adeiladau; iii. Y trawsnewid i Gymru garbon isel.

Ar Fawrth 21, 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Cynllun Carbon Isel cyntaf – “Ffyniant i Bawb”.

Ar 29 Ebrill cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ei bod yn Argyfwng ar yr Hinsawdd.

▶ Gellir cyrchu'r cynllun hwn ar:
<https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/06/Cynllun-10-Pwynt-i-Ariannu-Argyfwng-Hinsawdd-Cymru-Adroddiad-Manwl.pdf>

Ym Mehefin cyhoeddais Gynllun Deg Pwynt i gyllido Argyfwng Hinsawdd Cymru sy'n cynnwys cynigion ar gyfer cynyddu buddsoddi mewn meysydd allweddol yn cynnwys trafndiaeth gynaliadwy, adeiladau a chartrefi carbon isel/sero, ynni adnewyddadwy a datrysiadau seiliedig ar dir/natur.

Er ei bod yn anodd cyfrifo faint yn union o gyllid sydd ei angen, gwyddom y bydd ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gofyn, yn gyffredinol, am lefel llawer uwch o fuddsoddiad.

Mae fy Nghynllun yn argymhell cyfanswm o £991 miliwn o ddyraniad i gynorthwyo datgarboneiddio yng nghyllideb nesaf Llywodraeth Cymru (2020-21) sydd yn unol ag amcangyfrif Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd o ryw £30 biliwn dros y cyfnod i fyny at 2050 (neu 1-2% o Gynnyrch Domestig Gros).



Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

“Ar gyfer ymagwedd fwy strwythurol a thymor hwy, mae'r Cynllun Deg Pwynt a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol [...] yn gosod ymagwedd i'w hystyried a'i defnyddio fel canllaw...”

▶ Extinction Rebellion Cymru - ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid, Medi 2019

Dros y 3 mis diwethaf, rwyf wedi gofyn am wybodaeth gan Weinidogion, ac ymatebion manwl i'r cwestiynau canlynol:

1. Gan adeiladu ar y camau a nodir yn y Cynllun Cyflenwi Carbon Isel, beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddiad datgarboneiddio mewn perthynas â'ch portffolio a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â refeniw a gwariant cyfalaf?
2. Beth yw eich asesiad o'r dyraniadau a nodwyd yn fy Nghynllun 10 Pwynt, ac os ydych chi'n anghytuno â'r awgrymiadau beth yw eich cynigion?
3. Sut ydych chi'n asesu faint rydych chi'n ei wario yn gyffredinol ar gamau datgarboneiddio, ac a oes gennych chi ddull ar gyfer dosbarthu gwariant datgarboneiddio?
4. Ar sail y pwyntiau uchod, pa newidiadau penodol fydd yng nghyllideb ddrafft 2020-21?

Rwyf wedi cynnal nifer o sgysiau gyda Gweinidogion a swyddogion: Tra bu ymgysylltu'n gadarnhaol, mae trafodaethau ac ymatebion hyd yn hyn wedi bod yn brin mewn manylder, gan gyfeirio at bocedi o gyllid ar gyfer gweithgareddau ond heb dystiolaeth o newid systemig na thrawsffurfiol.

O'r sgysiau hyn mae canfyddiadau'n cynnwys:

- Ymddengys bod diffyg cysylltiad rhwng ymrwymadau polisi a wnaethpwyd (er enghraifft yn “Carbon Isel Cymru”) a dyraniadau cyllideb.
- Ymddengys nad yw'r datganiad am “argyfwng” hinsawdd yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau am y broses gyllidebol a dyraniadau, sydd yn aml yn cyfeirio at heriau a rhwystrau.
- Ymddengys nad oes dystiolaeth bod gan Lywodraeth Cymru broses glir i ddsbarthu neu asesu faint y maent ar hyn o bryd yn ei wario (neu angen ei wario) ar gamau datgarboneiddio i gyflawni'r cyllidebau neu dargedau carbon statudol.
- Nid oes ymagwedd gyson tuag at ymgymryd ag asesiadau effaith carbon ar gyfer prosiectau seilwaith mawr; nid yw'n glir sut mae effaith carbon yn trwytho penderfyniadau (ar brosiectau neu gyllid) ac nid oes coladu canolog o Asesiadau Effaith Carbon ar draws y Llywodraeth.
- Er enghraifft, er bod 'Project Pipeline 2019' Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n crybwyll buddsoddiad ychwanegol o £14.5 miliwn ar gyfer teithio llesol, nid yw'n glir sut mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n gyffredinol yn rhoi blaenoriaeth i fesurau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gyda 64% o gyllideb trafndiaeth Cymru ar hyn o bryd yn cael ei wario i adeiladu ffyrdd.

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

Rwyf wedi herio'r Llywodraeth ar y modd y maent yn deall i ba raddau mae penderfyniadau'n 'datgarboneiddio' h.y. deall effaith carbon cyfredol sy'n deillio o benderfyniadau buddsoddi, ac effaith datgarboneiddio a photensial penderfyniadau'r dyfodol. Mae'n glir nad oes gan y Llywodraeth ymagwedd gyson tuag at wneud hyn ar hyn o bryd, ac maen nhw wedi gofyn i mi ddarparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn.

Rwyf wedi canolbwyntio ar drafnidiaeth fel maes allweddol ble gall Llywodraeth Cymru wneud cynnydd, yn enwedig am fod cynnydd mewn lleihau allyriadau'r sector drafnidiaeth yn llai na'n targed. Yn ystod trafodaethau gyda'r Llywodraeth fe wnaethon ni amlygu sawl her a chyfyngiad yn y maes hwn, yn bennaf oherwydd bod y rhan fwyaf o arian cyfalaf eisoes wedi cael ei glustnodi ar gyfer 2020/21, nad yw cyfrifoldeb am isadeiledd y rheilffyrdd wedi'i ddatganoli i Gymru, ac mai cyfyng yw'r sgôp ar gyfer gweld dyraniadau cyllidon newid yn sylweddol. Ymddengys yn glir bod ffocws presennol y Llywodraeth ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth ar y ffyrdd, yn hytrach nag ar y potensial ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol er mwyn cyflawni symudiad sylweddol mewn arferion.

Cefnogir ein canfyddiadau gan argymhellion Pwyllgor y Senedd ar Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig '[Adroddiad Blynyddol ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran newid hinsawdd, 2019-20](#)' (a gyhoeddwyd 18 Rhagfyr) sy'n cynnwys:

Argymhelliad 6: Dylai cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru esbonio a dangos yn glir sut y bydd dynodiadau cyllido'n cefnogi'r flaenoriaeth i ddatgarboneiddio.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad o gostau, manteision ac effaith datgarboneiddio ymhob polisi a chynnig a gynhwysir yn fersiwn nesaf ei chynllun datgarboneiddio.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno mecanwaith, fel asesiad effaith carbon, i adrodd i'r Senedd am unrhyw benderfyniadau polisi a fydd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn allyriadau carbon.

▶ Dolen yr adroddiad:
<https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12934/cr-ld12934%20-w.pdf>

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

Adborth ar y Gyllideb Ddrafft

Oddi mewn i'r Gyllideb Ddrafft, [rwy'n croesawu'r cynnydd o £59 miliwn \(37%\) mewn cyfanswm gwariant ar deithio cynaliadwy](#), wrth i £219 miliwn gael ei glustnodi yn 2020/21 ar gyfer prisiau tocynnau gostyngedig, cefnogaeth i fysiau, cardiau clyfar, cynlluniau teithio ar bris gostyngol i ieuencid, blaenoriaethau llywodraeth leol a theithio cynaliadwy a llesol. Bydd hyn yn annog datgarboneiddio trafniadaeth a lefelau uwch o weithgarwch corfforol.

Rwyf hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad bod £140 miliwn ar gael mewn cyllid cyfalaf newydd ar gyfer yr hinsawdd a'r amgylchedd – mae hyn yn mynd â'r [cyfanswm gwariant cyfalaf sy'n benodol ar yr hinsawdd a'r amgylchedd dros y trothwy 5%](#). Ochr yn ochr â buddsoddi £30 miliwn mewn isadeiledd i gerbydau trydan, cerbydau allyriadau isel ac mewn systemau metro newydd (i ogledd Cymru), ynghyd â pharhau i gyllido'r rhyddfrint rheilffyrdd newydd, dengys hyn ymrwymiad y Llywodraeth i fuddsoddi mewn atebion rhagweithiol i'r argyfwng hinsawdd.

Er fy mod i'n croesawu'r [cynnydd mewn buddsoddi cyfalaf mewn teithio llesol, trafniadaeth gyhoeddus ac isadeiledd i gerbydau trydan, o £80 miliwn](#), ymddengys bod hwn wedi cael ei wrthbwysio gan gynnydd sylweddol cyfatebol mewn buddsoddi cyfalaf mewn heolydd newydd. Yn hynny o beth, mae'r gyfran o gyfalaf sy'n cael ei gwario ar deithio llesol a chyhoeddus yn dal ychydig islaw'r lefel o 60% a argymhellir yn fy Nghynllun 10 Pwynt.

Mae'r pecyn £140 miliwn hefyd yn cynnwys cyllido cyfalaf o £25 miliwn i ymestyn y Rhaglen Dai Arloesol, £8.2 miliwn ar gyfer prosiect dai carbon niwtral yng Ngholeg y Cymoedd a chyllid i fynd i'r afael â'n hargyfwng natur, er bod y dynodiadau hyn yn brin o'r hyn a argymhellwyd gennyf yn fy Nghynllun. Serch hynny, er bod y gyllideb wedi targedu buddsoddiad i gyfeiriad mesurau "y mae tystiolaeth bresennol yn cefnogi fel rhai ble gall Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf i ddarparu ein cyllideb garbon gyntaf" [erys y ffaith nad oes dim asesiad holistig o effaith garbon net y gyllideb, ac ni ddarperir tystiolaeth fanwl i ddangos sut y maent wedi blaenoriaethu penderfyniadau gwario yn unol â hynny](#).

Ystyr hyn yw na all y Llywodraeth ddweud wrthym a yw'r ffordd y maen nhw'n gwario'u harian yn arwain at gynnydd ynteu leihad mewn allyriadau carbon. O ganlyniad, er gwaethaf ymdrechion i fuddsoddi mewn teithio cynaliadwy, rydym ni'n bryderus fod buddsoddiadau cyfalaf eraill y Llywodraeth, fel mewn heolydd, yn tansilio'r cynnydd sy'n digwydd mewn lleihau carbon.

Rwy'n galw ar y Llywodraeth, o hyn ymlaen, i ddadansoddi'n ffrensig bob agwedd ar ei gwariant, yn enwedig gwariant cyfalaf, yn nhelerau effaith carbon, a chyhoeddi manylion ar effaith gyffredinol carbon yn eu cyllideb.

Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu gofyn fel rhan o graffu ar gyllideb ddrafft 2020/21

1) Ymagwedd gyffredinol tuag at fuddsoddi yn yr Argyfwng Hinsawdd

- Beth yw'r newidiadau allweddol yng nghyllideb ddrafft 2020-21 sy'n adlewyrchu'r datganiad am yr argyfwng hinsawdd?
- Pa ddyraniadau allweddol yn y gyllideb sy'n dangos fod Llywodraeth Cymru'n ystyried o ddifrif yr angen i weithredu ar yr argyfwng hinsawdd ar y raddfa a'r cyflymder sydd ei angen?

2) Deall effaith carbon sy'n deillio o ddyraniadau'r gyllideb

- Sut ydych chi'n asesu gwariant cyfredol ar ddatgarboneiddio a pha ddyraniadau sy'n ofynnol dros y 5,10, 20 mlynedd nesaf i gyflawni ein targedau statudol
- Sut ydych chi'n asesu effaith carbon y penderfyniadau ar fuddsoddiadau mawr i sicrhau fod gwariant cyfalaf yn unol â thargedau lleihau allyriadau?

3) Datgarboneiddio trafndiaeth

- A fydd dyraniadau cyllidebol cyfredol yn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed ar gyfer allyriadau'r sector drafndiaeth pan nad ydym yn cyrraedd y targed ar hyn o bryd?
- Sut ydych chi'n asesu effaith carbon y penderfyniadau ar fuddsoddiadau mawr i sicrhau bod gwariant cyfalaf yn unol â thargedau lleihau allyriadau.
- A yw gwario 63% o'r gyllideb cyfalaf trafndiaeth ar ffyrdd yn cyd-fynd â'r datganiad ar yr argyfwng hinsawdd?

4) Datgarboneiddio tai

- Ers i'r adroddiad "Datgarboneiddio Cartrefi" gael ei gyhoeddi yng Ngorffennaf pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud i sicrhau cyllid ar gyfer ôl-osod cartrefi Cymru a pha ymrwymadau sy'n bodoli yng nghyllideb 2020-21?

* Bu gostyngiad o 3% yn allyriadau'r sector trafndiaeth ers 1990; y targedau yw gostyngiad o 14% erbyn 2020 a gostyngiad o 43% erbyn 2030 o'i gymharu â gwaelodlin 1990.

Buddsoddi mewn ymagweddau ataliol

Mae atal yn un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n bwysig fod symudiad mewn buddsoddiad o ddulliau adweithiol i rhai ataliol, i atal problemau rhag digwydd yn ogystal â'u hatal rhag mynd yn waeth.

Llynedd croesawais y diffiniad o atal a gynhwysir yn naratif y gyllideb.

Atal yw gweithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r deilliannau gorau posib, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a lleoliadau i'w cyfrannu. Wrth dorri'r cyfan i lawr i bedwar lefel, gall pob lefel leihau'r galw ar gyfer y nesaf:

- Atal cynradd (AC) – adeiladu gwytnwch -- creu'r amodau ble nad yw problemau'n codi yn y dyfodol, Dull cyffredinol o fynd ati.
- Atal eilaidd (AE) – Targedu gweithredu i gyfeiriad meysydd ble mae risg uchel yn bodoli ble gallai problem ddigwydd. Dull a dargedwyd, sy'n cadarnhau egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol*.
- Atal trydyddol (AT) – Ymyrryd unwaith y mae problem yn bodoli, i'w hatal rhag gwaethygu ac i'w rhwystro rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull ymyrrol o fynd ati.
- Gwario aciwt (GA) – Gwario, sy'n gweithredu er mwyn rheoli effaith sefyllfa negyddol iawn, ond sy'n gwneud fawr ddim neu ddim oll i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Dull adferol o fynd ati

* cyffredinoliaeth gynyddol yw'r penderfyniad i ddarparu cefnogaeth i bawb, gan roi llais a buddiant breintiedig i bawb a phopeth ynddo, ond gan gydnabod y bydd angen mwy o gefnogaeth gan y bobl neu'r meysydd hynny sydd ag anghenion uwch.

Ffynhonnell: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 Cynigion manwl

Buddsoddi mewn ymagweddau ataliol

Fodd bynnag, teimlais mai cyfyngedig iawn oedd cymhwysiad y diffiniad llynedd, felly nodais bedwar argymhellad ar atal yn y cyngor a gyhoeddais ar gyfer y Llywodraeth yn Rhagfyr 2018.

Argymhellad: Dylai Llywodraeth Cymru gymhwyso'r diffiniad o atal ym mhob gwariant, mewn dull systematig a chyhyrog, gan ddiffinio'n glir yr hyn y maent yn ceisio'i atal a dangos gweledigaeth glir drwy wario ar weithredu ar sail tystiolaeth ar draws y Llywodraeth. Dylent ystyried gweithio gyda sefydliadau ag arbenigedd yn y maes i sicrhau bod eu hymagwedd yn effeithiol.

Argymhellad: Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i wasanaethau cyhoeddus eraill (yn arbennig llywodraeth leol a byrddau iechyd) i gymhwyso'r diffiniad o atal i'w gwariant, i adnabod cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddi mewn atal sylfaenol ac eilaidd.

Argymhellad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth yw gwell cytbwysedd mewn gwariant mewn perthynas ag atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

Argymhellad: Gan gadw mewn golwg argymhellion Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cymhwyso'r camau a osodwyd gan adroddiad Comisiwn Polisi Iechyd Meddwl 'Investing in a Resilient Generation: Keys to a Mentally Prosperous Nation' yn fewnol, yn arbennig mewn perthynas â pha ran o'r Llywodraeth sy'n arwain yn strategol wrth sicrhau bod yna ymagwedd system gyfan tuag at atal.

Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi gwneud argymhellion perthnasol yn eu hadroddiad ar gyllideb y llynedd:

Argymhellad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gall unrhyw gyllid ychwanegol yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau iechyd gael eu targedu tuag at atal, a dylent ystyried sefydlu trefniadau partneriaeth o amgylch unrhyw gyllid o'r fath.

Argymhellad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cadw llygad barcod yn gyson ar y diffiniad o wariant ataliol, yn cynnwys ymgysylltiad egniol â rhanddeiliaid a'r Pwyllgor hwn.

Argymhellad 15: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i ymagwedd integredig ar draws Llywodraeth parthed gwariant ataliol, trawsadrannol, ac aml-flwyddyn.

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

Prin yw'r dystiolaeth fod y Llywodraeth wedi ceisio cymhwyso'r diffiniad o atal ar draws gwariant mewn modd systematig a chyhyrog.

Mae naratif drafft y gyllideb yn cynnwys mwy o gyfeiriadau at atal na chyllidebau blaenorol, yn enwedig mewn perthynas â buddsoddi mewn rhaglenni sy'n cynyddu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael â thlodi.

Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfeiriadau sydd yn y naratif at y mathau o atal sydd yn cael eu hariannu - rwy'n credu bod hwn yn gyfle a gollwyd i adrannau'r Llywodraeth ar y cyd i ddeall yr hyn y maent yn ceisio ei atal a'r cydbwysedd gorau o wariant i gyflawni hyn.


Mewn cydnabyddiaeth o raddfa'r her o ymgorffori ymagweddau ataliol, cynghorais y Llywodraeth i weithio gyda sefydliadau ag arbenigedd yn y maes hwn – nid ydynt wedi gwneud hynny. Rwyf wedi darparu adnoddau i Gyllid Cymdeithasol i'w galluogi i weithio gyda'r Llywodraeth, yn arbennig mewn perthynas ag archwilio prosiect peilot Bond Effaith Cymdeithasol (fel y caiff ei nodi ar dud 26 y gyllideb).

“Mae sefydliadau GIG Cymru'n cefnogi ymagwedd a fydd yn amddiffyn cyllid ymhellach ar gyfer mesurau ataliol, sy'n cydnabod pwysigrwydd gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy.”

► Cydffederasiwn y GIG
- Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, Medi 2019

Prin yw'r dystiolaeth fod y Llywodraeth yn ystyried beth yw natur gwell cydbwysedd gwariant mewn perthynas ag atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n diffinio'n glir yr hyn y maent yn ceisio'i atal gan ddangos gweledigaeth glir drwy wario ar gamau gweithredu ar sail tystiolaeth.

Rwyf wedi ysgrifennu ddwywaith at Weinidogion, ac wedi cwrdd â nifer o Weinidogion, gan ofyn nifer o gwestiynau penodol am y modd y maent wedi cymhwyso'r diffiniad o atal i'w portffolios ac mae'r atebion a dderbyniais wedi bod yn enghreifftiau cyffredinol o'r modd y mae meysydd polisi'n adlewyrchu'r Ddeddf LICD.



Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

“Fodd bynnag, mae’n anodd dadgyfuno gwariant ataliol (oherwydd nad oes eto ddiffiniad o lefel gwasanaeth cyffredin, a gellir ymarfer ymyrraeth gynnar ar draws y sbectwm angen); ond rydym yn cytuno bod costau ychwanegol/caledi yn debygol iawn o fod wedi arwain at doriadau mewn termau real mewn gwariant ataliol yn cynnwys y meysydd hynny a restrir yn nogfen y Pwyllgor’.

► Cyngor Castell-nedd Port Talbot - ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, Medi 2019

Mae yna beth tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru’n gofyn i wasanaethau cyhoeddus eraill i gymhwyso’r diffiniad i’w gwariant - rwyf wedi gweld enghreifftiau mewn perthynas â’r GIG a Thai.

Fodd bynnag, mae yna lawer mwy o gyfle i’r diffiniad gael ei ystyried mewn dull ystyrlon ar draws gwasanaethau, gyda Llywodraeth Leol yn fwllch penodol.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru’n ystyried ymagwedd ‘llywodraeth gyfan’ tuag at atal, sef yr hyn a argymhellais. Mae rhan o’u ‘cynllun gwella cyllideb’ sy’n ymdrin ag atal yn gadarnhaol, ond yn dibynnu ar y Trysorlys i sbarduno cynnydd – nid yw hon yn ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag ymgorffori ymagweddu ataliol.

Atal Digartrefedd

Er mwyn deall yn well i ba raddau y mae sgysiau’n digwydd ar draws y Llywodraeth mewn perthynas ag atal rwyf wedi ffocysu ar atal digartrefedd.

Tra mod i wedi darganfod fod sgysiau’n digwydd ar draws y Llywodraeth nid yw hyn yn glir yn naratif y gyllideb, ac mae’r sgysiau hyn i raddau helaeth yn ffocysu ar atal trydyddol gyda dim ond ychydig o ystyriaeth yn cael ei roi i gyfleoedd cydweithredol ar gyfer atal sylfaenol ac eilaidd. Credaf fod yna gyfleoedd pellach ar gyfer alinio cyllid ac ystyried a yw’n cyflawni’r canlyniadau gorau yn nhermau atal digartrefedd. Rwy’n gweithio’n glos gyda’r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a gadeirir gan Jon Sparkes o Crisis, ar hyn.

► Gellir gweld gwybodaeth am waith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar [https://llyw.cymru/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd?](https://llyw.cymru/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd?_ga=2.96013468.1885231479.1576761731-2094061263.1576512191)
_ga=2.96013468.1885231479.1576761731-2094061263.1576512191

Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu gofyn fel rhan o graffu ar gyllideb ddrafft 2020/21

“Roedd yn siomedig bod Ysgrifennydd y Cabinet pan ofynnwyd iddo am enghreifftiau o atal sylfaenol, eilaidd neu drydyddol o fewn ei gyllideb, wedi methu rhoi un enghraifft.”

► Pwyllgor Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol, craffu ar gyllideb ddrafft 2019-20

1) Ymrwymiad cyffredinol i ymgorffori atal (ffocws ar ganlyniadau)

- Pa rôl sy'n cael ei chwarae gan eich adran yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth gyffredinol o symud tuag at ymagweddau ataliol, a pha gyfraniad ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?
- Sut y gwyddoch eich bod yn buddsoddi yn y rhaglenni a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf?

2) Deall cydbwysedd gwariant mewn perthynas ag atal

- Sut rydych chi wedi defnyddio'r diffiniad o atal: pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r gyfran o'ch buddsoddiad sydd mewn atal sylfaenol, eilaidd, trydyddol, neu yng ngofod aciwt eich buddsoddiad?
- Ydych chi wedi gwneud newidiadau i'r modd yr ydych yn buddsoddi ar gyfer cyllideb 2020-21?

3) Annog cyrff eraill i ddefnyddio'r diffiniad o atal

- Sut rydych chi'n annog cyrff cyhoeddus eraill i ddefnyddio'r diffiniad o atal?

4) Ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag at atal

- Sut ydych chi'n sicrhau y gellir mabwysiadu ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag at atal, gydag arweiniad clir ac atebolrwydd am gynnydd?

Asesu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y gyllideb

Yn fy nghyngor i'r Llywodraeth pwysleisiais fod angen iddi fod yn haws i randdeiliaid ddeall beth sy'n newid mewn perthynas â'r gyllideb, a deall beth yw nodweddion newidiadau syml a newidiadau mwy trawsffurfiol.


Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda fy swyddfa i ddatblygu 'Diogelwyr Taith' i ddisgrifio beth yw ystyr 'da' yng nghyd-destun y modd y mae'r broses gyllidebol yn esblygu dros o leiaf y degawd nesaf.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n well sut mae'r chwe maes blaenoriaeth yn sbarduno gwahanol benderfyniadau drwy ystyried tueddiadau a senarios y dyfodol, gan gymhwysu'n holistig y diffiniad o atal a defnyddio cyfleoedd i wneud buddsoddiadau cydweithredol ar draws y system.

Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi gwneud argymhellion tebyg:

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut fydd y 'Diogelwr Taith' yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i gyflymu eu gweithrediad ac integreiddiad o amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn argymhell bod y defnydd ohono'n cael ei adlewyrchu yng Nghyllideb ddrafft 2020-21.

Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n parhau i ddangos sut mae'n gwneud y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o benderfyniadau a wneir yn eu sefydliad drwyddi draw, gan ymgysylltu'r gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 1019-20 8 â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r graddau mwyaf posibl, er mwyn cyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen o fewn Llywodraeth Cymru."



▶ Mae'r diagram yn sylfaen i fy mhrosiect 'Y Gallu i Greu.' Gallwch ddod o hyd i esiamplau ar y gwefan: <https://futuregenerations.wales/cy/the-art-of-the-possible/>

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru


Dewisodd Llywodraeth Cymru wneud y gwaith hwn eu hunain, gyda ffocws ar ymagwedd a fydd yn defnyddio iddynt hwy - gwnaethant fframio hwn fel 'Cynllun Gwella Cyllideb'. Rwy'n falch eu bod wedi cyhoeddi drafft o'r Cynllun hwn fel rhan o gyllideb ddrafft 2020-21

Mae'r Cynllun yn gychwyn defnyddiol ar gyfer deall beth allai natur cynnydd mewn perthynas â'r broses gyllidebol fod, ac rwy'n croesawu'r ffaith ei fod yn edrych yn eang ar draws Trysorlys Cymru. Deallaf fod swyddogion wedi ymgysylltu'n fewnol o fewn y Llywodraeth ar y Cynllun hwn, ac rwy'n edrych ymlaen at weld sut y byddant yn ystyried sylwadau wrth iddynt ymgysylltu'n allanol.

Er bod y Cynllun yn ddechrau da, credaf fod nifer o feysydd lle gellir cryfhau Cynllun Gwella'r Gyllideb i adlewyrchu'n well uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i alluogi rhanddeiliaid i ddeall cynnydd yn well - mae'r rhain yn cynnwys:

1) Codi lefel uchelgais a gweledigaeth

I adlewyrchu natur uchelgeisiol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r Cynllun gynnwys camau mwy uchelgeisiol a thrawsnewidiol o fewn ffrâm amser tymor hwy, yn cynnwys ystyriaeth o beth allai nodweddion cyllideb sy'n ymgorffori'r Ddeddf yn llwyr fod.



▶ Gellir gweld Cynllun Gwella Cyllideb Llywodraeth Cymru yma:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/cynllun-gwellar-gyllideb.pdf>

Fy marn ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru

2) Galluogi rhanddeiliaid i ddal i gyfrif ganlyniadau gwariant, ac olrhain pa mor drawsffurfiol yw'r newid

Dylai'r Cynllun alluogi rhanddeiliaid i olrhain y modd y mae penderfyniadau gwariant yn newid yn ogystal ag olrhain y modd y mae'r broses gyllidebol yn newid.

Gallai Llywodraeth Cymru ddysgu oddi wrth Gyllid Llesiant Seland Newydd yn hyn o beth: yn gyntaf, mae amcanion llesiant yn cael eu dethol, ac wedyn mae grwpiau traws-lywodraeth yn gwneud cynigion gwariant yn

erbyn yr amcanion hyn (ochr yn ochr ag asesiadau effaith). Mae Llywodraeth Seland Newydd yn dethol cynigion ac wedyn yn cyhoeddi'r modd y mae penderfyniadau gwariant wedi newid fel canlyniad i'r broses hon.

Dolenni i Gyllideb

Llesiant Seland Newydd:

▶ (Cyllideb Mai 2019)
https://treasury.govt.nz/sites/default/files/2019-06/b19-wellbeing-budget_1.pdf

▶ (Canllaw)
<https://treasury.govt.nz/sites/default/files/2018-12/budget19-guidance.pdf>

3) Ymgorffori ymhellach elfennau allweddol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â'r 5 dull o weithio

Tra bo'r Cynllun yn ddefnyddiol ar gyfer deall cynnydd, gallai fynd ymhellach wrth adlewyrchu elfennau allweddol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig wrth fframio sut mae'r gyllideb yn galluogi ffocysu ar amcanion llesiant y Llywodraeth, a thalu mwy o sylw i'r pum dull o weithio (yn arbennig 'hirdymor' ac 'atal').

Cwestiynau y gallai Aelodau ystyried eu gofyn fel rhan o'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft 2020-21

1. Beth yw lefel eich gweledigaeth a'ch uchelgais gyda'r gwaith hwn? A oes gennych syniad clir o nodweddion cyllideb sy'n ymgorffori'n llwyr y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?
2. Sut fydd y Cynllun hwn yn galluogi rhanddeiliaid i ddeall yr hyn sy'n newid o flwyddyn i flwyddyn, yn nhermau proses ac yn nhermau gwariant?

Cymryd camau pellach tuag at ymagwedd tymor hir

Yn y cyngor a gyhoeddais ar gyfer y Llywodraeth, fe wneuthum gynnwys dau argymhelliad oedd yn berthnasol i fabwysiad y Llywodraeth o ymagwedd tymor hwy, a fyddai yn ei dro yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill i gynllunio ar gyfer yr hirdymor.

Argymhelliad: Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos sut y maent yn cymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ymateb i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2019.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Adolygiad o Wariant fel cyfle i archwilio dewisiadau ar gyfer ymrwymadau gwariant aml-flwyddyn i gyrrff cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi wynebu heriau sylweddol wrth gynllunio cyllideb y flwyddyn hon, oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, cyddestun gwleidyddol y DU a'r datganiad am Rownd Gwariant un flwyddyn yn hytrach nag Adolygiad o Wariant cyflawn.

Rwy'n gwerthfawrogi bod yr heriau hyn wedi gwneud mabwysiadu ymagwedd tymor hwy yn fwy anodd i'r Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Am y rheswm hwnnw ni fyddaf yn ffocysu ar y maes hwn wrth graffu ar gyllid ddrafft 2020-21.

Fodd bynnag rwyf yn disgwyl gweld bod peth cynnydd wedi cael ei wneud ar y paratodau mewnol gofynnol. Byddaf yn parhau i fonitro'r maes hwn gan ganolbwyntio'n benodol ar y modd y mae Llywodraeth Cymru'n ymateb i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU sydd i fod i ddigwydd y flwyddyn nesaf.



YSGOGWR NEWID
(CYLLID, ATAL, IECHYD)

Cathy Madge
07974 895160
cathy.madge@futuregenerations.wales
@cathy_madge



YSGOGWR NEWID
(DATGARBONEIDDIO, CAFFAEL)

Eurgain Powell
029 2167 7400
eurgain.powell@futuregenerations.wales
@EurgainHPowell



@futuregenymru



/futuregenymru

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith ewch
i'n gwefan...

www.futuregenerations.wales.org

Tudalen y pecyn 228

